



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:  
7/2023  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
06/02/2023

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd- brentisiaethau

## Adroddiad Terfynol

Teitl: Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau

Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Oliver Allies, Chloe Maughan, Declan Turner

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Maughan, C; Turner, D; (2023).

Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau

Is-deitl: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 7/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-gradd-brentisiaethau-adroddiad-terfynol>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru](mailto:cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr ffigurau .....	3
Geirfa .....	4
1. Rhagair – Crynodeb o’r Canfyddiadau ac Argymhellion.....	5
2. Cyflwyniad/Cefndir .....	12
3. Methodoleg .....	22
4. Cynnydd a Pherfformiad Hyd Yma.....	27
5. Prif Ganfyddiadau – Hyrwyddo, y Galw, Ymgysylltu a Chofrestru.....	40
6. Prif Ganfyddiadau – Modelau Cyflenwi a Buddion Gradd-brentisiaethau.....	60
7. Datblygiad Gradd-brentisiaethau i’r Dyfodol.....	97
Adran Cyfeiriadau .....	106
Atodiad A: Y ddarpariaeth gradd-brentisiaethau yn ôl sefydliad AU a Llwybr .....	108
Atodiad B: Offer Ymchwilio .....	111

## Rhestr tablau

Tabl 4.1: Gradd-brentisiaid 2020/21 yn ôl fframwaith yn erbyn dyraniad .....	28
Tabl 4.2: Gradd-brentisiaethau yn ôl llwybr (2019–21) .....	29
Tabl 4.3: Manylion rhyw yn ôl math o radd mewn peirianeg a thechnoleg neu gyfrifiadura	33
Tabl 4.4: Nifer y gradd-brentisiaid a chyflogwyr yn ôl sector diwydiannol y gyflogaeth .....	38
Tabl 5.1: Y ddarpariaeth gradd-brentisiaethau yn ôl sefydliad AU .....	41
Tabl 6.1: I ba raddau ydych chi wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwrs gradd-brentisiaeth i sicrhau ei fod yn seiliedig ar anghenion a gofynion penodol eich gweithle?.....	72
Tabl 6.2: Pa rai o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich sefyllfa pe na baech wedi cael y cyfle i astudio am radd-brentisiaeth? .....	95

## Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Cymharu cyfran yr holl radd-brentisiaid cofrestredig (amcangyfrif) ag ymatebwyr yr arolwg yn ôl sefydliad AU .....	24
Ffigur 4.1: Nifer y cofrestriadau newydd i radd-brentisiaeth yn ôl blwyddyn ac yn ôl fframwaith.....	29
Ffigur 4.2: Canran y gradd-brentisiaid ym mhob sefydliad AU .....	30
Ffigur 4.3: Lefel y mynediad i radd-brentisiaeth yn ôl blwyddyn academiaidd .....	31
Ffigur 4.4: Cofrestriadau â darparwyr addysg uwch – Cymru (2019/20).....	34
Ffigur 4.5: Yr awdurdodau unedol y mae gradd-brentisiaid yn hanu ohonynt (2019/20).....	36
Ffigur 4.6: Maint y cyflogwyr yn ôl sector eu diwydiant .....	39
Ffigur 5.1: Cyflogau CALL cyfartalog ymhlith gradd-brentisiaid cyflogedig ar adeg cofrestru	50
Ffigur 5.2: Pa mor bwysig oedd pob un o'r canlynol wrth i chi benderfynu gwneud gradd-brentisiaeth?.....	51
Ffigur 5.3: Pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich sefyllfa pe na bai eich cyflogai/gweithwyr wedi cael y cyfle i astudio am radd-brentisiaeth? .....	53
Ffigur 6.1: I ba raddau y teimlir bod y radd-brentisiaeth yn cyd-fynd â rôl swydd yn ôl fframwaith.....	86
Ffigur 6.2: Llwybr canlyniadau ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaeth.....	89
Ffigur 6.3: I ba raddau y mae cymryd rhan yn y radd-brentisiaeth wedi arwain at ...? .....	91
Ffigur 6.4: I ba raddau y mae'r radd-brentisiaeth yn ...? .....	92
Ffigur 6.5: Sut (os o gwbl) y mae cymryd rhan yn y radd-brentisiaeth wedi effeithio ar eich rôl yn y gweithle? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.....	94

## **Geirfa**

### **Acronym/Gair allweddol**

### **Diffiniad**

AB	Addysg Bellach
AHO	Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
ASA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
AU	Addysg Uwch
BBaCh	Busnes bach a chanolig ei faint
BCS	Cymdeithas Gyfrifiadurol Prydain – Sefydliad Siartredig ar gyfer TG
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CTER	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
DSW	Dysgu seiliedig ar waith
ESW	Sgiliau Hanfodol Cymru
GLIM	Grŵp Llandrillo Menai
HESA	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
HNC	Tystysgrif Genedlaethol Uwch
HND	Diploma Cenedlaethol Uwch
NTfW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
PCYDDS	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
PSRB	Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio
RSP	Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
TG	Technoleg Gwybodaeth
WEST	Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru

## **1. Rhagair – Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ymchwil a dadansoddi helaeth ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Mae'r rhaglen, ynghyd â'r cyd-destun cymdeithasol-economaidd a pholisi y mae hi wedi'i lleoli ynddynt, wedi esblygu'n fawr iawn yn ystod y gwerthusiad, gyda llawer o hyn wedi'i gofnodi yn yr adroddiad hwn. Mae hyn wedi dylanwadu ar gwmpas ac, felly, hyd yr adroddiad hwn. O ganlyniad, mae crynodeb o'r canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil wedi'u cynnwys yma.
- 1.2 Yn dilyn ei lansio yn 2018, ac er oedi ar y dechrau gyda'r fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi gwneud cynnydd cyson, gyda mwy na 600 o brentisiaid wedi'u cofrestru ar hyn o bryd mewn rhaglen wedi'i chyflenwi gan wyth o'r naw sefydliad AU a ariennir gan CCAUC a chwe choleg AB yng Nghymru.

### **Cynllun y rhaglen a'i rhoi ar waith**

- 1.3 Lansiodd y rhaglen heb ymgyrch genedlaethol ac ychydig iawn o weithgarwch hyrwyddo cysylltiedig oherwydd pryderon y gallai hyn arwain at lefelau yn y galw a allai fod y tu hwnt i'r gyllideb oedd ar gael. Gan fod y rhaglen wedi'i lansio am gyfnod o dair blynedd yn unig, roedd rhai rhanddeiliaid (sefydliadau AU, colegau AB, a chyflogwyr) yn ei hystyried yn gynllun peilot ac felly angen pwyll a gofal, a hynny wedyn wedi cyfyngu ar lefelau eu buddsoddiad yn y cynllun (o ran personél, partneriaethau, seilwaith ac ymgeiswyr). Ar ddiwedd cyfnod cychwynol y rhaglen tair blynedd yn 2021, roedd y rhaglen wedi denu 55 y cant o'r targed a nodwyd o ran nifer y gradd-brentisiaid.
- 1.4 Roedd dyfarniadau cyllid blynyddol, yn aml yn hwyr yn y flwyddyn academaidd, wedi atgyfnerthu'r ymdeimlad bod y rhaglen yn un dros dro a hyn hefyd ag oblygiadau i natur y cyflogwyr a oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Arweiniodd hyn at sefydliadau AU a cholegau AB yn tueddu i fynd ar drywydd cyflogwyr mwy o faint a allai gynnig nifer uwch o brentisiaid i gofrestru. Ymhellach, roedd hefyd yn annog y sefydliadau i dargedu cyflogwyr yr oedd ganddynt berthynas â hwy yn flaenorol (gan fod denu cyflogwyr at raglen nad oedd ganddi unrhyw sicrwydd o gyllid wedi bod yn fwy heriol gyda chyflogwyr heb berthynas flaenorol â sefydliadau AU).

- 1.5 Roedd cynllun y rhaglen hefyd yn dylanwadu ar natur y cyflogeion a ddeuai yn brentisiaid yn y rhaglen. Roedd amserlenni tynn yn dilyn cyhoeddiadau cyllid yn cyfyngu ar y graddau y gellid cysylltu cyfle i wneud gradd-brentisiaeth ag ymgyrchoedd recriwtio cyflogwyr. Mae hyn wedi arwain at weithwyr presennol yn cynrychioli 86 y cant o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y rhaglen, gyda llai nag un o bob pump ohonynt yn iau na 21 oed (o'i gymharu â 44 y cant o'r rheiny oedd wedi cofrestru ar radd-brentisiaethau ar Lefel 6 yn Lloegr sy'n iau na 21 oed).
- 1.6 Dywedodd staff o dimau rheoli a chyflenwi a'r rhanddeiliaid ehangach hefyd fod angen mwy o waith i hyrwyddo gradd-brentisiaethau i gronfa ehangach o gyflogwyr, gan gynnwys cyflogwyr bach. Fodd bynnag, nodwyd bod ymwybyddiaeth o radd-brentisiaethau yn arbennig o wael ymhlith busnesau bach a chanolig. Roedd yr hyrwyddo gan sefydliadau AU wedi digwydd yn bennaf drwy ymgysylltu un-i-un â chyflogwyr a chysylltu â chyflogwyr trwy ddigwyddiadau diwydiannol. Roedd y dulliau hyn, fodd bynnag, yn mynd â llawer o amser ac, felly, yn gyfyngedig o ran cyrhaeddiad.
- 1.7 Gallai ehangu cyrhaeddiad y rhaglen drwy ymgyrch farchnata ehangach hefyd esgor ar fanteision o ran uchelgeisiau'r rhaglen i ehangu cyfranogiad. Ar hyn o bryd, mae hwn yn faes y mae'r rhaglen yn ei chael yn anodd cyflawni yn erbyn ei huchelgeisiau. Mae adborth gan staff rheoli a chyflenwi yn awgrymu bod hyn wedi'i ysgogi'n rhannol gan orddibyniaeth y rhaglen ar gyflogaeth fel llwybr i mewn i'r rhaglen, a phroffil y dechreuwyr felly yn dibynnu ar broffil cyflogai gyda'r cyflogwyr. Felly, gallai ehangu cyrhaeddiad y rhaglen i unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd hwyluso mynediad i'r rhaglen i broffil ehangach o unigolion.

### **Argymhellion**

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu wedi cyflwyno cynlluniau i barhau â gradd-brentisiaethau. Rhaid i'r gwaith parhaus o weithredu'r rhaglen gael ei alinio'n strategol ag ymrwymiad parhaus, hirdymor i fuddsoddi yn y rhaglen.
2. Er bod angen o bosibl i'r dyraniadau cyllid barhau i fod yn rhai blynyddol, dylid ymrwymo'r rhain yn gynharach yn y flwyddyn. Dylai hyn gynnwys amlinellu'r cyllid posibl sydd ar gael yn y blynyddoedd dilynol.



3. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r hyrwyddo ar y rhaglen drwy gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am radd-brentisiaethau ymhlith cyflogwyr a darpar brentisiaid ac mewn ysgolion a cholegau AB.
4. Dylai sefydliadau AU barhau i gefnogi'r hyrwyddo ar y rhaglen drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr, drwy ryngweithio un-i-un a meithrin cysylltiadau drwy fforymau cyflogwyr ynghyd ag ymgysylltu ag ysgolion a cholegau AB.
5. Os cyhoeddir rhaglen fuddsoddi strategol, dylid ystyried dangosyddion cynnydd a pherfformiad sy'n gysylltiedig â'r math o gyflogwr a'r math o brentisiaid er mwyn helpu i gynyddu niferoedd ac amrywiaeth yn y mathau o gyflogwyr a phrentisiaid sy'n cymryd rhan.

### **Cynnal y rhaglen**

- 1.8 Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi cael derbyniad cadarnhaol gan radd-brentisiaid, eu cyflogwyr, darparwyr addysg uwch, a rhanddeiliaid ehangach. Byddai mwyafrif helaeth y gradd-brentisiaid (96 y cant; 187/195) yn argymhell gradd-brentisiaeth i rywun arall, ac mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr (80 y cant; 61/76) yn rhagweld y byddant yn cofrestru staff ychwanegol yn y rhaglen.
- 1.9 Mae'r rhaglen wedi cael ei chanmol am esgor ag amrywiaeth o fanteision cadarnhaol, gan gynnwys cyfrannu at setiau sgiliau cyflogeion/gradd-brentisiaid, a, thrwy hynny, wedi dod â buddion i'w cyflogwyr megis gweithlu mwy medrus a chadw staff yn well.
- 1.10 Câi'r rhaglen ei chanmol yn aml gan gyflogwyr am fod yn gyfle i "bawb elwa", yn gyflogeion/gradd-brentisiaid, cyflogwyr, a Chymru.

### **Meysydd ar gyfer gwella**

- 1.11 Er bod y rhaglen wedi cael derbyniad cadarnhaol gan gyflogwyr, rhanddeiliaid ehangach, a gradd-brentisiaid, mae sawl maes lle byddai'r rhaglen yn elwa o gael ei mireinio ymhellach.

### **Gwelliannau i'r llwyth gwaith**

- 1.12 Dywedodd cyfran fawr o radd-brentisiaid (67 y cant; 131/199) eu bod wedi ei chael yn anodd rheoli'r llwyth gwaith rhwng eu gradd-brentisiaeth a galwadau eu gwaith cyflogedig. Roedd hyn hefyd yn un o'r prif heriau a adroddwyd gan gyflogwyr.

- 1.13 Er bod llawer o radd-brentisiaid yn dal i fod yn gadarnhaol ynghylch y rhaglen er gwaethaf yr heriau hyn, roedd tystiolaeth bod trafferthion i gydbwysu llwyth gwaith wedi arwain at straen ymhlith rhai gradd-brentisiaid. At hynny, cafwyd nifer fach o adroddiadau gan radd-brentisiaid, eu cyflogwyr a staff addysgu am achosion lle'r oedd problemau cydbwysu gwaith ac astudio wedi arwain at effeithio ar les gradd-brentisiaid.
- 1.14 Nid yw'r data sydd ar gael yn ei gwneud hi'n bosibl dadansoddi profiadau cyflogeion yn systematig i ddeall a yw'r problemau hyn yn gysylltiedig â strwythurau cyflenwi penodol neu brosesau rhyddhau i astudio y cytunwyd arnynt gyda chyflogwyr; fodd bynnag, mae tystiolaeth fod cryn amrywiaeth yn yr amser yr oedd gradd-brentisiaid wedi'i neilltuo iddynt eu hunain ar gyfer astudio. Yn wir, mewn rhai lleoliadau cyflogaeth, roedd gradd-brentisiaid yn cael diwrnodau astudio â thâl yn rheolaidd i gefnogi eu hastudiaethau, tra bod disgwyl i radd-brentisiaid eraill weithio i ad-dalu eu horiau. Wrth symud ymlaen, mae hwn yn faes y gallai fod angen ei archwilio ymhellach. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn gosod disgwyliad ar gyflogwyr i ryddhau staff am 20 y cant o'u hwythnos waith. Fodd bynnag, awgryma adborth gan radd-brentisiaid a staff cyflenwi a rheoli fod y graddau y mae cyflogwyr yn cadw at hyn yn amrywio.

### **Argymhellion**

6. Byddai o fudd i brentisiaid gael eglurder ynghylch disgwyliadau cyflogwyr fel rhan o'r "fargen" gradd-brentisiaeth, a gallai hyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb o ran cael eu rhyddhau i astudio am ddiwrnod i wneud y radd-brentisiaeth.
7. Dylid cryfhau'r monitro ar y cyfraddau cwblhau a chadw, a hynny ledled y proffiliau cyflenwi a lleoliadau cyflogwyr er mwyn pennu arferion gorau wrth gefnogi prentisiaid.

- 1.15 Yn gysylltiedig â heriau yn ymwneud â chael cydbwysedd yn y llwyth gwaith, dywedodd 23 y cant (11/47) o brentisiaid a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn y byddent yn dymuno gweld cyfnod cynnal y cwrs yn cael ei ymestyn neu gael amser ychwanegol i gyflwyno aseiniadau. Mae'n anodd gweld ar y cam hwn a yw modelau cyflenwi penodol yn cael effaith ar gyfraddau cwblhau a chadw (gan fod cyfran y rhai sy'n gadael yn gynnar yn amrywio o tua 10 y cant i tua 23 y cant o'r

rheiny sydd wedi cofrestru). Ymhellach, mae'n anodd gwahanu'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal cyrsiau oddi wrth gyfyngiadau ychwanegol gan gyflogwyr.

- 1.16 Fodd bynnag, wrth i'r rhaglen symud yn ei blaen, gall hwn fod yn faes y gellid ei archwilio ymhellach i weld a ellir datblygu arfer gorau o ran modelau cyflenwi sy'n diwallu anghenion cyflogwyr ac yn cefnogi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymysg gradd-brentisiaid.
- 1.17 Mae hefyd yn bosibl bod problemau llwyth gwaith wedi'u gwaethygu mewn rhai achosion gan orddibyniaeth cyflogwyr ar roi gweithwyr y maent yn eu cyflogi ar hyn o bryd ar y rhaglen. Roedd y rhan fwyaf o'r gradd-brentisiaid (88 y cant) yn gyflogedig cyn cofrestru ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, ac ymddengys bod llawer o'r gweithwyr hyn ar lefelau cymharol uchel yn eu sefydliad (gan adlewyrchu lefel y ddarpariaeth sgiliau a gyflwynir drwy'r prentisiaethau). Er enghraifft, dywedodd 40 y cant (70/177) o gyflogeion eu bod mewn "rôl alwedigaethol broffesiynol neu dechnegol gysylltiol", dywedodd 29 y cant (52/177) eu bod mewn "rôl alwedigaethol broffesiynol", a chwech y cant (10/177) yn "rheolwyr, cyfarwyddwyr neu uwch swyddogion". O ganlyniad, efallai bod rhai o'r rolau hyn wedi bod yn fwy heriol i gyflogwyr lenwi ar eu hól, a byddai hyn yn debygol o fod wedi bod yn llai o broblem pan fo rolau newydd wedi'u creu ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaethau.

### **Cyfleoedd i wella'r aliniad rhwng y cwrs a dysgu seiliedig ar waith**

- 1.18 Dywedodd nifer sylweddol o radd-brentisiaid (36 y cant; 14/47) yr hoffent gael cynnwys y cwrs i fod yn fwy perthnasol i'w swydd neu ddiwydiant. Ar hyn o bryd mae cryn amrywiaeth yn y ffordd y mae gradd-brentisiaethau yn ymdrin â'r elfen dysgu seiliedig ar waith a sut maent yn ymgysylltu â chyflogwyr. Byddai cydlynu gwell yn debygol iawn o gynorthwyo wrth adolygu'r mater hwn, ac mae sicrhau ansawdd yr elfen hon mewn gradd-brentisiaethau eisoes wedi cael sylw yn rownd gyntaf y craffu ar Fil y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a'i nodi yn faes ffocws allweddol yn ogystal ag yn adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> ASA (2021) Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru - Adroddiad trosolwg, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, Caerloyw.

- 1.19 Roedd tystiolaeth glir bod sefydliadau AU – gan mwyaf – yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i ddeall eu gofynion ac yn alinio'r cwrs er mwyn bodloni'r gofynion hynny. Mewn llawer o sefydliadau AU, defnyddid adegau rhoi diweddariadau i gyflogwyr a Phaneli Cyswllt Diwydiannol i ddeall gofynion cyflogwyr. Fodd bynnag, amrywiai hyn ledled y sefydliadau AU, ac nid oedd cyflogwyr bob amser yn teimlo eu bod wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwrs. Yn wir, dywedodd 39 y cant (29/74) o gyflogwyr nad oeddent wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwrs.
- 1.20 Dywedodd sefydliadau AU, fodd bynnag, fod hwn yn faes heriol neu'n densiwn wrth gynnal gradd-brentisiaethau. Rhaid i sefydliadau AU fynd i'r afael ag anawsterau cynnig cwrs sydd angen bodloni gofynion gwahanol (ac weithiau gofynion croes i'w gilydd) y gwahanol gyflogwyr, yn ogystal â fframweithiau'r prentisiaethau a gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB). Fodd bynnag, gall fod meysydd lle mae cyrsiau'n fwy addas i gyd-fynd yn well â lleoliad y gyflogaeth. Er enghraifft, dywedodd un rhanddeiliad ehangach y gellid manteisio ar y cyfleoedd i gynnwys cyflogwyr yn yr asesu. Gallai hyn hefyd helpu i wella pa mor berthnasol yw asesiadau i radd-brentisiaid.

### **Ehangu cyrhaeddiad gradd-brentisiaethau**

- 1.21 Dengys y dystiolaeth fod y rheiny sy'n gwneud gradd-brentisiaethau yn llawer mwy tebygol o fod y genhedlaeth gyntaf o'u teulu i fynd i addysg uwch o gymharu â'r rhai sy'n gwneud graddau cyntaf traddodiadol. Y tu hwnt i hyn, prin yw'r arwydd, ar lefel y rhaglen gyfan, o lwyddiant o ran ehangu cyfranogiad (sy'n rhannol gysylltiedig â rhai o'r heriau yn ymwneud â chynllun y rhaglen fel yr amlinellwyd uchod). Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau AU a cholegau AB wedi cael llawer mwy o lwyddiant yn ehangu cyfranogiad nag eraill, gan awgrymu bod lle i rannu perfformiad ac arfer da ymhlith sefydliadau AU i gynorthwyo â'r cynnydd yn erbyn yr agenda hon.

### **Argymhelliad**

8. Dylid ystyried cael sefydliadau AU i rannu cynnydd a pherfformiad ymysg ei gilydd o ran dangosyddion yn ymwneud ag ehangu cyfranogiad trwy gymuned ymarfer.

### **Canlyniadau ac effaith**

- 1.22 Mae'r rhan fwyaf o'r prentisiaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn dal i fod yng nghanol eu gradd-brentisiaeth, ac o'r herwydd mae'n bosibl ei bod yn rhy fuan i

wireddu'r canlyniadau diriaethol a nodir yn y llwybr canlyniadau (Ffigur 6.2), ond wedi dweud hynny roedd:

- 45 y cant yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch eu rôl ac yn well am ei gwneud
- 28 y cant wedi cael dyrchafiad, a 29 y cant wedi cael cyfrifoldebau ychwanegol

- 1.23 Ymhellach, dywedodd dau o bob tri o'r cyflogwyr fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cynyddu cyfraddau cynhyrchiant ymysg gradd-brentisiaid, a phe na bai gradd-brentisiaeth yn bodoli, ni fyddai 36 y cant o brentisiaid wedi gwneud cwrs arall (sy'n cynyddu i 41 y cant ymysg y rheiny yn y fframwaith digidol).
- 1.24 Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion cychwynnol hyn yn awgrymu effaith ychwanegol net gref yn dod i'r amlwg o'r rhaglen ac yn dangos pwysigrwydd sefydlu fframwaith effaith mwy cadarn ar ei chyfer.

### **Argymhelliad**

9. Dylid bwrw ymlaen â'r fframwaith effaith cyn gynted â phosibl er mwyn gallu cynnal asesiad cadarn o effaith ychwanegol net y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, o gymharu â darpariaethau eraill a gynigir.

## 2. Cyflwyniad/Cefndir

- 2.1 Ym mis Chwefror 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru i asesu ei heffeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffaith. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno penllanw'r canfyddiadau ymchwil a wnaed yn rhan o'r gwerthusiad.
- 2.2 Yn sgil ei nodi yn amcan allweddol yng nghynllun polisi Prentisiaethau a Sgiliau Llywodraeth Cymru (2017) ac yn argymhelliad pendant yn Adolygiad Diamond ar drefniadau cyllido Addysg Uwch (2017), lansiodd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru ym mis Ionawr 2018.
- 2.3 I ddechrau arni, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant o tua £20 miliwn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer tair blynedd gyntaf y rhaglen, gyda disgwyl i'r prentisiaid cyntaf gofrestru yn y rhaglen ym mis Medi 2018.
- 2.4 Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn cyflawni yn erbyn ystod eang o amcanion polisi; fodd bynnag, rhoddwyd y ffocws cychwynol ar gefnogi'r canlynol:
- Adlinio'r system brentisiaethau i ddarparu sgiliau lefel uwch yn ôl anghenion cyflogwyr ac economi Cymru, fel y'u mynegir drwy flaenoriaethau gweinidogol.
  - Sicrhau dilyniannau o'r rhaglen brentisiaeth bresennol i addysg uwch, a thrwy hynny gryfhau gryn dipyn ar hygyrchedd a hygyrchedd cynnig prentisiaeth Llywodraeth Cymru i'r rhai sydd â dyheadau uwch, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi dilyn llwybr y chweched dosbarth/coleg.
- 2.5 Yn 2016, wrth ragweld rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru, aeth CCAUC ati i wahodd sefydliadau Addysg Uwch i gyflwyno cynlluniau i ddatblygu cymwysterau a allai ddod yn rhan o fframwaith prentisiaeth yng Nghymru ym meysydd TG/Cyfrifiadura, Peirianeg, a Gweithgynhyrchu Uwch. Nodwyd y meysydd hyn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP) i fod yn sectorau oedd â phrinder sgiliau mewn galwedigaethau technegol a medrus iawn sy'n gyrru cynhyrchiant.<sup>2</sup>
- 2.6 Mewn ymateb, comisiynodd Llywodraeth Cymru fframweithiau gradd-brentisiaethau yn y meysydd digidol yn ogystal â pheirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Ar ôl ymgysylltu â grwpiau sector a chyflogwyr, nodwyd bod y llwybrau galwedigaethol

---

<sup>2</sup> [Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru \(2017\)](#):

canlynol o fewn y fframweithiau hynny yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru:

- Rheolaeth ac offeryniaeth
- Gwyddor data
- Peirianeg sifil
- Y cyfryngau digidol
- Peirianeg meddalwedd
- Peirianeg fecanyddol
- Peirianeg gweithgynhyrchu
- Seiberddiogelwch.

2.7 Er y llwyddwyd i gyhoeddi'r fframwaith digidol erbyn 29 Ebrill 2018, roedd oedi cyn cwblhau'r fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. O ganlyniad, roedd cynigion ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen yn gysylltiedig â'r fframwaith digidol yn unig. Ers 2018 CCAUC sydd wedi goruchwylio'r cylchoedd ymgeisio cystadleuol blynyddol i ariannu rhaglenni cyflenwi unigol gan sefydliadau AU a ariennir gan CCAUC. Mae panel dan gadeiryddiaeth aelod o CCAUC yn ystyried cynigion a gyflwynir drwy bob rownd o geisiadau cystadleuol, gyda'r panel yn cynnwys swyddogion CCAUC a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Disgwylir i'r cynigion gyflawni yn erbyn meini prawf gosodedig, gan ddisgwyl cynnwys y canlynol:

- Mesurau yn eu lle i sicrhau bod cymysgedd amrywiol o unigolion yn cael eu recriwtio i radd-brentisiaethau.
- Trefniadau yn eu lle ar gyfer cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cadarnhad na fydd y ddarpariaeth yn para'n hirach na phum mlynedd ar y mwyaf.
- Gwybodaeth am sut mae ceisiadau'r prentisiaethau yn cyd-fynd â chenhadaeth ac arbenigedd y sefydliad sy'n gwneud cais am gyllid.
- Gwybodaeth am sut y caiff busnesau bach a chanolig eu cefnogi i ddarparu gradd-brentisiaethau.
- Cadarnhad ynghylch sut y bydd cynnig y ddarpariaeth yn ychwanegu at yr arlwy prentisiaethau yng Nghymru.

- Crynodeb o'r cydweithio â cholegau Addysg Bellach (AB) a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) a chyflogwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau lefel uwch ar Lefelau 4 a 5 a chryfhau llwybrau dilyniant i'r gradd-brentisiaethau.<sup>3</sup>

- 2.8 Yn y canllawiau ar gynnal gradd-brentisiaethau, rhoddir blaenoriaeth gan CCAUC ar gydweithio rhwng sefydliadau AU, colegau AB, a darparwyr DSW eraill i ddiwallu anghenion cyflogwyr orau ac osgoi cystadleuaeth niwlog.<sup>4</sup>
- 2.9 Ac eithrio un ohonynt, roedd pob sefydliad AU a ariennir gan CCAUC wedi cyflwyno cais i'r rhaglen ar gyfer y £3miliwn o gyllid a oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyntaf (yn seiliedig ar ddyraniad o £27,000 fesul gradd-brentis ar gyfer eu gradd-brentisiaeth gyfan).
- 2.10 Ym mis Mawrth 2019, gwahoddwyd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i gyflwyno ceisiadau ar gyfer £5 miliwn o gyllid ar gyfer 2019/20 yn erbyn y tri maes blaenoriaeth, sef Digidol (yn y Fframwaith Gradd-brentisiaeth Digidol [Cymru]) a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (yn y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch [Cymru]). Yn 2020 sicrhodd y rhaglen £12 miliwn o gyllid ar gyfer 2020/21.<sup>5</sup> Daeth cyfnod cyntaf y cyllid ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaethau i ben yn 2021.
- 2.11 Ym mis Mehefin 2021 gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad pellach i gefnogi'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru am flwyddyn ychwanegol, h.y. 2021/22, gwerth £9.5m ar gyfer prentisiaethau presennol a newydd yn y meysydd blaenoriaeth presennol.

### **Y gwerthusiad**

- 2.12 Yn y fanyleb ar gyfer y gwerthusiad, cafwyd cyfres o amcanion penodol, wedi'u cyd-ddatblygu â CCAUC,<sup>6</sup> sef:
- Datblygu theori newid ar gyfer y rhaglen.

<sup>3</sup> CCAUC (2020) [Gradd-brentisiaethau yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020/21, Saesneg yn unig](#)

<sup>4</sup> Ibid.

<sup>5</sup> Ibid.

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru (2019) Manyleb ar gyfer Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.



- Asesu'r sylfaen dystiolaeth gyfredol sy'n sail i fodelau datblygu a gweithredu gradd-brentisiaethau yn rhyngwladol.
- Asesu perfformiad y rhaglen yn erbyn nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru a CCAUC, gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.
- Adolygu a yw'r rhaglen yn cyflawni amcanion, gan gynnwys rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb a Strategaeth yr Iaith Gymraeg, ac, os ydyw, i ba raddau y mae'n gwneud hynny.
- Asesu i ba raddau y mae gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB), fel elfen y gradd-brentisiaethau, yn dylanwadu ar ymgysylltiad cyflogwyr ac/neu brentisiaid â'r rhaglen, ac a yw'r agwedd hon yn cael ei hystyried yn briodol wrth ddatblygu fframwaith a chwricwlwm.
- Ymchwilio ac asesu (o ran y sector Addysg Uwch, cyflogwyr, a phrentisiaid):
  - Y galw, dilyniant a recriwtio
  - Y buddion, y cymhelliant a'r ymgysylltu
  - Partneriaeth a chydweithio.
- Asesu gwerth Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) fel elfen mewn gradd-brentisiaethau, a pha mor briodol yw arferion asesu cyfredol ESW ac/neu asesu anghenion dysgu unigol.
- Adolygu'r prosesau a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau'r rhaglen yn y dyfodol, a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir gwella'r rhain.
- Ystyried a darparu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ffyrdd cynaliadwy o ariannu'r rhaglen Gradd-brentisiaethau.
- Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith tymor hwy gradd-brentisiaethau, gan gynnwys elfen gwerth am arian o ran y cyllid a wariwyd ar gynnal y rhaglen yn erbyn yr enillion o ran y canlyniadau a gyflawnwyd.

### 2.13 Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn dau gam:

- Cam cwmpasu a oedd wedi casglu tystiolaeth drwy adolygu llenyddiaeth a thrwy ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid strategol a oedd yn rhan o gynllunio, gweithredu, rheoli a chyflenwi gradd-brentisiaethau.

- Cam olaf (y cam hwn) sydd wedi rhoi blaenoriaeth i waith maes gyda chyflogwyr, prentisiaid, darparwyr AU, colegau AB, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW) i gasglu adborth ar y profiadau o gyflenwi/cymryd rhan yn y rhaglen Gradd-brentisiaethau.

## Cyd-destun

- 2.14 Yn yr [adroddiad cwmpasu](#) ceir manylion am y cyd-destun polisi a arweiniodd at gyflwyno'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau; fodd bynnag, mae nifer o ddatblygiadau allweddol o bwys wedi codi ac/neu wedi datblygu yn y cyd-destun hwn ers i'r gwerthusiad ddechrau.

## Cyd-destun polisi

- 2.15 Yn 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i gynnal [adolygiad](#)<sup>7</sup> ar lywodraethu, rheoleiddio a goruchwyllo addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau brif argymhelliad:
- Datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y sector hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol.
  - Sefydlu corff newydd hyd braich sy'n gyfrifol am oruchwyllo, cyfeiriad strategol, ac arweinyddiaeth y sector.
- 2.16 Yn dilyn [papur gwyn](#)<sup>8</sup> yn 2017 ac [ymgyngoriad technegol](#)<sup>9</sup> yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2020 Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar ffurf drafft ar gyfer ymgyngoriad. Yna cyflwynwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil i'r Senedd ar 1 Tachwedd 2021.
- 2.17 Mae'r Bil yn cynnig sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Caiff y Comisiwn, yn amodol ar ddeddfwriaeth, ei sefydlu erbyn 2023 fel corff annibynnol wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am oruchwyllo'r sector ôl-16 yng Nghymru, sy'n cynnwys AB, AU, prentisiaethau, chweched dosbarth, ac ymchwil ac arloesi a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2016). [Goruchwyllo addysg ôl-orfodol a CCAUC \(Adolygiad Hazelkorn\)](#)

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (2017). [Papwr gwyn: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig.](#)

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (2018). [Canlyniad yr ymgyngoriad: Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru](#)

2.18 Bwriedir i'r Comisiwn gael y cyfrifoldebau canlynol:

- diogelu buddiannau dysgwyr, sicrhau bod dysgu galwedigaethol a dysgu academaidd yn cael yr un parch.
- sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn fwy cydnaws ag anghenion cyflogwyr.
- monitro perfformiad a llywodraethiant ar yr un pryd ag amddiffyn rhyddid academaidd sefydliadau.
- monitro a hybu gwelliant ymysg darparwyr addysg a hyfforddiant.
- mabwysiadu dull gweithredu system gyfan ar gyfer cyllido ymchwil ac arloesi, gyda'r gallu i roi cyllid i ystod eang o sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.
- cynyddu'r addysg drydyddol sydd ar gael yn Gymraeg ac annog unigolion i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.19 Mae'r Bil hefyd yn ceisio sefydlu system brentisiaethau newydd sy'n benodol i Gymru, ac un sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr ac sy'n cefnogi datblygiad economi gadarn ac arloesol yng Nghymru. Bydd gan weinidogion stiwardiaeth strategol ar system prentisiaethau Cymru, ond y Comisiwn fydd yn gweithredu'r system ac yn cynnal y prentisiaethau. Bydd fframweithiau prentisiaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaeth Gymreig mewn galwedigaeth benodol. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi fframweithiau prentisiaeth neu gael eraill i'w paratoi ar ei ran. Bydd yn ofynnol iddo gadw a chyhoeddi cofrestr o'r fframweithiau hyn.

2.20 Mae mynd â Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drwy'r Senedd hefyd wedi'i nodi fel ymrwymiad yn [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#)<sup>10</sup> (a gyhoeddwyd yn dilyn etholiadau Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2021). Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddi teilwng, sgiliau perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi newydd. Mae'n nodi'r ymrwymiad i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd, a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Dywed y Rhaglen Lywodraethu y bydd 125,000 o brentisiaethau pob oed ac y bydd nifer y prentisiaethau yn y sector gofal yn cynyddu (er nad yw'n glir ar ba lefel). At hynny, mae'n nodi ymrwymiad i gyflawni amrywiaeth

---

<sup>10</sup> [Rhaglen Lywodraethu | llyw.cymru](#)

o weithgareddau o fewn portffolios unigol. Ym mhortffolio'r economi, mae'r llywodraeth yn ymrwmo i ehangu'r defnydd o radd-brentisiaethau a phrentisiaethau a rennir, a thrwy hynny ymrwmo i'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau hyd at o leiaf 2026.

- 2.21 Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [chynllun cyflogadwyedd newydd](#) sy'n nodi pum maes gweithredu allweddol, gan gynnwys 'codi lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i addasu: drwy ehangu cyfleoedd dysgu hyblyg a phersonol i bobl sydd mewn gwaith ac allan o waith er mwyn iddynt gael cyfle i wella eu sgiliau, dod o hyd i waith neu ailhyfforddi drwy gydol eu bywydau', ac yn ailadrodd y dyhead i ddarparu 125,000 o brentisiaethau newydd. Mae'r cynllun hefyd yn cyfeirio at lansiad y gwasanaeth prentisiaethau gwag ddiwedd 2020.<sup>11</sup> Fodd bynnag, er bod y gwasanaeth yn cynnig y mecanwaith ar gyfer chwilio am radd-brentisiaethau gwag, ar adeg ysgrifennu hwn, nid oedd yr un ohonynt ar gael.<sup>12</sup>

### **Dylanwadau ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau a'r gwerthusiad**

- 2.22 Yn ogystal â'r cyd-destun polisi sy'n esblygu, bu sawl datblygiad sydd wedi dylanwadu ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau a'r gwerthusiad.

### **COVID-19 a'r effaith gysylltiedig**

- 2.23 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, oherwydd, mewn ymateb i ganllawiau Llywodraeth y DU, bu'n rhaid symud yn gyflym yn eu darpariaeth i gynnig dysgu digidol, o bell. Ar ben hynny, arweiniodd at gyfyngiadau parhaus ar ddysgu wyneb yn wyneb mewn sefydliadau AU hyd at flwyddyn academaidd 2021/22. Felly mae effaith y pandemig a'r ymateb iddo wedi'u cynnwys fel amcan pellach ar gyfer y gwerthusiad ac fe'u harchwilir yn adran 5 isod.

### **Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Senedd Cymru i Radd-brentisiaethau**

- 2.24 Ym mis Tachwedd 2019 lansiodd Senedd Cymru ymchwiliad a oedd wedi edrych ar weithredu cam cychwynnol y rhaglen Gradd-brentisiaethau a chyfeiriad a photensial gradd-brentisiaethau i'r dyfodol. Roedd lansiad ymchwiliad wedi digwydd ar yr un pryd â dechrau ar y broses gomisiynu ar gyfer y gwerthusiad hwn. Arweiniodd hyn

---

<sup>11</sup> [Llywodraeth Cymru \(2022\). Prentisiaethau. Dewis Doeth.](#)

<sup>12</sup> Yn seiliedig ar chwilio ar 16 Mai 2022.

at oedi yn y gwaith maes yng nghanam cwmpasu'r gwerthusiad hwn, a hynny am rai misoedd ar ôl cwblhau'r ymchwiliad er mwyn lleihau'r risg o flinder ymgynghori.

2.25 Arweiniodd yr ymchwiliad at [adroddiad](#) (Senedd Cymru, 2020) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 gyda 12 argymhelliad ar gyfer y rhaglen.<sup>13</sup> Caiff y rhain eu hadolygu yn Adran 1 yr [adroddiad cwmpasu](#). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r argymhellion hyn, gan dderbyn neu rannol dderbyn pob un ohonynt.<sup>14</sup>

### **Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar Radd-brentisiaethau yng Nghymru**

2.26 Ym mis Awst 2020 comisiynwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA/QAA) gan CCAUC i gynnal [adolygiad o radd-brentisiaethau a ariannir gan CCAUC](#) yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21. Cynhaliwyd yr adolygiad yng ngwanwyn 2021, gan adolygu pob darparwr arweiniol gradd-brentisiaethau yng Nghymru a oedd yn cael cyllid gan CCAUC, ac roedd yn cynnwys trefniadau partneriaeth â darparwyr addysg bellach, gyda'r nod o:

- gyfrannu at ddatblygu darpariaeth gradd-brentisiaethau drwy adolygu darpariaeth y darparwr.
- rhannu ymarfer gyda phartneriaid a chyflogwyr, a bod yn sail i ddarpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol.
- hybu rhannu arferion da a dysgu a meysydd i'w datblygu ledled y sector drwy adroddiad trosolwg.
- cryfhau gwerth profiad dysgu'r prentisiaid a gwerth y prentisiaethau i gyflogwyr.
- cyfrannu at ddatblygu darpariaeth gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn y dyfodol.

2.27 Unwaith eto, er mwyn osgoi gorgyffwrdd â gweithgarwch gwaith maes rhwng adolygiad yr Asiantaeth a'r gwerthusiad hwn, cytunwyd i ohirio'r gwaith maes ar gyfer cam olaf y gwerthusiad am rai misoedd ar ôl cwblhau adolygiad yr Asiantaeth.

---

<sup>13</sup> [Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau \(2020\) Gradd-brentisiaethau, Senedd Cymru.](#)

<sup>14</sup> Mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Radd-brentisiaethau i'w weld yma. Saesneg yn unig: [Ymateb Llywodraeth Cymru i Radd-Brentisiaethau](#)

2.28 Nododd adolygiad yr Asiantaeth lawer o enghreifftiau o arfer da i gefnogi nodweddion gradd-brentisiaethau, gan gynnwys y canlynol:

- Faint o ymgysylltu â chyflogwyr a wneir wrth gynllunio a gweithredu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, ac wrth ganiatáu hyblygrwydd, gyda darparwyr yn cyfeirio at yr ymgysylltiad hwn fel nodwedd gadarnhaol gradd-brentisiaethau; felly hefyd darparwyr yn defnyddio Panelau Cyswllt â Diwydiant wrth gynllunio a datblygu gradd-brentisiaethau.
- Darparwyr yn bod yn ymatebol ac yn hyblyg ac wedi gweithredu'n gyflym i sicrhau parhad y rhaglen brentisiaeth wrth symud y ddarpariaeth ar-lein yn sgil pandemig COVID-19.
- Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r ffaith fod darparwyr wedi penodi tiwtoriaid cyswllt allweddol gyda chyflogwyr, prentisiaid a cholegau partner, a thystiolaeth bellach o hyn yw'r ffaith bod gan bob darparwr gytundeb teirochrog rhwng y cyflogwyr, y brifysgol a'r prentisiaid.

2.29 Codai nifer o feysydd i'w datblygu yn nifer o'r adolygiadau; rhoddodd adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd grynoded o'r rhain mewn pedwar argymhelliad cyffredinol:

- Dylid rhoi cydnabyddiaeth lawn i natur arbennig gradd-brentisiaethau drwy wneud yn siŵr y cânt eu mapio yn erbyn [Datganiad Nodweddion](#)<sup>15,16</sup> wrth gynllunio a datblygu rhaglenni.
- Dylai prentisiaid gael deunyddiau i'w cefnogi a rhoi arweiniad iddynt a'r rhain wedi eu teilwra i natur arbennig y ddarpariaeth a'r dull o'i darparu.
- Dylai'r darparwr sicrhau eu bod yn cynnal adolygiadau cynnydd ffurfiol o leiaf bob deufis, fel sy'n ofynnol gan y Datganiad Nodweddion.
- Er mwyn gwella'r ddarpariaeth, dylai darparwyr roi mwy o gyfleoedd i gyflogwyr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni, a chyfle i gyflogwyr arwain y gwaith asesu.

---

<sup>15</sup> Mae'r Datganiadau Nodweddion yn ategu'r wybodaeth a geir yn fframweithiau'r gradd-brentisiaethau, gan roi mwy o fanylion am nodweddion unigryw'r cymwysterau hyn.

<sup>16</sup> Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) (2019) *Datganiad Nodweddion Addysg Uwch mewn Prentisiaethau*, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, Caerloyw.

## Strwythur yr Adroddiad

2.30 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Disgrifia **Adran 3** y dull methodolegol a ddefnyddiwyd wrth werthuso'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau.
- Mae **Adran 4** yn dadansoddi'r wybodaeth reoli i roi darlun o gynnydd a pherfformiad y Rhaglen Gradd-brentisiaethau rhwng 2018 a 2021.
- Mae **Adran 5** yn adfyfrio ar waith maes yn ymwneud â hyrwyddo, ymgysylltu a chofrestru unigolion yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau.
- Yn **Adran 6** ceir archwiliad o'r modelau amrywiol a ddefnyddiwyd gan sefydliadau i gynnal gradd-brentisiaethau, gan adfyfrio ar farn y rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen am ei buddion a'i heffaith.
- Mae **Adran 7** yn ystyried dyfodol gradd-brentisiaethau a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â pharhad y rhaglen.

### 3. Methodoleg

#### Dull methodolegol

- 3.1 Yn syth ar ôl y cyfarfod cychwynnol i roi dechrau ar werthuso'r rhaglen Gradd-brentisiaethau, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf mewn ymateb i bandemig COVID-19. Oherwydd yr heriau a gyflwynai hyn i sefydliadau Addysg Uwch (AU), cyflogwyr, a llunwyr polisi, gohiriwyd y gwerthusiad tan fis Gorffennaf 2020.

#### Cam cwmpasu

- 3.2 Ar ôl aildechrau'r gwerthusiad, cynhaliwyd y canlynol yn rhan o gam cwmpasu'r gwerthusiad (mae manylion pellach ar gael yn adran 2 yr [adroddiad cwmpasu](#)):
- Cyfweiliadau cwmpasu rhagarweiniol gyda chwe chynrychiolydd allweddol o Lywodraeth Cymru a CCAUC.
  - Cyfweiliadau cwmpasu dilynol i gasglu barn am gynllun a chwmpas y rhaglen gydag 16 o gynrychiolwyr arweiniol ym mhob un o'r sefydliadau AU a ariannir gan CCAUC, yn ogystal â chynrychiolydd o Brifysgolion Cymru
  - Adolygiad o'r prif ddogfennau sy'n gysylltiedig â chynllun y rhaglen, ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwiliad.
  - Adolygiad o lenyddiaeth ar radd-brentisiaethau a phrentisiaethau ar lefelau uwch yn fyd-eang ac yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.
  - Gweithdy gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCAUC, a Phrifysgolion Cymru i drafod a chynorthwyo i ddatblygu theori newid ar gyfer y rhaglen.

#### Cam olaf

- 3.3 Mae cam olaf y gwerthusiad, a ddechreuodd yng ngwanwyn 2021, wedi cynnwys:
- Cyfweiliadau (yn rhithwir neu dros y ffôn ar ddiwedd haf/dechrau hydref 2021) gyda 40 o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal gradd-brentisiaethau ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau AU a ariennir gan CCAUC sy'n ymwneud â gradd-brentisiaethau, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r colegau AB hynny sy'n partneru â sefydliadau AU i gynnig gradd-brentisiaethau.




- Arolwg ar-lein i brentisiaid a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen er mwyn casglu adborth ar eu rhesymau dros gofrestru ar radd-brentisiaeth a'u profiad ohoni, ynghyd â'u barn am werth y radd-brentisiaeth ar ôl cofrestru. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddodd sefydliadau AU fanylion cyswllt i Wavehill er mwyn iddynt ddsbarthu'r arolwg; mewn un achos, fodd bynnag, dosbarthwyd yr arolwg gan un sefydliad AU ar ran Wavehill. Dosbarthwyd yr arolwg ar-lein ym mis Medi 2021 i tua 593 o brentisiaid (sef 89 y cant o'r holl brentisiaid yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau ar y pryd).<sup>17</sup> Cafwyd ymateb gan 199 o brentisiaid, sef cyfradd ymateb o 34 y cant (sy'n gyfwng hyder o 5.7<sup>18</sup> ar lefel hyder o 95 y cant).
- Ar ddiwedd yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i gyfranogwyr a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn dilynol (a gynhaliwyd rhwng mis Medi a Hydref 2021) er mwyn pwysu a mesur yn fanylach eu profiad a'u taith drwy'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Dywedodd 75 o gyfranogwyr (38 y cant) y byddent yn fodlon gwneud hynny, a chynhaliwyd cyfweiliad ffôn yn llwyddiannus â 47 ohonynt (63 y cant o'r rhai a ddywedodd y byddent yn fodlon gwneud hynny).
- Mae Ffigur 3.1 isod wedi dosbarthu ymatebion yr arolwg yn ôl sefydliad AU. Dylid nodi bod pump y cant o'r ymatebwyr wedi cyfeirio yn eu hymateb at y coleg AB sy'n bartner cyflenwi. Mae'r rhain wedi'u hailneilltuo i'r SAU arweiniol priodol. Dengys y ffigur bod yr arolwg yn fras yn gynrychioliadol o boblogaeth wirioneddol y gradd-brentisiaid fesul SAU.

---

<sup>17</sup> Yn ôl data monitro CCAUC roedd 670 o brentisiaid (wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf) wedi cofrestru ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2020/21.

<sup>18</sup> Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn 95 y cant yn hyderus ynghylch ateb sydd o fewn y cyfwng hyder uchaf o plws neu finws 5.7 y cant os yw'r ateb a adroddir yn 50 y cant (pan fo'r atebion yn fwy eithafol [e.e. 90 y cant neu 10 y cant] bydd cyfwng hyder y boblogaeth gyfan yn llawer llai).

**Ffigur 3.1: Cymharu cyfran yr holl radd-brentisiaid cofrestredig (amcangyfrif)<sup>19</sup> ag ymatebwyr yr arolwg yn ôl sefydliad AU**



Sylwer: n=199 (sampl yr arolwg) a n=593 (amcangyfrif cyfanswm y gradd-brentisiaid sydd wedi cofrestru)

- Er bod nifer y gradd-brentisiaid ar y llwybr digidol a'r rhai ar y llwybr peirianeg a gweithgynhyrchu uwch wedi'u rhannu'n weddol gyfartal, roedd 63 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o'r fframwaith digidol. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arolwg, fel y trafodir yn adrannau 5 a 6 yr adroddiad.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn hefyd gyda chyflogwyr ym mis Awst a mis Medi 2021 er mwyn casglu eu barn am eu profiad o'r rhaglen Gradd-brentisiaethau. Rhoddodd sefydliadau AU gyfanswm o 202 o gysylltiadau â chyflogwyr i Wavehill, a hynny gyda'i gilydd yn cynrychioli 160 o gyflogwyr gwahanol. Ymatebodd cyfanswm o 76 o gyflogwyr i'r arolwg, sy'n cynrychioli 38 y cant o'r

<sup>19</sup> Mae'r amcangyfrifiad am nifer y gradd-brentisiaid wedi'i godi o adroddiadau monitro naill ai o flynyddoedd academaidd 2020/21 neu 2019/20.

cyflogwyr sy'n ymwneud â'r Rhaglen (ac yn creu cyfwng hyder o 8.7<sup>20</sup> ar lefel hyder o 95 y cant).

- Cafodd cyfres o randdeiliaid eu henwi gan CCAUC a Llywodraeth Cymru fel rhai sy'n debygol o fod â safbwynt gwybodus, allanol/strategol ar y rhaglen Gradd-brentisiaethau. Cynhaliwyd cyfweiliadau rhithwir (ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022) gydag 11 o randdeiliaid strategol i gasglu eu safbwyntiau ar gynllun, gweithredu a chynnydd y rhaglen tra hefyd yn casglu eu barn am gyfeiriad gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn y dyfodol.
- Aethpwyd ati i ddadansoddi'r ffurflenni monitro a gyflwynwyd gan bob sefydliad AU i CCAUC er mwyn archwilio proffil, patrymau a thueddiadau cyflogwyr sy'n ymgysylltu â'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau, felly hefyd yr unigolion sydd wedi'u cofrestru, yn ôl fframwaith a sefydliad AU.

3.4 Mae'r dull methodolegol a ddisgrifiwyd uchod hefyd wedi llywio datblygiad fframwaith effaith amlinellol a model dadansoddi cost a budd i'w defnyddio yn y dyfodol yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Cynlluniwyd y dull hwn mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac mae ar gael fel papur technegol ar wahân.

### **Cyfyngiadau yn y fethodoleg**

- 3.5 Roedd rhaid oedi gwaith y gwerthusiad sawl gwaith, a hynny wedi golygu bod y gwaith maes wedi digwydd dros gyfnod hwy o lawer na'r disgwyl. Prif achos yr oedi i'r gwerthusiad oedd pandemig COVID-19, a ddechreuodd yn fuan ar ôl i'r gwerthusiad ddechrau. Cododd oedi pellach oherwydd yr angen i atal gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad rhag iddo wrthdaro (i ddechrau) ag ymchwiliad y Senedd ac (yn ddiweddarach) ag adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Er mwyn lleihau risg y ceid blinder ymgynghori, gohiriwyd y gwaith maes am sawl mis.
- 3.6 Roedd methu â chael gafael ar ddata cyfranogwyr a chyflogwyr o bob sefydliad AU wedi peri oedi pellach. Er y dywedwyd y bu dull cyson ar y dechrau o gael caniatâd gan gyfranogwyr a chyflogwyr a oedd wedi cofrestru yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, arweiniodd yr oedi cyn dechrau ar y gwaith maes a newidiadau staff

---

20 Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn 95 y cant yn hyderus ynghylch ateb sydd o fewn y cyfwng hyder uchaf o plws neu finws 8.7 y cant os yw'r ateb a adroddir yn 50 y cant (pan fo'r atebion yn fwy eithafol [e.e. 90 y cant neu 10 y cant] bydd cyfwng hyder y boblogaeth gyfan yn llawer llai).

yn ystod y cyfnod hwnnw at ddehongliadau gwahanol ar natur y caniatâd a gafwyd. Roedd hyn yn golygu bod angen defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gael y data cysylltu angenrheidiol. Gyda'i gilydd, arweiniodd hyn at waith maes yn digwydd dros gyfnod hir o amser yng nghanol pandemig COVID (a gallai safbwyntiau a barn pobl fod wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw). Ymhellach, cafwyd trafferthion wrth gasglu gwybodaeth fonitro CCAUC gan rai sefydliadau AU. Unwaith eto, roedd y rhain yn ymwneud ag ymholiadau ynghylch caniatâd i rannu gwybodaeth â gwerthuswyr. Mae hyn yn dangos yr angen i ailedrych ar gytundebau rhannu data, mathau o ganiatâd, a hysbysiadau preifatrwydd cysylltiedig mewn perthynas â'r rheiny sy'n cofrestru ar y rhaglen Gradd-brentisiaethau, yn enwedig o ran cysondeb a sut maent yn alinio â chytundeb rhannu data sefydliad AU ei hun.

- 3.7 Roedd Wavehill felly yn dibynnu ar sefydliadau AU i roi manylion cyswllt ar gyfer yr holl brentisiaid a chyflogwyr. Ymhellach, mewn un achos anfonodd y sefydliad AU yr arolwg ar-lein i brentisiaid ar ran Wavehill. Nid oedd ychwaith yn bosibl cael caniatâd i rannu gwybodaeth gyswllt y prentisiaid hynny a oedd wedi gadael eu prentisiaeth. Mae risg felly o ragfarn yn sampl yr arolwg (amcangyfrifwyd bod y cyfraddau ymadael yn gynnar [pan adroddai sefydliadau AU fod dysgwyr wedi gadael yn ystod y cwrs] rhwng 10 a 23 y cant [ar gyfer pob sefydliad AU] o'r holl brentisiaid a gofrestrodd, gan gynnwys prentisiaid yn gadael gyda dyfarniad ymadael).

## 4. Cynnydd a Pherfformiad Hyd Yma

### Crynodeb o'r Adran

- Yn 2020/21, roedd ychydig dros dri chwarter (76 y cant) o'r llefydd yn y fframwaith peirianeg a 46 y cant o'r llefydd yn y fframwaith digidol wedi'u llenwi.
- Oherwydd bod nifer is na'r disgwyl yn gwneud gradd-brentisiaethau, mae costau'r rhaglen yn sylweddol is na'r amcangyfrif gwreiddiol.
- Mae rhai sefydliadau AU penodol yn dominyddu'r ddarpariaeth gradd-brentisiaethau, gyda 43 y cant o'r gradd-brentisiaid sydd wedi'u cofrestru yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch wedi ymuno yn PCYDDS, a 28 y cant arall ym Mhrifysgol De Cymru. Mae 32 y cant o'r rheiny sydd wedi cofrestru yn y fframwaith digidol yn PCYDDS, a 24 y cant ym Mhrifysgol Abertawe.
- Er bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth ennyn myfyrwyr cenhedlaeth gyntaf i fynd i brifysgol, prin yw'r dystiolaeth bellach ar lefel y rhaglen gyfan o ehangu cyfranogiad i gofrestru'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg mewn sefydliadau AU unigol o lwyddiant wrth ehangu cyfranogiad, gyda merched yn cynrychioli 46 y cant o gofrestrïadau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a 39 y cant wedi cofrestru ym Mhrifysgol De Cymru yn y fframwaith digidol.

4.1 Mae'r adran hon yn adolygu data amrywiol i grynhoi cynnydd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau rhwng 2018 a 2021. Daw'r dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adran hon o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac o ddatganiadau monitro sefydliadau AU (yn bennaf gysylltiedig â blwyddyn academaidd 2020/21) sydd wedi'u dadansoddi ar sail rhaglen gyfan gan CCAUC. Yn ogystal, mae Wavehill wedi mynd ati i ddadansoddi datganiadau monitro sefydliadau AU unigol<sup>21</sup> er mwyn cael dadansoddiad manylach o gynnydd a pherfformiad.

### Trosolwg o'r rhaglen

4.2 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos nifer y gradd-brentisiaid sydd wedi'u cofrestru ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn 2020/21. Mae'n dadansoddi'r

<sup>21</sup> Mae data sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Abertawe a Prifysgol Bangor wedi'u codi o'u datganiad am 2019/20.

prentisiaid cofrestredig yn ôl fframwaith ac yn ôl a oeddent newydd gofrestru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 neu a oeddent yn parhau â'u haddysg gradd-brentisiaeth ar ôl cofrestru yn un o'r fframweithiau mewn blwyddyn academaidd flaenorol.

- 4.3 Mae'r tabl hefyd yn cynnwys nifer y dyraniadau prentisiaeth ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, gan ddangos bod nifer y prentisiaid ar y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch ychydig dros dri chwarter (76 y cant) y dyraniad, eto mae llai na hanner (46 y cant) o brentisiaid wedi cofrestru i'r nifer a ddyrannwyd o brentisiaethau digidol.
- 4.4 Gan fod pob gradd-brentisiaeth yn cael ei hariannu hyd at uchafswm o £27,000, mae'r nifer is na'r disgwyl yn cofrestru wedi arwain at gostau rhaglen sy'n gryn dipyn yn is (tua £4.4m yn is ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21) nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Mae'r lefel y mae prentis yn cofrestru ar y rhaglen hefyd yn dylanwadu ar y costau. Gall dysgu blaenorol prentis arwain at gofrestru ar y rhaglen ar Lefel 5 neu Lefel 6 (sy'n golygu y bydd eu gradd-brentisiaeth yn costio llai na £27,000), ac, yn yr un modd, gallai rhai prentisiaid adael y rhaglen yn gynnar, ar ôl ennill cymhwyster ar Lefel 4 neu Lefel 5.


**Tabl 4.1: Gradd-brentisiaid 2020/21 yn ôl fframwaith yn erbyn y dyraniad**

Fframwaith	Dyraniad		Wedi'u recriwtio		Canran y dyraniad
	2020/21	Yn parhau	Newydd	Cyfanswm	
Digidol	710	215	115	<b>330</b>	46%
Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	450	140	195	<b>340</b>	76%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1160</b>	<b>355</b>	<b>310</b>	<b>670</b>	58%

Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC o ddatganiad niferoedd sefydliadau AU (2021)

- 4.5 Mae Ffigur 4.1 isod yn rhoi darlun o lefelau recriwtio, yn ôl fframwaith, dros amser. Mae'n dangos sut y dechreuodd y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch flwyddyn yn ddiweddarach na'r disgwyl ond bod ei boblogrwydd wedi codi bob blwyddyn. I'r gwrthwyneb, bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau newydd ar y fframwaith digidol o'i gymharu â blwyddyn gyntaf y rhaglen, er bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael nifer cymharol gyson yn dechrau am y fframwaith hwn.

**Ffigur 4.1: Nifer y cofrestriadau newydd i radd-brentisiaeth yn ôl blwyddyn ac yn ôl fframwaith**



Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC o ddatganiad niferoedd sefydliadau AU (2021)

4.6 Mae Tabl 4.2 yn ddadansoddiad manylach o gyfanswm y cofrestriadau i'r rhaglen yn ôl llwybr ar gyfer y blynyddoedd academaidd pan fo'r wybodaeth honno wedi bod ar gael. Dengys y tabl bod gradd-brentisiaid ar y llwybr peirianeg meddalwedd bron yn draean yr holl radd-brentisiaid, tra bod un rhan o bump wedi cofrestru ar y llwybr peirianeg fecanyddol.


**Tabl 4.2: Gradd-brentisiaethau yn ôl llwybr (2019–21)**

Llwybr	2019/20		2020/21	
	Nifer	%	Nifer	%
Rheoli Seiberddiogelwch	40	11%	55	8%
Gwyddor Data	50	13%	60	9%
Peirianeg Meddalwedd	135	36%	215	32%
Gweithgynhyrchu Uwch	55	14%	120	18%
Peirianeg Gemegol	5	1%	5	1%
Peirianeg Drydanol/Electronig	35	9%	75	11%
Trydanol	0	0%	5	1%
Peirianeg fecanyddol	60	16%	130	20%
<b>Cyfanswm prentisiaid</b>	<b>380</b>	<b>100%</b>	<b>665</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC o ddatganiad niferoedd sefydliadau AU (2020 a 2021)

4.7 Gan ddefnyddio adroddiadau monitro gan sefydliadau AU i CCAUC, mae'n bosibl amcangyfrif nifer y gradd-brentisiaid fesul sefydliad AU i roi ymdeimlad o batrymau ymgysylltu. Mae Ffigur 4.2 yn cynnig dadansoddiad o amcangyfrif canran nifer y cyfranogwyr ym mhob fframwaith yn ôl sefydliad AU. Mae'n dangos mai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), o bell ffordd, sydd â'r nifer uchaf o radd-brentisiaid, gan fod â bron i draean o'r holl brentisiaid yn y fframwaith digidol a mwy na 40 y cant yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Mae Prifysgol De Cymru yn arbennig o amlwg fel recriwtiwr prentisiaid yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch (gan adeiladu ar eu hanes o weithio gyda'r sector peirianeg yn yr ardal honno), tra bod Prifysgol Abertawe wedyn yn flaenllaw yn y fframwaith digidol (sy'n debygol o fod yn rhannol oherwydd y radd sylfaen a gynigiwyd ganddynt yn y sector hwnnw cyn lansio'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau).

**Ffigur 4.2: Canran y gradd-brentisiaid ym mhob sefydliad AU**



Ffynhonnell: dadansoddiad Wavehill o ddatganiadau monitro sefydliadau AU (2020 a 2021)


4.8 Mae gradd-brentisiaid yn cofrestru ar y rhaglen ar lefelau gwahanol yn dibynnu ar eu dysgu neu brofiad blaenorol, gyda rhywfaint o ddysgu blaenorol yn galluogi prentisiaid i gael mynediad ar statws uwch (sef pennu faint o greydau o astudio blaenorol neu sgiliau presennol y gellir eu dyfarnu tuag at y radd-brentisiaeth). Mae rhai prentisiaid, er enghraifft, sydd wedi gwneud HND ar un o'r llwybrau yn gallu



cofrestru ar y radd-brentisiaeth ar Lefel 6, a hyn yn dangos llwybrau dilyniant sydd wedi'u sefydlu gyda'r partneriaid cyflenwi.

4.9 Mae Ffigur 4.3 yn dangos y lefel y cofrestrodd prentisiaid ar y rhaglen dros amser. Mae'n dangos sut y bu trawsnewid cyson o ran y cofrestriadau (o'r mwyafrif helaeth o'r gradd-brentisiaid yn cofrestru ar radd-brentisiaeth ar Lefel 4 yn 2018/19 i bortffolio mwy cytbwys o gofrestriadau ar draws Lefelau 4, 5 a 6 yn 2020 /21). Gall y trawsnewid hwn dros amser adlewyrchu'r ffocws cychwynnol ar Lefel 4 wrth lansio'r rhaglen, gyda chynllunio dilynol ar lwybrau dilyniant a champau olaf y gradd-brentisiaethau wrth i'r rhaglen aeddfedu. Er nad oedd dadansoddiad yn lefel y cofrestriadau yn ôl fframwaith ar gael i'r gwerthuswyr, mae'n debygol (yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd) bod llwybrau dilyniant mwy sefydledig (neu fwy o gymwysterau cydnabyddedig, yn enwedig ar Lefelau 4 a 5) yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, gyda chyfran o fyfyrwyr yn cofrestru yn y rhaglen ar ôl gwneud Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) a Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND).

**Ffigur 4.3: Lefel y mynediad i radd-brentisiaeth yn ôl blwyddyn academaidd**



Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC o ddatganiad niferoedd sefydliadau AU

## Demograffeg y gradd-brentisiaid

### Oedran

- 4.10 Mae llai nag un o bob pump (19 y cant) o'r gradd-brentisiaid (yn y cofrestriadau rhwng 2018 a 2021) yn iau na 21 oed. I gymharu, roedd ymchwil a wnaed yn Lloegr wedi gweld bod 44 y cant o'r rheiny a oedd wedi cofrestru ar radd-brentisiaethau Lefel 6 (er ledled casgliad llawer ehangach o safonau/cyfraddau galwedigaethol nag sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru), yn iau na 21 oed.<sup>22</sup> Mae amrywio, fodd bynnag, yn oedran y cofrestriadau fesul SAU yng Nghymru. Yn y flwyddyn academaidd ddiweddaraf, amcangyfrifir bod dros draean (36 y cant; 103/289) o'r rheiny sydd wedi cofrestru mewn cyrsiau yn PCYDDS yn iau na 21 oed.<sup>23</sup>

### Rhyw

- 4.11 Ledled y sefydliadau AU, mae 14 y cant o'r gradd-brentisiaid presennol yn fenywod. Mae'r sectorau sy'n gysylltiedig â'r fframweithiau gradd-brentisiaeth yn draddodiadol wedi'u dominyddu gan ddynion; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gogwydd rhyw tuag at ddynion wedi cynyddu bob blwyddyn. Ym mlwyddyn academaidd 2020/21, er enghraifft, amcangyfrifir bod 10 y cant (30/290) o'r gradd-brentisiaid oedd newydd gofrestru ar radd-brentisiaeth yn disgrifio'u hunain yn ferch. Er mai dynion yw mwyafrif y prentisiaid ledled yr holl sefydliadau AU, mae cryn wahaniaethau rhwng y sefydliadau o ran proffil rhyw. Ledled y fframwaith digidol, mae tua 19 y cant o'r gradd-brentisiaid sydd ar hyd o bryd wedi'u cofrestru ar y rhaglen yn fenywod; fodd bynnag, mae'r gyfran hon yn codi i 46 y cant ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd<sup>24</sup> a 39 y cant ym Mhrifysgol De Cymru.<sup>25</sup>
- 4.12 Yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, dim ond 10 y cant o'r holl brentisiaid sy'n fenywod; fodd bynnag, ym Mhrifysgol Abertawe, mae mwy nag un pumed (21 y cant) o'r rheiny sydd wedi cofrestru yn y fframwaith yn fenywod.<sup>26</sup> Ymhellach, mae 71 o'r rheiny sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Abertawe yn y fframwaith hwnnw o dan 21 oed (o'i gymharu â 18 y cant o radd-brentisiaid ledled y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch cyfan) a chofnodir bod pob un

---

<sup>22</sup> [Wavehill \(2019\) Degree Apprenticeships Motivations Research, Office for Students.](#)

<sup>23</sup> Dadansoddiad o ddatganiadau monitro sefydliadau AU i CCAUC.

<sup>24</sup> Dadansoddiad Wavehill o ddatganiadau monitro sefydliadau AU i CCAUC.

<sup>25</sup> Ibid.

<sup>26</sup> Ibid.

ohonynt yn weithwyr sydd newydd eu recriwtio i'r radd-brentisiaeth (o'i gymharu ag 11 y cant o'r holl gofrestriadau ar draws y fframwaith). Mae proffil y gradd-brentisiaid ym Mhrifysgol Abertawe yn y fframwaith hwn yn haeddu sylw, o gofio bod tîm y radd-brentisiaeth yn gweithio'n agos â [Technocamps](#) (ac yntau hefyd wedi'i sefydlu ym Mhrifysgol Abertawe), sy'n gweithio gydag ysgolion uwchradd i gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â phynciau STEM (gan fod â ffocws penodol ar ennyn diddordeb y merched).

- 4.13 Wrth ystyried y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, mae'n bwysig ystyried y gogwydd rhyw cynhenid sydd yn y sectorau diwydiannol sy'n gysylltiedig â dau fframwaith y gradd-brentisiaethau. Er mwyn gosod y proffil rhyw yn ei gyd-destun, felly, dyma gyflwyno cymhariaeth â phroffil rhyw mewn graddau cyntaf yn y meysydd pwnc sector hyn yn Nhabl 4.3 isod. Mae'n dangos bod ychydig mwy o ferched ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer gradd gyntaf mewn Peirianeg a Thechnoleg neu Gyfrifiadura na'r nifer sydd ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n fwy pan fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y rheini sydd wedi cofrestru ar gyfer gradd gyntaf yn rhan-amser (gellid dadlau ei fod yn cymharu'n agosach â natur ran-amser gradd-brentisiaeth).

**Tabl 4.3: Manylion rhyw yn ôl math o radd mewn peirianeg a thechnoleg neu gyfrifiadura**

Math o Radd	Canran yn cofrestru sy'n diffinio eu hunain yn ferch	
	2019/20	2020/21
Gradd-brentisiaethau a ariennir gan CCAUC	16.4	14.4
Gradd gyntaf – Peirianeg a Thechnoleg neu Gyfrifiadura	16.64	16.62
Gradd gyntaf – Peirianeg a Thechnoleg neu Gyfrifiadura Rhan-amser	16.49	21.08
Gradd gyntaf – Peirianeg a Thechnoleg neu Gyfrifiadura Llawn Amser	15.94	16.51

Ffynhonnell: Dadansoddi rhyw ar gyfer gradd-brentisiaethau, CCAUC. Dadansoddi rhyw mewn graddau cyntaf, data HESA (Cymru)


### Ethnigrwydd

- 4.14 Cyflwynir ystod o ddangosyddion perfformiad cymharol eraill mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad yn Ffigur 4.4 isod. Mae'r dadansoddiad yn ymwneud â blwyddyn academiaidd 2019/20 (blwyddyn ddiweddaraf data HESA) ac yn rhoi syniad o lwyddiant cymharol y Rhaglen Gradd-brentisiaethau mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad wrth gymharu â graddau cyntaf mewn meysydd pwnc sectorau tebyg ac â graddau cyntaf yn gyffredinol. Mae'r ffigur yn dangos fod gradd-

brentisiaid yn Rhaglen Gradd-brentisiaethau Llywodraeth Cymru yn llawer mwy tebygol o fod yn byw yng Nghymru ac yn llawer mwy tebygol i fod â rhieni heb gymwysterau AU o'i gymharu â'r rheiny sy'n dechrau ar raddau cyntaf traddodiadol. Ar ben hynny, mae cyfranogwyr ychydig yn fwy tebygol o fyw mewn cymdogaethau lle mae cyfranogiad mewn addysg uwch yn is na chyfartaledd y DU.<sup>27</sup>

4.15 Mae Ffigur 4.4 hefyd yn dangos, serch hynny, bod cyfranogwyr mewn gradd-brentisiaethau yn llai tebygol o fod yn anabl neu o darddiad Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Ar gyfer y dangosydd olaf, gellid egluro hyn (o leiaf) yn rhannol drwy fod cyfran uwch o'r gradd-brentisiaid yn hanu o Gymru (lle mae'r data diweddaraf yn amcangyfrif bod tua phedwar cant o drigolion y wlad o darddiad Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig).

**Ffigur 4.4: Cofrestriadau â darparwyr addysg uwch – Cymru (2019/20)**



Ffynhonnell: HESA

27 Yn seiliedig ar ddata POLAR (Cyfranogiad Ardaloedd Lleol).

## **Anabledd**

- 4.16 O ran cyfran y gradd-brentisiaid sy'n datgan anabledd, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl sefydliadau AU, ac er bod pump y cant o'r holl radd-brentisiaid yn datgan anabledd, mae'r gyfran hon yn cynyddu i 11 y cant o'r rhai sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol Agored ac yn PCYDDS sy'n datgan anabledd.<sup>28,29</sup>

## **Y Gymraeg**


- 4.17 Mae dadansoddi'r wybodaeth fonitro hefyd yn dangos fod cyfran y gradd-brentisiaid sy'n siarad Cymraeg wedi codi bob blwyddyn o lai nag un o bob pump (19 y cant) yn 2018/19 i fwy na chwarter (27 y cant) yn 2020/21.
- 4.18 Yn Ffigur 4.5 ceir dadansoddiad pellach o leoliad cartrefi gradd-brentisiaid yn 2019/20 (y dyddiad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer dadansoddi). Dengys y siart fod gradd-brentisiaid yn byw gan fwyaf yn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Castell-nedd Port Talbot yw'r nawfed awdurdod lleol mwyaf poblog gyda'r stoc gweithwyr sydd yr unfed ar ddeg uchaf yng Nghymru. Mae preswylwyr yn yr awdurdod felly yn llawer mwy tebygol o fod wedi cofrestru ar radd-brentisiaeth na'r rheini o ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn debygol o fod wedi cael ei ddylanwadu drwy fod sefydliadau mawr yn yr awdurdod lleol, megis Tata Steel, wedi cymryd rhan sylweddol yn y rhaglen.

---

28 Dadansoddiad Wavehill o ddatganiadau monitro sefydliadau AU i CCAUC.

29 Mae cyfran uwch ag anabledd datganedig mewn sefydliad AU arall; fodd bynnag, mae'r data wedi'i gelu oherwydd bod y nifer cyffredinol o fyfyrwyr a dderbynnir yn y sefydliad AU hwnnw yn fach ac felly gallai'r unigolion hynny fod yn adnabyddadwy pe câi'r data ei gyhoeddi yn yr adroddiad hwn.

**Ffigur 4.5: Yr awdurdodau unedol y mae gradd-brentisiaid yn hanu ohonynt (2019/20)<sup>30</sup>**



Ffynhonnell: HESA

### Cymwysterau blaenorol

4.19 Ymhlith y gradd-brentisiaid gradd yng Nghymru y gwyddys beth oedd eu cymwysterau blaenorol, roedd 14 y cant (55/385) eisoes wedi graddio o brifysgol. O'u dadansoddi yn ôl fframwaith (gan ddefnyddio tystiolaeth a gafwyd drwy'r arolwg ar-lein), mae gwahaniaeth amlwg, gyda 31 y cant (38/125) yn dweud eu bod ar lefel graddedig neu uwch yn y fframwaith digidol, tra mai dim ond pedwar y cant (3/74) o'r rheiny yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch a gofnododd eu bod eisoes wedi'u haddysgu i'r lefel honno. Gallai hyn fod yn arwydd o lwybrau dysgwyr llai sefydledig yn y fframwaith digidol nac yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, er y gallai hefyd adlewyrchu mwy o angen o du'r rhai sydd yng nghanol eu gyrfa i loywi eu sgiliau ac ailsgilio mewn meysydd yn y fframwaith digidol (fel y cyfeiriodd sawl rhanddeiliad hefyd).

<sup>30</sup> Sylwer bod y niferoedd sy'n cofrestru wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

- 4.20 O'r prentisiaid yn y rhaglen, amcangyfrifir fod 86 y cant o'r rheiny sydd wedi cofrestru yn ystod 2018–2021 eisoes wedi'u cyflogi yn eu sefydliad cyn dechrau gradd-brentisiaeth. Unwaith eto, fodd bynnag, mae cryn wahaniaethau rhwng sefydliadau AU, gyda 34 y cant o'r rheiny yn cofrestru mewn gradd-brentisiaethau ym Mhrifysgol Abertawe yn cofrestru fel cyflogeion newydd, a 21 y cant o'r rheiny ym Mhrifysgol De Cymru yn gwneud yr un peth. Yn Lloegr, ymddengys bod gradd-brentisiaid sydd wedi cofrestru ar y rhaglen yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu â'r rhaglen fel cyflogeion newydd. Dangosodd ymchwil fod 31 y cant (64/207) o'r rheiny oedd wedi cofrestru mewn gradd-brentisiaeth sy'n arwain at gymhwyster Lefel 6 yn Lloegr mewn addysg lawn-amser yn union cyn cofrestru â gradd-brentisiaethau, a 36 y cant wedyn heb brofiad blaenorol o gyflogaeth lawn-amser cyn dechrau ar eu gradd.<sup>31</sup>
- 4.21 Roedd pobl a gyflogir eisoes i'w cael yn amlach yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, wrth i 89 y cant o'r rhai a ymunodd fod yn gyflogeion presennol o'i gymharu â 77 y cant o'r rheiny wedi cofrestru yn y fframwaith digidol.

### **Cyflogwyr**

- 4.22 Gyda'i gilydd, mae sefydliadau AU yn ymwneud â thua 330 o gyflogwyr. Mae gan 55 y cant o'r rhain gyflogeion yn y fframwaith digidol, tra bod y gweddill yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch.
- 4.23 Mae 81 y cant o'r gradd-brentisiaid sydd wedi cofrestru ar y rhaglen yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan fusnesau mawr, a hyn yn or-gynrychioli sylweddol ar gyflogeion mewn busnesau mawr o ystyried mai 38 y cant (74/207) o'r boblogaeth sy'n gweithio ledled economi Cymru sy'n cael eu cyflogi mewn busnesau mawr.<sup>32</sup> Adlewyrchir y duedd hon yn Lloegr hefyd, lle amcangyfrifir bod 80 y cant o'r rhai a oedd yn dechrau ar radd-brentisiaeth yn 2017/18 wedi dod o gyflogwyr sy'n talu ardoll (sydd â biliau cyflogau mwy na £3m).<sup>33</sup>
- 4.24 Wrth ddadansoddi mewn perthynas â nifer y busnesau (yn hytrach na nifer y prentisiaid), mae cyfran y busnesau bychain a chanolig eu maint yn cynyddu, gyda 43 y cant o gyflogwyr yn ymwneud â'r fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu

---

<sup>31</sup> [Wavehill \(2019\) Degree Apprenticeships Motivations Research, Office for Students.](#)

<sup>32</sup> [Strwythur busnesau yng Nghymru yn ôl band maint a mesur, Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau \(IDBR\), ONS 2019.](#)

<sup>33</sup> Policy Connect (2019) *Degree Apprenticeships Up to Standard*, Policy Connect, Llundain.

uwch a 37 y cant o gyflogwyr â'r fframwaith digidol yn dweud eu bod yn fach neu ganolig eu maint.<sup>34</sup> Mae'r cynnydd yn nifer y BBaChau yn adlewyrchu'r ffaith bod busnes mwy o faint yn fwy tebygol o gofrestru niferoedd uwch o gyflogeion yn y rhaglen nag y mae BBaCh.

- 4.25 Mae Tabl 4.4 isod yn dangos fod 46 y cant o brentisiaid wedi'u cyflogi gan fusnesau neu sefydliadau sydd yn y sector gweithgynhyrchu (er nad yw hyn yn syndod wrth ystyried ffocws sectoraidd y fframweithiau). Ymhellach, mae 15 y cant yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, gyda sefydliadau yn y sectorau iechyd a gwybodaeth a chyfathrebu hefyd yn amlwg. Yn ogystal, dengys y tabl ddisbarthiad y cyflogwyr yn ôl sector. Wrth gymharu'r ddwy set ddata mae'n amlwg bod sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi cynnig nifer uwch o radd-brentisiaid fesul cyflogwr na'r cyfartaledd, tra bod cyflogwyr yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu yn cynnig nifer is o gyflogeion fesul cyflogwr nag sy'n arferol.

**Tabl 4.4: Nifer y gradd-brentisiaid a chyflogwyr yn ôl sector diwydiannol y gyflogaeth**

Sector	Nifer y prentisiaid	Canran yr holl brentisiaid	Nifer y cyflogwyr	Canran yr holl gyflogwyr
Gweithgynhyrchu	305	46%	85	43%
Gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn	100	15%	16	8%
Gweithgareddau gwaith cymdeithasol ac iechyd pobl	55	8%	16	8%
Gwybodaeth a chyfathrebu	50	8%	19	10%
Gweithgareddau ariannol ac yswiriant	40	6%	8	4%
Addysg	30	5%	8	4%
Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	30	5%	14	7%
Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru	10	2%	6	3%

Sylfaen: 10 prentis neu fwy


Ffynhonnell: dadansoddiad CCAUC (2021)

- 4.26 Mae Ffigur 4.6 yn dangos maint y cyflogwyr sydd wedi cymryd rhan yn y gradd-brentisiaethau yn ôl sector eu diwydiant. Mae'n dangos, er bod y rhan fwyaf o'r rheiny yn y sectorau cyllid a gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi ymwneud â'r rhaglen yn BBaChau, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'r sector addysg ac iechyd a'r holl sefydliadau sector cyhoeddus sydd wedi ymgysylltu yn fusnesau mawr.

<sup>34</sup> Dylid nodi bod 13 o'r cofnodion sy'n ymwneud â'r dadansoddiad hwn ar gyfer cyflogwyr dyblyg, hynny yw, pan fo cyflogwyr wedi cofrestru prentisiaid mewn mwy nag un SAU ac/neu o fewn mwy nag un fframwaith.



**Ffigur 4.6: Maint y cyflogwyr yn ôl sector eu diwydiant**



Ffynhonnell: Dadansoddiad CCAUC o ffurflenni monitro

Sylfaen: 8 cyflogwr

### **Crynodeb**

4.27 Mae dadansoddi data'r rhaglen yn dangos bod y Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi denu llai o brentisiaid nag a ragwelwyd ar ddechrau'r rhaglen ac o edrych ar hyn ar draws yr holl sefydliadau AU, er bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgysylltu â myfyrwyr sydd y genhedlaeth gyntaf i fynd i brifysgol, prin yw'r dystiolaeth bellach fod y rhaglen yn ehangu cyfranogiad. Wedi dweud hynny, pan fo tystiolaeth ar gael ar lefel sefydliad AU unigol, mae rhywfaint o wahaniaethau yn amlwg. Mae menywod yn ymgysylltu'n gryf, er enghraifft, ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru yn y fframwaith digidol ac ym Mhrifysgol Abertawe (a oedd wedi perfformio'n hynod dda wrth ddenu pobl ifanc iau na 21 oed a oedd newydd gael eu recriwtio i'w cyflogwr) yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch.

## 5. Prif Ganfyddiadau – Hyrwyddo, y Galw, Ymgysylltu a Chofrestru

### Crynodeb o'r Adran

- Soniodd rhanddeiliaid amrywiol a staff rheoli a chyflenwi fod diffyg ymgyrch farchnata yn ganolog i hyrwyddo gradd-brentisiaethau wedi dylanwadu ar elfennau gwahanol y rhaglen, gan gynnwys nifer a phroffil y cyflogwyr a'r prentisiaid.
- Dywedodd sawl aelod o staff cyflenwi a rhanddeiliaid ehangach fod ymwybyddiaeth o radd-brentisiaethau yn wael ymhlith busnesau bychain a chanolig eu maint (BBaChau).
- Mae prentisiaid fel arfer yn clywed am y rhaglen trwy eu cyflogwr neu gydweithiwr, ac ychydig iawn sy'n dod i wybod amdani trwy lwybrau eraill – gall hyn ddylanwadu ar y ffaith fod mwyafrif y prentisiaid eisoes wedi'u cyflogi ac yn dod o gyflogwyr sydd eisoes yn ymwneud â'r rhaglen.
- Mae'r llwybrau dysgu i radd-brentisiaethau i'w gweld yn eithaf sefydledig yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, gyda dros hanner eisoes wedi gwneud prentisiaeth yn flaenorol a thros hanner o'r rhain gyda'r un cyflogwr.
- Pe na byddai gradd-brentisiaethau yn bodoli, ni fyddai'r rhan fwyaf o gyflogwyr wedi cefnogi eu gweithwyr i astudio gradd draddodiadol, gyda mathau eraill o hyfforddiant byr, llai ffurfiol yn debygol.
- Dywedodd staff cyflenwi fod angen mwy o sicrwydd ynghylch cyllid y Rhaglen Gradd-brentisiaethau er mwyn cefnogi eu huchelgeisiau i recriwtio ac ymgysylltu â rhagor o gyflogwyr.
- Cyn cofrestru, yr hyn oedd yn poeni prentisiaid fwyaf oedd cael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd — roedd eu pryder yn un cywir, gyda dau draean ohonynt yn dweud bod hyn yn her allweddol wrth wneud gradd-brentisiaeth.

## Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r adran hon yn pwysu a mesur yr adborth gan staff, prentisiaid a chyflogwyr i gael darlun o'u profiad wrth hyrwyddo, ymgysylltu a chofrestru cyflogwyr a phrentisiaid yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Ceir manylion am roi'r rhaglen ar waith ar y dechrau, gan gynnwys cynllun y fframwaith, yn yr [adroddiad cwmpasu](#). Mae'r adran hon yn ceisio adeiladu ar y canfyddiadau hynny.

## Ceisiadau sefydliadau AU a chynrychiolaeth mewn fframweithiau/llwybrau

- 5.2 Ym mlwyddyn academiaidd 2021/22, câi gradd-brentisiaethau eu cynnal mewn wyth sefydliad AU ledled Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaid o chwe choleg AB. Dangosir isod sut mae pob sefydliad AU yn rhan o bob llwybr, tra bod gwybodaeth ychwanegol ynghylch mathau'r cyrsiau a gynigir ym mhob sefydliad AU i'w chael yn Atodiad A.

**Tabl 5.1: Y ddarpariaeth gradd-brentisiaethau yn ôl sefydliad AU**

Sefydliad AU	Partner(iaid) Cyflenwi	Llwybr Digidol	Llwybr Peirianeg
Prifysgol Bangor	Grŵp Llandrillo Menai Coleg Cambria	Oes	Oes
Prifysgol Caerdydd	Coleg Gŵyr		Oes
Prifysgol Metropolitan Caerdydd		Oes	
Y Brifysgol Agored yng Nghymru		Oes	
Prifysgol Abertawe	Coleg Gŵyr Coleg Cambria	Oes	Oes
Prifysgol De Cymru		Oes	Oes
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Coleg Sir Gâr	Oes	Oes
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Grŵp NPTC – Coleg Castell-nedd Port Talbot Coleg Powys	Oes	Oes

- 5.3 Yn ogystal â'r cyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae Prifysgol Aberystwyth wedi dangos diddordeb mewn datblygu gradd-brentisiaethau os bydd fframweithiau newydd yn cyfateb i'r galw ymhlith cyflogwyr y Canolbarth.

## **Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo**

- 5.4 Ychydig iawn o farchnata neu hyrwyddo a gafodd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn genedlaethol naill ai gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC. Roedd y prinder hyrwyddo yn adlewyrchu pryderon y gallai hyrwyddo godi lefelau diddordeb ac ymgysylltiad y tu hwnt i'r hyn y gellid talu amdano drwy'r gyllideb a oedd ar gael.
- 5.5 Yn sgil diffyg hyrwyddo cenedlaethol, arweiniwyd yr ymgyrch farchnata yn bennaf gan sefydliadau AU a'u colegau partner AB, gan gynnal ystod o weithgareddau marchnata ac allgymorth i gefnogi hyrwyddo'r rhaglen i gyflogwyr. Fel rheol, roedd y rhain yn cynnwys mynychu digwyddiadau diwydiant neu ddiwrnodau agored a chynnal gweithgareddau fel Brechwast Busnesau (a oedd yn rhoi cyfleoedd i gyflogwyr gael gwybodaeth am y rhaglen). Defnyddiwyd y rhain hefyd i hyrwyddo'r rhaglen i ddarpar brentisiaid. Er enghraifft, gwahoddodd PCYDDS brentisiaid Lefel 3 i fynychu Brechwast Busnesau gyda'r cyfle i ddysgu am y rhaglen ac i rwydweithio gyda chyflogwyr posibl y gallent gofrestru ar y rhaglen gyda nhw.

'Mae'r digwyddiadau brechwast wedi bod yn llwyddiant. Fe wnaethom wahodd cyflogwyr a darpar brentisiaid ac roedd yn ddigwyddiad paru fwy neu lai. Ar ôl i ni orffen, cododd un darpar brentis ar ei thraed a dweud ei bod yn chwilio am gyflogwr, a daethom o hyd i gyflogwr a oedd yn chwilio am rywun tebyg iddi hi. Mae hi yn nhrydedd flwyddyn y cwrs nawr.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 5.6 Yn aml, soniai sefydliadau AU eu bod wedi pennu staff penodol i gefnogi ymdrechion i hyrwyddo'r gweithgaredd i gyflogwyr, neu eu bod wedi cynnwys y cyfrifoldeb am hyn mewn swydd a oedd yn bodoli eisoes. Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys Arweinydd Gradd-brentisiaethau wedi'i leoli yn y brifysgol, tra yn y Brifysgol Agored arweiniwyd y gwaith hwn gan yr Uned Datblygu Busnes (sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â chyflogwyr). Ym Mhrifysgol Bangor, roedd Swyddogion Lleoliadau Gwaith sydd wedi'u lleoli yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLIM) wedi hyrwyddo'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau i'w rhwydwaith presennol o gyflogwyr.

5.7 Dywedodd dau SAU fod y cyfryngau cymdeithasol yn rhan fawr o'u dull ymgysylltu. I Brifysgol Metropolitan Caerdydd, mae LinkedIn wedi bod yn arf arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cysylltu â darpar gyflogwyr ac wedi rhoi modd iddynt ymestyn marchnata ar eu rhaglenni newydd. Fodd bynnag, o ran ymgysylltu â phrentisiaid posib, ni ymddengys bod y cyfryngau cymdeithasol yn esgor ar lawer yn ymuno â'r rhaglen. Wrth ymateb i'r arolwg ar-lein i'r gradd-brentisiaid, dim ond pump y cant o radd-brentisiaid (9/198) adroddodd eu bod wedi clywed am y rhaglen am y tro cyntaf drwy'r cyfryngau cymdeithasol, tra bod pump y cant o gyflogwyr (4/76) wedi sôn am y Rhyngrwyd fel y llwybr y daethant i wybod am y Rhaglen Radd-brentisiaeth.

'Mae'r wefan yn dod â rhai prentisiaid i mewn yn syth atom, ond roedd y rhan fwyaf o'n criw cyntaf gyda chwmnïau roedden ni eisoes yn siarad â nhw.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

5.8 Ar draws yr holl sefydliadau, roedd y berthynas oedd eisoes yn bodoli â chyflogwyr yn rhan allweddol o'r dull ymgysylltu a recriwtio. Dywedodd y rhan fwyaf o sefydliadau fod ganddynt berthynas sefydledig â rhai o'r cyflogwyr a oedd wedi manteisio ar radd-brentisiaethau, ac mewn rhai achosion roedd gan y sefydliadau neu eu partneriaid cyflenwi hanes hir o gydweithio'n agos gyda chyflogwyr penodol. Yn wir, disgrifiodd 59 y cant o gyflogwyr (45/76) iddynt glywed gyntaf am y radd-brentisiaeth naill ai gan brifysgol neu goleg AB. Roedd rhai sefydliadau AU hefyd yn dibynnu ar berthynas bersonol staff allweddol y rhaglen i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Radd-brentisiaeth.

'Rydyn ni wedi defnyddio llawer o gysylltiadau personol gan bobl oedd yn gweithio yn yr uned brentisiaethau a gan y timau academiaidd oedd eisoes â pherthynas â chyflogwyr. Rydyn ni'n gweithio mewn rhwydweithiau, felly rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau, o staff yn mynychu cyfarfodydd CIPD i gyfarfodydd diddordeb ym maes cyfrifiadureg, felly byddai staff yn hyrwyddo'r ddarpariaeth drwy'r rhain. Ac fe wnaethon ni gynnal digwyddiadau brechwast i gyflogwyr a thargedu'r recriwtio ar gyfer y rhain.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

5.9 Hyrwyddwyd y rhaglen i gyflogwyr drwy ryngweithio un-i-un rhwng staff mewn sefydliadau AU a chyflogwyr, yn ogystal ag ymgysylltu mewn digwyddiadau yn

cynnwys sawl cyflogwr. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys ymgysylltu â chyflogwyr drwy Baneli Cyswllt Diwydiannol a Byrddau Sgiliau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chynnal digwyddiadau i gyflogwyr fel diwrnodau agored a Brechwast i Fusnesau, fel y trafodwyd uchod.

- 5.10 Gofynnwyd i gyflogwyr beth oedd yn gweithio'n dda o ran hyrwyddo'r rhaglen ac yn aml soniwyd ganddynt mai elfennau defnyddiol oedd cael rhywun yn cysylltu'n uniongyrchol â nhw a'r sefydliadau AU yn cyfathrebu'n gyson yn disgrifio sut y byddai'r cwrs yn gweithio. Fodd bynnag, fel yr eglurodd un aelod o staff rheoli a chyflenwi, gallai'r dull hwn fod yn feichus, yn enwedig yn absenoldeb ymgyrch ganolog i adeiladu arno.

'Mae popeth yn dameidiog iawn ac yn feichus iawn ar ein hamser ni i gael pobl i mewn, felly mae angen codi ymwybyddiaeth yn ganolog. Nid oes gan gwmnïau ac ysgolion hyd yn oed wybodaeth am fodolaeth y Rhaglen Gradd-brentisiaethau a beth mae'n ei olygu [...] rhaid iddo wir gael ei weld fel llwybr [...] Mae pobl yn siarad ac yn dweud wrth ei gilydd yn wych ond nid yw hynny'n cael yr un cyrhaeddiad â hwb canolog. Gall prifysgolion wthio hyn, ond gall fod yn anodd gan nad ydyn ni'n mesur myfyrwyr a recriwtiwyd yn seiliedig ar berfformiad academiaidd. Mae angen iddyn nhw ddiwallu anghenion y busnes. Mae'n rheidrwydd arnom i wir gael y cwmnïau llai i ymuno gan mai nhw sy'n mynd i elwa'n fawr o hyn, felly mae angen cael y neges i lawr atyn nhw.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 5.11 Awgryma cyfweiliadau â sawl aelod o staff rheoli a chyflenwi y byddai ymgyrch genedlaethol ehangach wedi'i chynnal yn ganolog wedi cefnogi ymdrechion sefydliadau AU i hyrwyddo'r rhaglen. Er bod eu gweithgarwch allgymorth uniongyrchol wedi helpu i recriwtio prentisiaid, yn enwedig pan oedd ganddynt berthynas eisoes â chyflogwyr, teimlwyd hefyd y gellid wedi gwneud mwy i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymhlith cyflogwyr, fel y dangosir yn y dyfyniad isod.

'Mae'r [hyrwyddo] hwn wedi bod yn un o'r pethau mwyaf heriol sy'n ein hwynebu, codi ymwybyddiaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn y sector. Rydyn ni'n dibynnu llawer ar y cysylltiadau sydd gyda ni eisoes fel prifysgol i wthio hyn allan. Rydyn ni'n gwithio llwybrau eraill a

sesiynau codi ymwybyddiaeth, ond teimlaf fod angen mwy o hwb canolog gan CCAUC. Mae rhai o fy mhartneriaid yn gweithio eu ffordd i mewn i gyrff eirioli ac mae hyn yn wych, ond mae hynny'n cymryd amser.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

5.12 Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth ymhlith sawl darparwr bod y rhan fwyaf o'r gradd-brentisiaid wedi ymuno â'r rhaglen drwy gyflogwyr yr oedd gan y sefydliad AU neu eu Partner Cyflenwi berthynas â nhw eisoes. Yn wir, nid oedd yn anghyffredin i'r mwyafrif o brentisiaid ddod o un neu ddau gyflogwr yn unig, ac mae dadansoddi'r data yn dangos bod cyflogwyr, ar gyfartaledd, wedi cofrestru 2.5 prentis yr un yn y rhaglen, er bod hyn yn amrywio o 1.6 prentis fesul cyflogwr ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam i 10 prentis fesul cyflogwr ym Mhrifysgol Caerdydd.<sup>35</sup>

5.13 Ymhlith BBaChau yn arbennig, roedd staff cyflenwi mewn sefydliadau AU yn adrodd yn aml bod heriau yn ymwneud â lefel ymwybyddiaeth am y rhaglen. Dywedodd sawl aelod o staff mai gwael oedd gwybodaeth rhai BBaChau am radd-brentisiaethau a'r opsiynau y maent yn eu cynnig.

'Doedd llawer o fusnesau bach a chanolig ddim yn gwybod am y gradd-brentisiaethau a'u cyfle.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

5.14 Yn yr un modd, cododd sawl aelod o staff bryderon ynghylch ymwybyddiaeth isel o'r rhaglen ymhlith pobl sy'n gadael yr ysgol. Câi hyn ei ystyried yn aml i fod yn faes twf posibl ar gyfer y rhaglen.

'Pan fyddan nhw wedi ennill eu plwyf ac yn cael eu darparu'n llwyddiannus, byddwn yn gwneud yn siŵr bod y sector ysgolion uwchradd a Gyrfa Cymru yn eu hyrwyddo nhw'n frwd, oherwydd efallai bydd athrawon a rhieni yn nerfus fod eu plentyn yn mynd i'r brifysgol oherwydd y gost, ond os ydynt yn gwybod bod llwybr gradd-brentisiaeth, efallai y byddant yn annog y llwybr hwnnw.' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

---

<sup>35</sup> Dadansoddiad Wavehill o ddatganiadau monitro sefydliadau AU i CCAUC.

## **Pennu'r galw o du'r cyflogwyr**

- 5.15 Mae strwythur ariannu'r Rhaglenni Gradd-brentisiaethau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau AU wneud cais am gyllid bob blwyddyn gan gytuno ar ddisgwyliad blynyddol o ran nifer y prentisiaid y byddant yn eu recriwtio. Penderfynodd y mwyafrif o sefydliadau AU ar faint fyddai'r galw tebygol gan gyflogwyr am y rhaglen trwy gyfathrebu'n uniongyrchol â chyflogwyr. Yn aml, fodd bynnag, adroddodd sefydliadau AU ei bod yn anodd cael darlun cywir o'r galw oherwydd materion yn ymwneud â'r amserlenni ar gyfer cytuno ar gyllid i'r rhaglen, yn ogystal â'r amseru yr oeddent yn estyn allan i gyflogwyr. Soniodd staff rheoli a chyflenwi am broblemau o ran cael cyflogwyr i ymrwymo niferoedd heb fod sicrwydd ynghylch cyllid.

'Un o'r heriau o wneud hynny yw y gallwch siarad â chyflogwyr a chael rhif damcaniaethol, ond nid yw hynny'n troi yn union niferoedd sy'n cofrestru. [...] dydych chi ddim yn gallu addo'r cyllid wrth siarad â chyflogwyr. Mi gafodd y cyllid ei ddyfarnu i ni eleni [ar] 28/29 Gorffennaf. Pan fyddwch chi'n siarad â'r cyflogwyr mae angen rhywbeth pendant arnoch chi [...] allwn ni ddim ymrwymo iddyn nhw, oherwydd does gyda ni mo'r cyllid. "Ydych chi eisiau dod ar brentisiaeth?" "Oes." "Gwych, ond does gen i ddim cyllid eto." Felly does dim rhaid i unrhyw un ymrwymo i unrhyw beth. Mewn un achos [er enghraifft] cawson ni wybod y byddai cyflogwr yn darparu wyth prentis ond wedyn yn y diwedd dim ond tri gawson ni.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

## **Llwybrau i'r rhaglen**

- 5.16 Gall prentisiaid gofrestru ar radd-brentisiaeth fel cyflogai sydd newydd ei recriwtio. Gellid hysbysebu'r radd-brentisiaeth fel rhan o'r swydd honno gan y cyflogwr wrth recriwtio ac ar adegau deallir bod sefydliadau AU wedi bod yn rhan o'r broses recriwtio ochr yn ochr â'r cyflogwr i'w helpu i benderfynu ar addasrwydd ymgeisydd ar gyfer y radd-brentisiaeth. Gall gradd-brentisiaid hefyd gofrestru fel rhywun sydd eisoes yn cael ei gyflogi gan y busnes/sefydliad. (Fel arfer bydd cytundeb rhyngddynt a'u cyflogwr y bydd cofrestru ar radd-brentisiaeth o fudd iddynt [a'u gyrfa] ac i'w cyflogwr.)
- 5.17 Ar hyn o bryd, cyflogaeth yw un o'r prif lwybrau dilyniant i radd-brentisiaid gyrraedd y rhaglen. Mae data o'r arolwg ar-lein i brentisiaid yn adlewyrchu canfyddiadau'r



dadansoddiad o'r rhaglen a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol a ddangosodd mai cyflogeion/gweithwyr presennol yw cyfran fwyaf y rhaglen. Dengys yr arolwg ar-lein fod mwyafrif y gradd-brentisiaid (88 y cant; 175/199) mewn cyflogaeth amser llawn yn union cyn iddynt ymuno â'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth (o'i gymharu â 36 y cant yn Lloegr). Yn ogystal, roedd tri y cant (5/199) wedi'u cyflogi'n rhan-amser. Roedd y rhan fwyaf o'r prentisiaid hyn wedi ymuno â'r rhaglen gyda'r un cyflogwr (88 y cant; 158/180). Dylid nodi y gallai rhai o'r prentisiaid hyn fod wedi symud ymlaen o brentisiaeth lefel is gyda'u cyflogwr; er enghraifft, dywedodd 20 y cant o brentisiaid (39/199) eu bod wedi dilyn prentisiaeth o'r blaen gyda'u cyflogwr presennol.

- 5.18 Yn ogystal, mae gradd-brentisiaid yn fwyaf tebygol o fod wedi clywed am y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn y gweithle. Yn wir, dywedodd ychydig dros hanner y prentisiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein eu bod wedi clywed am y Rhaglen drwy eu cyflogwr (52 y cant; 102/198). Roedd 16 y cant arall (13/198) o brentisiaid wedi dod i wybod am y rhaglen drwy gydweithiwr.
- 5.19 Mewn cyferbyniad, 11 y cant (21/198) o brentisiaid a ddywedodd eu bod wedi clywed am y rhaglen gan athro yn yr ysgol neu diwtor yn y coleg, sy'n awgrymu bod dilyniant o'r llwybrau hyn yn gyfyngedig ar hyn o bryd (er mai dyma'r ffordd y daeth bron i un o bob pump [19 y cant; 14/74] o'r rheiny yn y fframwaith peirianeg i wybod am y rhaglen). Ar adeg yr arolwg, roedd wyth y cant (15/198) o radd-brentisiaid wedi clywed am y rhaglen ar wefan i fyfyrwyr (e.e. gwefan prifysgol neu goleg).
- 5.20 Dim ond saith y cant (13/199) o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a ddywedodd eu bod mewn addysg amser llawn (yn yr ysgol, coleg neu brifysgol) cyn dechrau'r rhaglen, a dim ond dau y cant (4/199) o'r prentisiaid ddywedodd nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant cyn dechrau ar eu gradd-brentisiaeth. Datganodd 11 y cant (22/199) arall eu bod wedi newid cyflogwr er mwyn iddynt fedru ymuno â'r rhaglen. Gyda'i gilydd, mae'n debygol y bydd y grwpiau hyn (sy'n cyfrif am bron i 20 y cant o'r rhai a holwyd) wedi cofrestru ar radd-brentisiaeth fel rhan o broses recriwtio gyda'r cyflogwr y maent am wneud gradd-brentisiaeth gydag ef.
- 5.21 Disgrifiodd staff cyflenwi eu huchelgais i ehangu llwybrau dilyniant ymhellach, gyda phwyslais ar rôl bosibl ysgolion ac addysgwyr wrth godi ymwybyddiaeth ac annog

dysgwyr i weld gradd-brentisiaethau yn ddewis amgen dilys nag astudio ar gyfer gradd draddodiadol.

'Byddwn wrth fy modd pe bai rhywun sy'n 16 oed yn gweld hwn fel llwybr i fynd i faes TG, a'u bod yn gwneud rhywbeth galwedigaethol yn hytrach na Lefel-A ac yna'n symud ymlaen i radd-brentisiaeth. Mae angen i ni fod yn llawer mwy hyblyg ynghylch y cynnig hwn a phryd y gall pobl gymryd rhan er mwyn annog mwy o lwybrau i'r yrfa a'r busnes. Gellid hefyd ystyried pobl sydd eisiau "newid gyrfa" a'r rheiny sydd am ddychwelyd i'r diwydiant.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

### **Llwybrau dysgwyr**

- 5.22 Mewn llawer o sefydliadau, roedd myfyrwyr â dysgu blaenorol yn gallu ymuno â'r rhaglen Gradd-brentisiaethau ym Mlwyddyn 2 neu 3. Yn wir, fel yr amlinellir yn adran 3, yn 2020/21, ymunodd 65 y cant o'r prentisiaid â'r radd-brentisiaeth ar Lefel 5 neu 6. Ymhellach, dywedodd tua un o bob tri o'r gradd-brentisiaid (68/199) eu bod wedi gwneud prentisiaeth arall cyn hynny, gyda 55 y cant (41/74) o radd-brentisiaid yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch wedi gwneud hynny, a hanner (51 y cant; 21/41) o'r rhain wedi gwneud hynny gyda'r un cyflogwr. Awgryma hyn fod y llwybrau dysgu yn ennill eu plwy yn y fframwaith hwn yn enwedig.
- 5.23 Cytunai'r rhan fwyaf o sefydliadau AU (5/9) â hyn, gan adrodd bod ganddynt lwybrau dilyniant da o raglenni addysgol eraill. Er enghraifft, dywedodd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fod llawer o fyfyrwyr yn dod i'r rhaglen o brentisiaethau eraill, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cwblhau HNC ar Lefel 5. Serch hynny, dywedodd sawl sefydliad AU y byddai cryfhau'r llwybr dysgu i radd-brentisiaethau yn faes y gallai'r rhaglen wella arno. Er enghraifft, dywedodd un SAU ei fod wedi ei chael yn anodd ar y dechrau wrth fapio'r gradd-brentisiaethau (digidol) i'r cynnig prentisiaethau uwch ac is yng Nghymru ac uno'r llwybrau gyda'i gilydd.

### **Cyflogeion newydd a rhai sy'n cael eu cyflogi eisoes**


- 5.24 Adroddodd staff rheoli a chyflenwi mewn sefydliadau AU fod y rhaglen yn cael ei defnyddio'n bennaf fel ffordd o uwchsgilio gweithwyr presennol, gyda llai o ffocws ymhlith cyflogwyr ar recriwtio staff ychwanegol trwy radd-brentisiaethau. Soniwyd am hyn hefyd gan nifer o randdeiliaid ehangach, fel y dangosir yn y dyfyniadau isod.

'Mae'r rhan fwyaf yn staff presennol; mae'n edrych fel petai cyflogwyr yn cymryd fod hwn yma i uwchsgilio eu lefel isaf, yn hytrach na dod â gradd-brentisiaid newydd i mewn. Maen nhw i gyd fel petaen nhw'n canolbwyntio ar eu cronfa bresennol o bobl, yn hytrach na dod â staff newydd i mewn.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

'Mae'r model yn ymwneud llawer mwy â chwmnïau sydd eisoes â phobl a'r rheiny yn barod i fynd. Mae angen torri'r cylch o ddefnyddio gweithwyr presennol, gan fod angen i ni chwilio am gronfa dalent briodol sy'n cael ei chydabod fel rhan o sbectrwm datblygiad gyrfa parhaus.' **(Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 5.25 Câl'r persbectif hwn ei adlewyrchu mewn adborth gan radd-brentisiaid a oedd, ar gyfartaledd (cymedrig), wedi bod gyda'u cyflogwr presennol ers dros bum mlynedd ar adeg cofrestru ar radd-brentisiaeth (a bron i chwe blynedd ar gyfartaledd ymysg y rheiny yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch). Disgrifiodd mwy na dau draean (69 y cant; 122/177) eu rôl i fod yn broffesiynol neu broffesiynol gysylltiedig (gan godi i 85 y cant [95/111] ymysg y rheiny yn y fframwaith digidol); yn y cyfamser, roedd y cyflogau cyfartalog (canolrifol) ymhlith gradd-brentisiaid yr arolwg ar draws y ddau fframwaith o fewn y band cyflog o £30,001–£40,000 (Ffigur 5.1 isod). Mae cyflogau'r rheiny yn y fframwaith digidol fel arfer fel rheol yn uwch ar gyfartaledd na'r rheiny yn y fframwaith peirianeg.

**Ffigur 5.1: Cyflogau CALI cyfartalog ymhlith gradd-brentisiaid cyflogedig ar adeg cofrestru**




Sylwer: n=60 (peirianeg) a n=111 (digidol)  
Ffynhonnell: Arolwg ar-lein i'r gradd-brentisiaid

## Rhesymau dros ymuno â'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau

### Rhesymau ymysg gradd-brentisiaid

- 5.26 Ceisiodd yr arolwg o radd-brentisiaid ddeall y cymhellion arferol dros ddilyn gradd-brentisiaeth. Pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg nodi pa mor bwysig yr oedd rhestr o ddatganiadau, yr ateb amlaf a roddai ymatebwyr yr arolwg (83 y cant; 165/199) oedd bod y cyfle i wella eu rhagolygon gyrfya yn ffactor pwysig iawn wrth lunio eu penderfyniad i ymuno â'r cwrs. Cymhelliant cyffredin gan radd-brentisiaid hefyd oedd y cyfle i ennill cymhwyster trwy brifysgol gydnabyddedig (dywedodd 80 y cant [159/198] fod hyn yn bwysig iawn). Roedd lefel y pwysigrwydd a roddwyd i bob un o'r rhain yn gyson ar y cyfan gan radd-brentisiaid yn y ddau fframwaith.

**Ffigur 5.2: Pa mor bwysig oedd pob un o'r canlynol wrth i chi benderfynu gwneud gradd-brentisiaeth?**



Sylwer: n=199

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein i'r gradd-brentisiaid

5.27 Ystyriwyd hefyd nad oedd gorfod talu ffioedd dysgu yn bwysig wrth ddylanwadu ar benderfyniadau i wneud y cwrs. Adroddwyd bod hyn yn rhywbeth pwysig iawn gan 69 y cant (135/195) o'r gradd-brentisiaid. Dim ond saith y cant (13/195) o'r gradd-brentisiaid a ddywedodd nad oedd hyn yn ffactor bwysig wrth wneud eu penderfyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.

'Fyddwn i ddim wedi cael y cyfle i ddychwelyd i addysg uwch, oherwydd ymrwymadau gwaith a theulu. Fyddwn i ddim wedi gallu fforddio rhoi'r gorau i weithio er mwyn cael mynd yn ôl i addysg, felly roedd hwn yn gyfle na allwn ei golli. Fe wnes i ei fwynhau'n fawr iawn, hyd yn oed y rhannau sydd ddim yn berthnasol i lwybr fy ngyrfa, fel rheoli prosiectau, gan ei fod wedi rhoi llwybr i mi na faswn i efallai erioed wedi meddwl amdano. Alla i ddim argymhell y cwrs hwn ddigon.' **(Gradd-brentis presennol, arolwg ar-lein)**

5.28 Mae'n ymddangos bod cyflogwyr hefyd wedi bod â rhywfaint o rôl wrth ddylanwadu ar radd-brentisiaid i ymuno â'r cwrs. Er enghraifft, fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adran hon, roedd dros hanner (52 y cant; 102/198) wedi clywed am radd-brentisiaeth am y tro cyntaf gan eu cyflogwr, tra bod 16 y cant (32/199) o radd-

brentisiaid wedi dweud bod eu cyflogwr wedi eu hargyhoeddi y byddai'r rhaglen yn addas iawn iddynt pan oeddent yn penderfynu a ddylid dilyn y cwrs ai peidio.

### **Cymhellion y cyflogwyr**

- 5.29 Er mwyn deall yn well y prif bethau oedd yn dylanwadu ar fwrw ati i ddechrau gradd-brentisiaeth, gofynnwyd i gyflogwyr ai penderfyniad y cyflogwr, penderfyniad y cyflogai neu benderfyniad ar y cyd oedd y dewis i gymryd rhan mewn gradd-brentisiaeth. Yn fwyaf cyffredin (45 y cant; 33/73), cafodd ei ddisgrifio fel penderfyniad ar y cyd. Dywedodd 40 y cant arall mai penderfyniad y cyflogai ydoedd, a 5 y cant yn dweud mai nhw, fel y cyflogwr, oedd wedi gwneud y penderfyniad ar ran eu cyflogai.
- 5.30 Câi cyflogwyr eu hysgogi amlaf i roi eu staff drwy radd-brentisiaethau er mwyn llenwi anghenion sgiliau penodol (44 y cant; 32/73), darparu cyfleoedd ar gyfer cynnydd a datblygiad staff (32 y cant; 23/73), a chefnogi cynllunio olyniaeth trwy hybu tyfu talent yn y gweithle (21 y cant; 15/73).<sup>36</sup>

'Rwyf bob amser yn chwilio i gael gweithlu sydd mor fedrus â phosibl. Rwy'n credu mewn diwylliant o ddysgu yn seiliedig ar waith. Mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr yn ymuno â ni yn 18 [mlwydd oed] a theimlwn mai prentisiaethau a gradd-brentisiaethau yw'r ffordd orau o gael staff â'r sgiliau cywir.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

- 5.31 Nodwyd yn aml fod datblygu sgiliau digidol yn aml yn gymhelliad mawr dros gymryd rhan yn y llwybr digidol, gan fod twf cyflym technoleg yn golygu bod rhai gweithluoedd yn gweld bylchau sgiliau yn y maes hwn. Unwaith eto, roedd y cyllid yn rhan ddeniadol o'r cynnig, ac 16 y cant (12/73) wedi adrodd mai'r cyllid oedd un o'r pethau a'u hysgogodd i ystyried gradd-brentisiaeth. Dywedodd nifer fach o gyflogwyr na fyddent wedi gallu cefnogi unigolion i ddilyn gradd-brentisiaeth heb y cynnig cyllid.

'I fod yn onest, roedd wedi'i ariannu'n llawn ac allwn i ddim wedi rhoi'r cwrs gradd i fy ngweithiwr hebddo. Yn ail, rydyn ni'n rhedeg gwefan e-fasnach ac mae gweithio gyda chwmnïau allanol wedi bod yn anodd iawn, felly gwelodd fy ngweithiwr y radd datblygu meddalwedd ac mae


---

<sup>36</sup> Dylid nodi bod manylu ar y cymhellion hyn wedi digwydd wrth ymateb i gwestiwn penagored; o'r herwydd, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli themâu cyffredin yn yr ymatebion.

yn ei ail flwyddyn. Wedyn bydd yn gallu ysgrifennu a rhedeg ein gwefan, a bydd yn gwneud popeth yn llawer haws pan fydd yn fewnol.’  
**(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

5.32 Er y dywedodd tua thraean o gyflogwyr (33 y cant; 26/79) y byddent wedi cefnogi eu cyflogai i astudio ar gyfer gradd draddodiadol yn y brifysgol oni bai am y gradd-brentisiaethau, ni fyddai mwyafrif y cyflogwyr wedi gwneud hynny. Heb radd-brentisiaethau, dywedodd 24 y cant o gyflogwyr (19/79) y byddent yn hytrach wedi cefnogi eu gweithwyr i gael mynediad at hyfforddiant a datblygiad mewnol, a dywedodd 11 y cant arall (9/79) na fyddent wedi gwneud unrhyw gymwysterau na hyfforddiant.

**Ffigur 5.3: Pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich sefyllfa pe na bai eich cyflogai/gweithwyr wedi cael y cyfle i astudio am radd-brentisiaeth?**



Sylwer: n=48 (digidol) a n=28 (peirianeg a gweithgynhyrchu uwch)  
 Ffynhonnell: arolwg Wavehill dros y ffôn â chyflogwyr

**Rhwysterau sy'n cyfyngu ar gymryd rhan**

5.33 Dywedodd staff cyflenwi bod angen mwy o sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaethau i gefnogi eu huchelgeisiau i recriwtio ac ymgysylltu â rhagor o gyflogwyr. Soniodd staff rheoli a chyflenwi o dri sefydliad AU am broblemau yn gysylltiedig â'r dyb fod y rhaglen yn "beilot". Mewn un sefydliad adroddodd aelod o staff fod hyn wedi arwain at lai o wthio strategol y tu ôl i'r rhaglen.

'Un o'r problemau sydd gennym yw pa mor hir y mae'r rhaglen yn mynd i bara. Roeddem yn deall ei bod yn beilot ac eto mae hi'n dal i fod yn y bedwaredd flwyddyn, ond nid yw'r sôn am fod yn beilot yn ddefnyddiol, yn enwedig nawr oherwydd bod hyd yn oed fwy o ansicrwydd i'r tymor hir. Mae cyflogwyr yn cynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf ac yn meddwl am 2022 ac rydyn ni angen y sicrwydd hwnnw nawr o ran beth sy'n digwydd gyda'r rhaglen. Mae'n fwy o rwystr nawr nag yr oedd dair blynedd yn ôl.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 5.34 Er bod y rhaglen yn cael ei hystyried i fod yn rhaglen beilot, dywedodd staff fod hyn yn creu risg o atal cyflogwyr rhag ymgysylltu oherwydd gallent fod yn poeni am gynaliadwyedd hirdymor y rhaglen.
- 5.35 Yn ogystal, dywedodd sawl rhanddeiliad y gallai'r cylch cynllunio presennol fod yn rhwystr i ymgysylltu â chyflogwyr oherwydd bod cyflogwyr yn tueddu i gynllunio dros gyfnodau hirach nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd ag amserlen Rhaglen Graddbrentisiaethau. Yn gysylltiedig â hyn roedd pryderon bod y cylch cynllunio yn cael ei lunio o amgylch y calendr academaidd, ac efallai nad yw cyflogwyr wedi arfer â chynllunio ar sail hyn.

'Yr hyn sy'n digwydd yw bod y flwyddyn galendr addysg wedi'i gosod ar gyfer pan fyddwch yn lansio prentisiaeth [...] Ond dyw cyflogwyr ddim yn gwerthfawrogi'r calendr addysg. Iddyn nhw mae 'na 12 mis yn y flwyddyn. Nid yw amserlen recriwtio o hysbysebu ym mis Mawrth a dechrau ym mis Medi yn gyfarwydd i gyflogwyr mewn gwirionedd [...]. Mae'r ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu yn adlewyrchu'r flwyddyn galendr addysgol. Dylai'r cyfathrebu â chyflogwyr ddigwydd trwy gydol y flwyddyn, oherwydd efallai eu bod yn gwneud hyn am y tro cyntaf ac ni fyddant yn sylweddoli hyn.' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 5.36 I BBaChau, rhwystr pellach i gymryd rhan yw'r amser i ffwrdd o'r gweithle sydd ei angen i alluogi cyflogeion i ddilyn prentisiaethau. Soniwyd am yr her hon gan rhanddeiliaid ehangach a staff rheoli a chyflenwi.

'O'r rhai sydd wedi'u lansio hyd yma, maent wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yr unig her rydyn ni wedi dod ar ei thraws yw pan fo graddbrentisiaethau mewn busnesau bach neu ganolig eu maint, ac



[oherwydd] faint o amser sydd ei angen i ffwrdd o'r gweithle, mae'n cael cryn ddylanwad. Mewn sefydliad mawr mae'n fwy strwythuredig ac maen nhw'n cynllunio ar ei gyfer. Yr amgylchedd y mae'r dysgwr ynddo.' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

### **Rhwystrau ymysg gradd-brentisiaid**

- 5.37 Soniodd gradd-brentisiaid am gyfres o bryderon yr oedd ganddynt cyn cofrestru ar y rhaglen. Roedd dau draean (67 y cant; 133/199) y gradd-brentisiaid wedi sôn am bryderon ynghylch cael cydbwysedd rhwng gwaith, bywyd gartref, ac astudio am radd ar yr un pryd (gyda'r gyfran yn nodi'r pryderon hyn yn codi i 72 y cant (90/125) ymhlith y rheiny yn y fframwaith digidol).

'[Roedd pryderon] na fyddai fy nghyflogwr yn deall faint o waith ychwanegol y mae hyn yn ei olygu [ac] ofn lladd fy hun yn gweithio.'

#### **(Gradd-brentis presennol, arolwg ar-lein)**

'Roedd y cydbwysedd cartref–gwaith–astudio yn bryder mawr. Sut byddwn i'n gallu gweithio a gwneud y brentisiaeth a bod â bywyd gyda fy mhlant gartref?' **(Gradd-brentis presennol, cyfweiliad dros y ffôn)**

- 5.38 Roedd y pryder hwn wedi codi ym mhrofiadau llawer o fyfyrwyr wrth iddynt astudio am radd-brentisiaeth. Wrth ymateb i'r arolwg ar-lein, dywedodd 67 y cant (131/199) o radd-brentisiaid eu bod wedi ei chael yn anodd rheoli'r llwyth gwaith rhwng eu gradd-brentisiaeth a galwadau eu gwaith cyflogedig. Ymhlith y rheiny yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu, cynyddai'r gyfran a oedd yn wynebu'r her hon i 74 y cant (54/73).

- 5.39 Soniodd tua un o bob tri (34 y cant; 67/199) o'r gradd-brentisiaid am eu pryderon fod y rhaglen yn un newydd cyn dechrau'r cwrs ac nad oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

'Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn teimlo bod hyn yn eithaf newydd i Gymru ac efallai eu bod nhw'n arbrofi arnon ni ac efallai fyddwn i ddim yn cael y manteision llawn. Ro'n i'n poeni am y rhaniad rhwng gwaith a'r brifysgol a sut y byddai'n gweithio. Roeddwn i'n meddwl efallai na fyddai'n cael ei gydnabod fel gradd briodol. Dydw i ddim yn mynd i'r brifysgol ei hun lawer a dydi Mam dal ddim yn deall mai gradd ydi hi.' **(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**

5.40 Yn ogystal, dywedodd 13 y cant o'r gradd-brentisiaid (26/199) eu bod yn pryderu na fyddai pobl eraill yn ystyried y radd-brentisiaeth yn radd "go iawn". Gallai hyn awgrymu bod angen mwy o gymorth i helpu i ennyn parch cydradd rhwng gradd-brentisiaethau galwedigaethol a rhaglenni gradd traddodiadol. Cododd nifer fach o staff rheoli a chyflenwi a rhanddeiliaid ehangach bryderon hefyd ynghylch sut y gellir creu parch cydradd.

'Rwy'n meddwl bod yna broblem o hyd ynghylch argraff pobl am y term "prentisiaeth". Mae rhai myfyrwyr yn mynd i lawr y llwybr gradd oherwydd pwysau. Caiff prentisiaethau eu gweld fel rhywbeth gwahanol ac maen nhw'n dal i weld y ddau fel rhywbeth ar wahân.'

**(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

5.41 Pryder arall a godwyd gan tua 15 y cant (14/68) o'r gradd-brentisiaid a gymerodd ran yn y cyfweiliadau dros y ffôn oedd y pryder a fyddai ganddynt y gallu academaidd i lwyddo fel gradd-brentis. Roedd rhai gradd-brentisiaid yn dychwelyd i addysg ar ôl blynyddoedd lawer, ac roedd dysgwyr heb unrhyw brofiad blaenorol o addysg uwch yn aml yn mynegi amheuon a fyddai'r cwrs yn rhy heriol.

'Ro'n i'n poeni am y safon – ro'n i wedi bod allan o addysg ers 15 mlynedd ac roedd maths yn bryder. Ro'n i'n gwneud HNC cyn hynny, ac mae hwnnw ar lefel weddol uchel, ond gyda gradd byddai'n mynd ymhellach eto. Hefyd, y cydbwysedd rhwng gwaith, bywyd a'r cartref [yn bryder]. Mae gen i ferch fach un oed.'

**(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**

'Fyddwn i'n gallu ei wneud o? Oeddw'n i'n ddigon clyfar? Ac a fyddai gen i ddigon o amser? Doedd gen i ddim profiad o gwbl o addysg uwch a wir ddim yn gwybod sut beth oedd trefn gradd dros y blynyddoedd ac ar y lefelau gwahanol. Ro'n i'n meddwl y byddai fel ysgol.'

**(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**

### **Y broses cofrestru**

5.42 Roedd y broses cofrestru yn wahanol ym mhob sefydliad AU, gyda gwahanol ddulliau'n cael eu defnyddio o ran gwneud cais, ymgysylltu â chyflogwyr, a chyfrifoldebau am dderbyn gradd-brentisiaid.

- 5.43 Dywedodd un sefydliad AU fod eu prosesau wedi bod yn fwy anffurfiol neu ad hoc, gyda chyflogwyr yn cael eu gwahodd i gael sgysiau anffurfiol gyda'r sefydliad. Fodd bynnag, mae hwn yn faes yr ysgogwyd y sefydliad dan sylw i gyflwyno prosesau ffurfiol yn dilyn adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac mae wedi gwneud hynny ers hynny.
- 5.44 Mewn sefydliadau eraill roedd tystiolaeth o ddull mwy cydgysylltiedig yn cynnwys y prentis, y cyflogwr a'r sefydliad AU. Er enghraifft, yn y llwybr digidol ym Mhrifysgol Abertawe, lle mae'r cofrestru wedi'i alinio â rôl newydd, mae cyflogwyr yn cynnal proses gychwynnol yn didoli ymgeiswyr a'r brifysgol wedyn yn cyfweld ag ymgeiswyr ac yn cynnal profion gallu ac yn rhoi adborth i'r cyflogwr ynghylch pwy y maent yn ei feddwl sydd â'r potensial i lwyddo yn y cwrs.
- 5.45 Yn PCYDDS, mae prentisiaid yn cofrestru eu diddordeb trwy wefan y brifysgol, ac mae staff wedyn yn cyfarfod â'r cyflogwr a'r prentis i esbonio'r rhaglen a chefnogi eu cofrestriad.
- 5.46 Y broses cofrestru oedd un o feysydd y rhaglen lle ymddengys bod gwahaniaethau ar draws y rhaglen. Gall yr amrywiad hwn yn rhannol fod o dan ddylanwad gwahaniaethau yng ngharfannau'r gradd-brentisiaid a gaiff eu recriwtio. Mewn rhai sefydliadau AU, er enghraifft, roedd y garfan yn cynnwys gweithwyr o un cyflogwr yn bennaf, a allai fod yn addas ar gyfer mecanweithiau recriwtio mwy anffurfiol. Yn yr un modd ym Mhrifysgol De Cymru, dywedodd staff fod llawer o ddysgwyr wedi cyrraedd y rhaglen ar ôl Blwyddyn 1 (ar Lefel 5 neu 6) gyda thystysgrifau o ddysgu blaenorol, a gallai hyn fod wedi gofyn am lwybr ymuno gwahanol i lwybr y dysgwyr hynny sy'n ymuno â'r rhaglen ym Mlwyddyn 1 (ar Lefel 4).
- 5.47 Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogwyr (79 y cant; 62/78) fod y broses ar gyfer cofrestru "yn syml iawn", gyda 14 y cant (11/78) arall yn dweud fod y broses yn "weddol syml". Dim ond un y cant (1/78) a ddywedodd fod y broses "braidd yn gymhleth".
- 5.48 Mewn nifer fach o gyfsweliadau, dywedodd staff cyflenwi y gallai fod rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng prosesau sefydliadau AU a'u partneriaid AB. Er enghraifft, dywedodd staff cyflenwi o un sefydliad AU a'u partneriaid cysylltiedig y gallai fod elfen o ddyblygu lle roedd yn rhaid i ddysgwyr fod mewn cysylltiad â'r AB ac yna cofrestru gyda'r sefydliad AU. Roedd heriau ar y dechrau ynghylch diffyg systemau oedd yn cael eu rhannu, ac yna anawsterau ynghylch rhannu data wedi atal hyn

rhag bod yn broses lyfn ac wedi gadael bylchau yng ngwybodaeth colegau AB o ran pwy oedd wedi cofrestru. Fodd bynnag, roedd y broses wedi gwella yn sgil adolygiad yr ASA, a dywedodd staff eu bod wrthi'n creu proses gyfun.

- 5.49 Roedd gradd-brentisiaid yn llai tebygol na chyflogwyr o adrodd bod y cofrestru “yn syml iawn”. Er bod 51 y cant (101/199) o'r gradd-brentisiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein wedi dweud bod y prosesau cofrestru “yn syml iawn”, dywedodd 42 y cant (84/199) eu bod yn “weddol syml” a saith y cant (14/199) wedi dweud eu bod “braidd yn gymhleth”. Pan ddywedai gradd-brentisiaid fod y prosesau “braidd yn gymhleth”, byddent fel arfer yn codi pryderon ynghylch problemau cyfathrebu, megis cael cais am yr un wybodaeth gan sawl person, diffyg cyfathrebu, neu dderbyn gwybodaeth anghyson o wahanol ffynonellau.

### **Anghenion sgiliau hanfodol a'r asesu arnynt**

- 5.50 Gofynnwyd i staff rheoli a chyflenwi pa ddulliau a ddefnyddir i asesu sgiliau hanfodol prentisiaid. Os oedd colegau AB yn arwain y broses o recriwtio gradd-brentisiaid i'r rhaglen, byddent fel arfer yn arwain ar asesu anghenion sgiliau hanfodol. Dywedodd tri chwrs gradd-brentisiaeth dan arweiniad sefydliad AU eu bod yn defnyddio WEST (Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru) i asesu sgiliau allweddol, yn enwedig gyda'r gradd-brentisiaid hynny sy'n cael eu recriwtio ar Lefel 4. Ymhlith y rhain, dywedodd un coleg AB (mewn cydweithrediad â'r sefydliad AU) eu bod yn defnyddio asesiadau WEST trwy gydol y flwyddyn i asesu sgiliau yn barhaus. Ochr yn ochr â hyn, dywedodd un sefydliad AU ei fod yn gallu ystyried dysgu blaenorol, gan felly hepgor yr angen i brentisiaid gymryd rhan yn WEST os oes ganddynt ddysgu tystysgrifedig.
- 5.51 Ymddengys bod gan un sefydliad AU ddull ychydig yn llai ffurfiol lle defnyddid rôl y tiwtor ymarfer fel dull ar gyfer asesu sgiliau craidd yn rheolaidd, a phan nodid anghenion o ran sgiliau, byddai darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi'r dysgwyr. Dywedodd y sefydliad AU fod yn ganddynt unedau rhagarweiniol i ategu hyn a'r rheiny'n helpu gradd-brentisiaid i gyrraedd lefel sgiliau sylfaenol mewn perthynas â chymwyseddau craidd fel ysgrifennu mewn Saesneg academiaidd a rhifedd. Roedd gan goleg AB ddull tebyg gan gynnig dau fodiwl am ddim i'w paratoi, naill ai ar ddechrau'r radd-brentisiaeth neu ychydig cyn hynny, ar hyder mewn rhifedd ac ar hyder mewn dysgu. Cynlluniwyd y cyrsiau i'w cefnogi ag anghenion sgiliau hanfodol, yn ogystal â'u paratoi at yr amgylchedd dysgu rhithwir. Soniodd

sefydliad AU arall eu bod yn tueddu i roi pwyslais ar yr asesu sgiliau hanfodol ar yr unigolion hynny sy'n cofrestru ar y radd-brentisiaeth ar Lefel 4.

- 5.52 Pan fo'r sefydliad AU yn cydweithio â'r cyflogwr wrth recriwtio cyflogeion newydd i radd-brentisiaeth, asesir unrhyw anghenion sgiliau hanfodol fel rhan o'r broses recriwtio honno drwy brawf doniau.
- 5.53 Mewn sefyllfaoedd pan nodwyd bod anghenion o ran sgiliau (na chawsant eu nodi ryw ffordd wrth gofrestru), disgrifiodd un sefydliad AU sut maent yn cydweithio ag un o'i bartneriaid AB i ddarparu'r cymorth sgiliau hanfodol sydd ei angen gan gydnabod sgiliau a phrofiad y coleg AB i fedru cynnig cymorth â'r elfen hon.

## 6. Prif Ganfyddiadau – Modelau Cyflenwi a Buddion Gradd-brentisiaethau

### Crynodeb o'r Adran

- Mae'r elfen a addysgir o'r radd-brentisiaeth fel arfer yn cael ei chynnal un diwrnod yr wythnos. Mae rhai cyrsiau wedi cael eu hystyngtu neu eu haddasu er mwyn ymateb i anghenion dysgwyr, gyda mwyafrif y dysgwyr yn disgrifio'r heriau o geisio cael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gwahanol.
- Ceir sawl dull gwahanol gan gyflogwyr i reoli'r amser sydd ei angen ar gyfer yr elfen ddysgu mewn gradd-brentisiaeth – mae rhai prentisiaid yn sôn bod yn rhaid iddynt wneud wythnos waith llawn amser wedi'i chywasgu i bedwar diwrnod, tra bod eraill yn cael eu rhyddhau am ddiwrnod.
- Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi cryfhau'r bartneriaeth rhwng AB ac AU, er mai prin yw'r enghreifftiau o bartneriaethau newydd yn cael eu ffurfio mewn ymateb i'r rhaglen.
- Roedd pandemig COVID-19 wedi ysgogi dulliau a phrosesau newydd, a hynny wedi arwain at fanteision (mwy o hyblygrwydd, mwy o effeithlonrwydd) a heriau (mwy o ynysu ac yn anoddach gwahanu bywyd gwaith a chartref).
- Cyfyngiadau allweddol i ehangu cyfranogiad mewn gradd-brentisiaethau yw'r ffaith fod cynifer o brentisiaid ar y rhaglen eisoes yn gyflogedig (heb bosibilrwydd wedyn o ddylanwadu ar y rhai sy'n cofrestru ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau) a bod mwy o ddynion yn gyffredinol mewn pynciau STEM eisoes wedi gwreiddio o oedran cynharach.
- Mae'n bosibl fod cyfle i gael y gradd-brentisiaethau i gyd-fynd yn well â swyddi, gyda 67 y cant o brentisiaid yn disgrifio rhywfaint o aliniad neu ddim aliniad o gwbl â'u swydd; fodd bynnag, nid yw graddau'r mater hwn yn glir, gan fod 78 y cant o gyflogwyr wedi nodi eu bod yn cyd-fynd yn fawr â'u gwasanaethau/gweithgareddau hwy. Mae angen mwy o ymdrech hefyd i sicrhau bod pob cyflogwr yn teimlo bod ganddynt ddigon o gyfleoedd i gyfrannu at y rhaglen.
- Dywedodd cyfran fawr o'r gradd-brentisiaid (46 y cant; 89/195) bod ganddynt ddyheadau cliriach ar gyfer eu gyrfa, a dywedodd 37 y cant (73/195) eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn eu swydd.

- O ran canlyniadau, adroddodd 45 y cant (88/195) o'r gradd-brentisiaid eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu rôl ac yn ei gwneud yn well. Dywedodd 28 y cant o'r gradd-brentisiaid eu bod wedi cael dyrchafiad (55/195) a dywedodd 29 y cant (56/195) fod eu cyfrifoldebau wedi cynyddu.
- Mae gradd-brentisiaethau yn chwarae rhan bwysig wrth annog pobl i uwchsgilio, gyda 36 y cant o brentisiaid yn datgan na fyddent wedi dewis cwrs arall yn absenoldeb gradd-brentisiaeth. Mae'r ffigwr hwn yn codi i 41 y cant ymhlith gradd-brentisiaid yn y fframwaith digidol.
- Dywedodd cyfran uchel o gyflogwyr (66 y cant; 50/76) fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cynyddu cyfraddau cynhyrchiant ymysg gradd-brentisiaid.

### **Cyflwyniad**

- 6.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r modelau amrywiol a ddefnyddia'r sefydliadau i gynnal y gradd-brentisiaethau, ac yn ystyried y farn am fanteision ac effeithiau sy'n codi i'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen.

### **Staffio**

- 6.2 Mae sefydliadau AU wedi cynnal gradd-brentisiaethau yn bennaf drwy'r staff sydd ganddynt eisoes. Mewn o leiaf dau achos, dywedwyd bod hyn oherwydd bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â sgiliau presennol y staff.

'Na, [nid oedd angen i ni] ymestyn capasiti. Roedd y rhan roedden ni'n mynd i'w chynnal yn mynd i redeg ochr yn ochr â rhaglen a oedd yn bodoli eisoes, [gyda'r] cyfle i gynyddu nifer y myfyrwyr.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.3 Fodd bynnag, roedd tri sefydliad AU wedi cyflogi staff addysgu ychwanegol i gefnogi'r gwaith, a hyn yn cynnwys darlithwyr a thiworiaid. Roedd y rheiny ddefnyddiai staff presennol wedi sôn am yr angen posibl i recriwtio personél ychwanegol pe bai nifer y prentisiaid yn cynyddu.
- 6.4 Dywedodd tri sefydliad AU arall eu bod wedi sefydlu rolau ychwanegol i ddiwallu anghenion y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys staff â chyfrifoldebau am gysylltu â chyflogwyr, gweinyddu'r rhaglen, neu gefnogi gradd-brentisiaid.

'Pobl sydd eisoes yn gweithio i ni yn bennaf, ond mae angen inni gael mwy o gapasiti pan fyddwn wedi cael eglurhad o'r cynlluniau. Rydyn ni

hefyd am gael rôl benodol ar gyfer hyn, sef pwynt cyswllt rhwng y sefydliadau.’ **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

‘Os bydd y Rhaglen Gradd[-Brentisiaeth] yn cael ei hehangu, bydd angen rhywfaint o gyfleuster canolog ar y brifysgol i oruchwylio hyn, gan fod fy nhîm yn ei wneud fel prosiect ar yr ochr, nid [fel] prif ffocws, a dylid ystyried ymgysylltu â chyflogwyr yn ffurfiol.’ **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.5 Pan oedd sefydliadau AU wedi sefydlu staff ychwanegol, caent eu hystyried yn rhan annatod o’r seilwaith.

‘Mae’n hanfodol cael y tîm hwnnw’n gwbl benodol ar gyfer myfyrwyr y radd-brentisiaeth. Heb hyn, fyddai’r darlithwyr ddim yn gallu ymdopi â gofynion y ddolen adborth [chwe wythnos]. Mae hyn yn gweithio’n dda iawn gyda’r tîm penodol.’ **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

### **Model cyflenwi**

- 6.6 Mae’r rhan fwyaf o gyrсияu gradd-brentisiaeth yn dechrau ym mis Medi neu fis Hydref, gan gyd-fynd â’r flwyddyn academiaidd draddodiadol. Mewn nifer fach o achosion (nifer sy’n cynyddu), fodd bynnag, mae sefydliadau AU hefyd yn cynnig ail adeg i dderbyn prentisiaid hanner ffordd drwy’r flwyddyn academiaidd. Er enghraifft, mae Prifysgol Bangor yn derbyn ym mis Ionawr, ac mae myfyrwyr yn y Brifysgol Agored yng Nghymru yn gallu dewis dyddiad cychwyn ym mis Hydref neu Chwefror.
- 6.7 Mae hyd y cyrsiau ychydig yn wahanol rhwng darparwyr. Mae canllawiau gan CCAUC yn nodi na all cyrsiau fod yn llai na thair blynedd a dim mwy na phum mlynedd. Mae rhai sefydliadau AU wedi pennu cyfnod o dair blynedd, tra bod eraill wedi rhoi cyfnodau cwblhau hirach gyda’u cwrs yn cymryd pedair neu bedair blynedd a hanner i’w gwblhau. Mewn sawl achos, mae cyrsiau wedi cael eu hystyried (drwy naill ai ymestyn tymhorau neu wneud y cwrs yn hirach) i gydnabod yr her o geisio cael cydbwysedd yn y llwyth gwaith sy’n gysylltiedig â’r cwrs.

### **Strwythur y cwrs**

- 6.8 Ledled y darparwyr, mae’r rhan fwyaf o sefydliadau AU wedi mabwysiadu model “rhyddhau am ddiwrnod” i gyflwyno elfen academiaidd y cwrs. Mae hyn fel arfer yn golygu bod prentisiaid yn mynychu’r sefydliad AU neu’r coleg AB i dderbyn yr elfen a addysgir o’u cwrs am ddiwrnod neu brynhawn yr wythnos, tra bod y diwrnodau



eraill yn cael eu treulio gyda'r cyflogwr. Mewn rhai dulliau, roedd y model hwn wedi codi yn sgil arferion gweithio traddodiadol cyflogwyr. Er enghraifft, roedd un cwrs wedi'i gyflwyno ar brynhawn dydd Gwener i gyd-fynd ag arferion gwaith y cyflogwr, pan gâi prynhawniau Gwener eu cadw'n glir fel arfer. Pan roddir prynhawn i astudio, mae hyn yn aml yn cynnwys nosweithiau hwyrach ar gyfer addysgu, gyda sesiynau wedi'u hamserlennu i redeg tan saith neu wyth o'r gloch yr hwyr.

- 6.9 Soniodd staff rheoli a chyflenwi hefyd am achosion lle mae addasiadau i'r rhyddhau am ddiwrnod wedi sicrhau nad yw pob prentis yn rhydd ar union yr un diwrnod. Gwnaed hyn gan gyflogwyr i gydnabod y gall heriau godi o ran lefelau staffio yn y gweithle pan fo sawl carfan o brentisiaid i gyd i ffwrdd o'r gweithle ar yr un diwrnod. Wrth i fwy o garfannau gael eu cofrestru ar y rhaglen, mae hwn yn faes y bu'n rhaid i sefydliadau AU fod yn ymatebol iddo.

'Cawsom sgwrs am hyn ym mis Gorffennaf gyda'r panel diwydiannol, ac mae [cyflogwyr] yn awyddus iawn cael darpariaeth brynhawn Gwener, ond maent yn dweud y gallent anfon rhagor o staff i'r cyrsiau petai'r lefelau gwahanol (4, 5 a 6) yn cael eu haddysgu ar wahanol ddyddiau.'

**(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.10 Ym Mhrifysgol De Cymru, addysgir tri o'i chyrsgiau peirianeg drwy'r prentisiaid yn cael diwrnod astudio, tra bod dau gwrs yn cynnwys dau ddiwrnod yn y brifysgol a thri diwrnod gyda'r cyflogwr bob wythnos. Ymhellach, mae gan rai sefydliadau AU gyrsgiau sydd â model "astudio mewn bloc" (sef astudio dros sawl diwrnod yn olynol). Er enghraifft, defnyddir hwn i gyflwyno rhai o'r llwybrau peirianeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ogystal ag ym Mhrifysgol Caerdydd.
- 6.11 Mewn cyfweliadau dros y ffôn, dywedodd 15 y cant (7/47) o'r gradd-brentisiaid yr hoffent weld yr unedau neu'r flwyddyn academiaidd yn cael eu hymestyn i fod yn hirach er mwyn rhoi mwy o amser iddynt gwblhau aseiniadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at ymestyn y cwrs dros yr haf, ymestyn unedau er mwyn i brentisiaid gael mwy o amser i gyflwyno asesiadau, neu ymestyn amserlenni'r cwrs yn gyffredinol. Dywedodd gradd-brentisiaid yn aml y byddai hyn yn "lleihau'r pwysau", a theimlwyd nad oedd gwyliau'r haf o reidrydd o fudd, o ystyried bod dysgwyr seiliedig ar waith yn dal i weithio drwy gydol misoedd yr haf ac, felly, nad ydynt yn gweld budd y toriad yn y calendr academiaidd.

'Mae'n bendant yn well gwneud y modiwlau dros yr haf, fel rydyn ni'n ei wneud nawr. (Yn y flwyddyn gyntaf doedd gyda ni mo hynny, y llynedd cawsom un, ac eleni rydym wedi cael dau.) Os oes gyda ni o leiaf un modiwl dros yr haf, mae llai wedi'i wasgu mewn ac yn y pen draw yn llai o bwysau gwaith.' **(Gradd-brentis, Arolwg dros y ffôn)**

- 6.12 Yn ogystal, dywedodd un gradd-brentis fod y cwrs yn anhyblyg, a hynny wedi arwain at drafferthion cael cydbwysedd rhwng gwaith a newidiadau yn y galw yn eu gwaith cyflogedig.

'Does dim hyblygrwydd yn cael ei gynnig gan y cwrs. Mae'r amserlen mor dynn o bedwar arholiad, pedwar [darn o] waith cwrs, a dau brosiect portffolio y tymor [...] os oes unrhyw waith prosiect mawr yn codi yn fy ngwaith, does dim llawer o le i symud pethau o gwmpas efo'r cwrs – mae iechyd meddwl llawer o gydweithwyr prifysgol wedi gwaethygu oherwydd hyn, gydag un ohonynt yn gadael hanner ffordd drwy'r ail flwyddyn.' **(Gradd-brentis, arolwg ar-lein)**

- 6.13 Mewn un sefydliad AU roedd cwrs wedi'i redeg yn y gorffennol ar amserlen fyrrach, gyda chyrsgiau'n rhedeg o fis Medi i fis Mai. Fodd bynnag, roedd hwn wedi'i ddiweddarau yn seiliedig ar adborth gan brentisiaid, a deimlai fod yr amserlen gryno hon yn "rhy ddwys", gan arwain at flwyddyn addysgu 42 wythnos.

- 6.14 Ar y cam hwn yn y rhaglen, mae'n rhy gynnar i nodi a yw gwahanol ddulliau cyflenwi yn effeithio ar gadw dysgwyr a'u bod yn cwblhau'u cwrs. Fodd bynnag, fel y nodir yn y dyfyniad isod, wrth i'r rhaglen symud yn ei blaen, gall hwn fod yn faes y mae angen holi ymhellach yn ei gylch er mwyn sicrhau nad yw gwahanol ddulliau cyflenwi a chynnal yn arwain at wahaniaethau yn y canlyniadau i ddysgwyr.

'Rwy'n meddwl bod y model darparu (sef astudio mewn bloc a'r amser a dreulir gyda'r cyflogwr) yn amrywio yn dibynnu ar bob sefydliad AU, ac rwy'n meddwl bod hynny'n cael effaith eithaf mawr. Byddai'n ddiddorol gweld y data dilyniant yn hyn o beth. Mae rhai yn hael iawn ac yn gweithio pedwar diwrnod gyda'r cyflogwr, ac mae'n debyg bod natur y cyflogwr yn caniatáu gadael iddynt astudio am floc o undydd, ac yna mae eraill yn ceisio gwneud wythnos gyfan o waith a diwrnod o astudio i gyd mewn pum diwrnod a hunanastudio hefyd. Mae hynny o bosibl yn cael effaith ar lwyddiant rhaglenni unigol [...] Mae angen hyblygrwydd,

ond mae hefyd angen arfer gorau i gefnogi pobl i aros a dal ati, ac mae angen i gyflogwyr ddeall effaith hynny.’ **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.15 Mae tystiolaeth gan radd-brentisiaid fod y pryderon y cofient eu cael cyn cofrestru o ran cydbwysu gwaith, astudio, a bywyd cartref (fel y trafodwyd yn adran 4.37) wedi dwyn ffrwyth. Pan ofynnwyd pa rai o restr o heriau (a oedd yn eithrio COVID-19 yn fwrriadol, gan fod hyn wedi'i drafod ar wahân yn yr arolwg) yr oeddent wedi'u hwynebu drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, nododd dau o bob tri ohonynt (67 y cant; 131/195) “rheoli cydbwysedd y llwyth gwaith rhwng y radd-brentisiaeth a gofynion y gweithle”. Cyfeiriodd 22 y cant (43/195) arall at “ddefnyddio'r dysgu yn [eu] rôl bresennol”. Awgryma'r adborth o'r cyfweliadau dros y ffôn bod strwythurau o fewn y cwrs wedi gwaethygu'r heriau hyn ar adegau. Er enghraifft, soniodd rhai gradd-brentisiaid am heriau yn ymwneud ag amseriad yr asesiadau, gan deimlo nad oeddynt yn ystyried eu hymrwymyiadau gwaith.

‘Yn ystod y tymor gall fod yn anodd oherwydd rwy'n gwneud o leiaf wythnos 40 awr gyda gwaith a phan dwi'n gweithio ar gynnyrch sy'n mynd trwy broses o gael cymhwyster, dydw i ddim yn gallu oedi'r holl dreialon am bythefnos i mi fynychu darlith neu wneud aseiniad. Fel arfer mae'n golygu fy mod i'n gwneud y diwrnod llawn yn y brifysgol ac wedyn 6 i 7 awr gyda'r nos yn dal i fyny gyda negeseuon e-bost ac yn ysgrifennu adroddiadau. Fel arfer mae'r aseiniadau yn cael eu gosod tua diwedd y modiwl. Unwaith eto, mae'n 40 awr o fy swydd arferol ac mae'n rhaid i mi ddod o hyd i 40-80 awr arall i ysgrifennu aseiniad.’

**(Gradd-brentis presennol, Cyfweliad dros y ffôn)**

‘Byddai gennych dymor o 12 wythnos a byddech mewn darlithoedd bob dydd ac roedd disgwyl yr aseiniad ar wythnos 13. Roedd peidio â chael cyfle i wneud yr aseiniad yn anodd, ac yna roedd cael bloc o amser rhydd dros yr haf yn rhwystredig. Weithiau roedd teimlad cyffredinol ein bod yn gwneud gradd draddodiadol ochr yn ochr â gwaith – dydw i ddim yn teimlo bod y brifysgol yn gwerthfawrogi'r gwahaniaeth ein bod yn ddysgwyr seiliedig ar waith.’ **(Gradd-brentis presennol, Cyfweliad dros y ffôn)**

6.16 Mewn cyfweiliadau dros y ffôn, dywedodd llawer o radd-brentisiaid (32/48) fod eu cyflogwr yn cynnig amser i ffwrdd iddynt er mwyn cynorthwyo gyda'u hastudiaethau a'u haseiniadau. Dywedodd rhai gradd-brentisiaid eu bod yn cael diwrnod ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith yn ogystal â diwrnod astudio â thâl y cytunwyd arno i'w galluogi i gwblhau aseiniadau. Cynigiai cyflogwyr eraill gyfnod astudio (yn ogystal â hawl gwyliau blynyddol cyflogai). Ar ben mwyaf hael y sbectrwm, dywedodd un gradd-brentis ei fod yn cael diwrnod astudio ychwanegol yr wythnos, yn ychwanegol at y diwrnod y mae'n ei dreulio yn y brifysgol.

6.17 Fodd bynnag, roedd graddau'r ddarpariaeth hon yn amrywio. Mewn nifer fach o achosion (6/48), ymddengys mai darpariaeth fach iawn a gâi gradd-brentisiaid ar gyfer amser i ffwrdd o'r gweithle neu ymddengys eu bod yn defnyddio amser hyblyg neu wyliau blynyddol i gefnogi aseiniadau a gwaith prifysgol. Er bod hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'r gradd-brentisiaid, o'i gymharu â rhai o'r cynigion cyfnodau astudio mwy hael mewn gweithleoedd eraill, mae risg y gallai'r defnydd o wyliau blynyddol neu oriau hyblyg (y mae'n rhaid i weithwyr eu gweithio'n ôl) ddwysáu'r heriau sy'n bodoli eisoes i radd-brentisiaid wrth geisio cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Gall hyn leihau pa mor hygyrch yw cyrsiau i radd-brentisiaid sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol yn eu bywydau cartref, e.e. fel rhieni neu ofalwyr. Fel y dangosir yn y dyfyniad isod, gall hyn gael effaith ar les prentisiaid.

'Wnaeth fy nghyflogwr ddim cytuno i mi gael diwrnod i ffwrdd ar gyfer darlithoedd. [Felly], am gyfnod y brentisiaeth, ro'n i'n gorfod gweithio'n ôl yr wyth awr yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos. Rhoddodd hyn straen aruthrol ar fy nheulu a fy mywyd gwaith, yn ogystal ag ar fy iechyd fy hun.' **(Gradd-brentis, arolwg ar-lein)**

6.18 Soniodd dau sefydliad AU hefyd am broblemau yn ymwneud â chyflogwyr o bryd i'w gilydd yn peidio â pharchu'r amser yr oedd ei angen ar y cyflogai i'w alluogi i wneud eu gwaith cwrs.

'Weithiau rydw i wedi cael rhai achosion lle roedd myfyrwyr wedi methu cyflwyno gwaith, oherwydd nad oedd y cyflogwyr wedi caniatáu diwrnod i ffwrdd iddynt. [Mae ein staff] ar hyn yn syth. Os bydd cyflogwr yn dweud [ei fod] wedi ymrwymo i strwythur y radd-brentisiaeth, yna mae wedi ymrwymo i ddiwrnod am flwyddyn i'r myfyriwr – mae'n ddiwrnod

gwarchodedig.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.19 Gofynnwyd i gyflogwyr sut roeddent yn ymdopi wrth golli adnoddau staff pan oedd gweithwyr yn astudio fel rhan o'r radd-brentisiaeth. Nid oedd hyn fel petai'n bryder mawr i lawer o gyflogwyr. Yn wir, adroddodd 49 y cant o gyflogwyr (37/75) nad oedd angen rheoli hyn neu na fu unrhyw golli ar adnoddau gweithwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion adroddodd y cyflogwyr hyn fod staff yn gweithio wythnos pedwar diwrnod, gyda chyfnodau o absenoldeb astudio i gyflenwi yn ystod yr amser astudio, ac o bryd i'w gilydd dywedai cyflogwyr fod staff yn gweithio'n ôl yr oriau neu y byddent yn mynychu astudiaethau y tu allan i oriau craidd.
- 6.20 Dywedodd cyflogwyr eraill eu bod yn amsugno unrhyw golled ymysg y gweithlu ehangach, gydag aelodau eraill o staff yn cefnogi gweithrediadau busnes pan fo cydweithwyr i ffwrdd yn astudio.
- 6.21 Soniodd nifer fach o radd-brentisiaid (2/48) am broblemau lle teimlent nad oedd prosesau academaidd wedi ystyried eu statws gwahanol fel dysgwyr seiliedig ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys heriau ynghylch faint o ddeunydd astudio annibynnol a oedd yn cael ei osod, terfynau amser cyflwyno asesiadau, a diffyg rhybudd ymlaen llaw ynghylch dyddiadau cyflwyno. Soniodd gradd-brentisiaid a staff cyflenwi hefyd am rai problemau cychwynnol yn ymwneud ag amserlennu.
- 'Dwi'n teimlo ei fod wir yn anhrefnus, munud olaf, a dyw'r cyfathrebu ddim yn wych. Er enghraifft, dwi dal heb gael gwybod pryd fyddwn ni'n mynd yn ôl ym mis Medi.<sup>37</sup> Dydw i ddim yn gwybod pa ddiwrnod fydd e, faint o oriau fydd e na hyd yn oed a fydd e ar y campws ai peidio, felly mae'n anodd trefnu fy amserlen gwaith a gofal plant.' **(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**
- 6.22 Roedd amserlennu yn un o'r meysydd lle dywedai staff cyflenwi y cafwyd problemau mewnol wrth gynnal y rhaglen. Trafodwyd hyn mewn cyfweiliadau â dau sefydliad AU. Mae'r amserlennu yn aml yn cael ei wneud gan adrannau canolog mewn sefydliadau AU, ac mae amseroedd ar gyfer y gwaith hwn yn aml yn seiliedig ar garfannau gradd traddodiadol. Mae hyn wedi creu heriau i rai gradd-brentisiaid sydd angen mwy o rybudd.

---

<sup>37</sup> Cynhaliwyd y cyfweiliad hwn yng nghanol Awst 2021.

## **Partneriaethau rhwng AU ac AB**

- 6.23 Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau AU (5/8) sy'n cynnig gradd-brentisiaethau bartneriaeth ffurfiol gydag o leiaf un coleg AB i gefnogi cynnal y cwrs, yn enwedig os ydynt yn cyflenwi ar raddfa fawr (mae manylion am gydweithredu yn Atodiad A). Dylid nodi, fodd bynnag, mai ychydig iawn o'r partneriaethau hyn (un neu ddau ar y mwyaf) sydd wedi'u sefydlu o ganlyniad i'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rhyw fath o drefniant partneriaeth yn bodoli eisoes cyn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau; fodd bynnag, dywedir bod y rhaglen wedi helpu i gryfhau gweithgarwch partneriaeth.
- 6.24 Dywedodd dau sefydliad AU fod eu colegau AB partner wedi cymryd yr awenau ar elfen 'dysgu seiliedig ar waith' y cwrs, gan gydnabod bod hyn yn cyd-fynd yn dda â'u profiad o gyflwyno cymwysterau tebyg yn flaenorol. Yn ogystal â'r cyfrifoldeb hwn, dywedodd sawl sefydliad AU fod gan eu coleg(au) AB partner gyfrifoldebau am allgymorth, lle gallent ddefnyddio eu perthynas bresennol â chyflogwyr neu ddysgwyr ar gyrsiau prentisiaeth eraill i gefnogi hyrwyddo gradd-brentisiaethau.
- 6.25 Yn gyffredinol, adroddodd sefydliadau AU a cholegau AB fod y partneriaethau'n gweithio'n gadarnhaol. Fodd bynnag, adroddodd staff rheoli a chyflenwi bod rhai problemau wedi bod ar y cychwyn. Dywedodd un sefydliad AU fod yn rhaid iddynt fynd i'r afael â gwahaniaethau yn y dulliau marcio a fabwysiadwyd gan staff yn y sefydliad AU a'r colegau AB. Dywedodd staff rheoli a chyflenwi o bartneriaeth wahanol eu bod wedi cael rhai trafferthion dyblygu oherwydd diffyg rhannu systemau, a hynny wedi'i gywiro ers hynny.
- 6.26 Dywedodd sawl sefydliad AU (3/8) hefyd eu bod yn gweithio gyda cholegau AB a darparwyr DSW eraill i fapio eu prentisiaethau hwy i gyd-fynd â'u gradd-brentisiaeth er mwyn cryfhau'r llwybr rhwng rhaglenni.
- 6.27 Pan nad oedd sefydliadau AU yn gweithio'n agos gyda cholegau AB ar hyn o bryd i gynnal eu rhaglenni, roedd uchelgais aml i adeiladu ar gyfleoedd partneriaeth, gan awgrymu bod sefydliadau AU yn gweld y dull partneriaeth fel agwedd a allai ychwanegu gwerth. Fodd bynnag, dywedodd un sefydliad AU fod hyn yn heriol i'w wneud yn absenoldeb sicrwydd ynghylch cyllid. Yn fwy cyffredinol, gall hyn fod yn cyfyngu ar sefydlu gweithgarwch partneriaeth mwy strategol, parhaus, gyda thuedd i ganolbwyntio ar gydweithio mwy gweithredol (yn hytrach na strategol) eu natur, sy'n gyfystyr â mentrau ac iddynt derfyn amser.

6.28 Dywedodd sawl rhanddeiliad ehangach (3) fod y cydweithio rhwng AB ac AU yn faes lle gellid gwella'r rhaglen. Dywedodd un rhanddeiliad ei fod yn teimlo bod "cyfleoedd wedi'u colli" o ran cydweithredu rhwng AU ac AB, gan fod diffyg cydweithredu strategol, a oedd yn golygu mai unigolion oedd yn pennu'r cydweithredu. Yn yr un modd, dywedodd rhanddeiliad arall nad oedd y rhaglen o reidrwydd wedi esgor ar gydweithredu newydd.

'Mae wedi bod yn effeithiol o ran annog cydweithio pan mae trefniadau cydweithredol yn bodoli eisoes. Dydi e ddim wedi annog cydweithredu mwy newydd. Mae gan rai o'r darparwyr arweiniol drefniadau cydweithredu cryf â phartneriaid AB lleol, ond does dim perthynas newydd wedi'i datblygu (o'r hyn wela i). Rwy'n meddwl ei fod yn dibynnu ar ble roedd cydweithio cryf yn bodoli eisoes yn ogystal â'r lleoliad [...] Credaf mai un o'r cryfderau oedd bod gan golegau fwy o brofiad gyda dysgu seiliedig ar waith, does gan sefydliadau AU ddim gymaint o brofiad yn gwneud hynny, felly roedd hynny wir yn gryfder wrth weithio trwy bartneriaid cyflenwi AB. Yr un maes na welsom lawer o dystiolaeth ohono oedd darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Rwy'n meddwl bod hynny'n llawer cryfach mewn uwch-brentisiaid (yn hytrach na lefel gradd).' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweliad â Rhanddeiliaid)**

### **Darpariaeth seiliedig ar waith**

6.29 Fel y nodwyd yn fframweithiau'r gradd-brentisiaethau, yn y bôn mae Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi'i chynllunio i fod yn rhaglen sy'n seiliedig ar waith, lle gall prentisiaid fynd ati'n syth i ddefnyddio'r dysgu a wnaed mewn AU yng nghyd-destun gwaith go iawn.<sup>38</sup> Mae'r fframwaith yn disgrifio, lle bynnag y bo'n bosibl, y dylid gwneud y gofynion asesu drwy ddefnyddio dulliau seiliedig ar brosiect gydag enghreifftiau o weithle yn y byd go iawn, gan sicrhau bod unrhyw elfennau gwybodaeth yn y modiwlau yn cael eu dysgu mewn cyd-destun sefydliadol ac yn y gwaith. Y disgwyl yw bod hyn yn cael ei gynllunio, ei adolygu a'i werthuso ar y cyd

---

<sup>38</sup> Ardystio Prentisiaethau Cymru / Apprenticeship Certification Wales (2019) Gradd-brentisiaeth Ddigidol Digital Degree Apprenticeship (Cymru), Instructus.

rhwng y prentis, darlithwyr prifysgol, y cyflogwr a'r mentor/rheolwr trwy astudiaeth dan gyfarwyddyd, prosiectau, adborth ac asesiadau.<sup>39</sup>

- 6.30 Defnyddir yr elfennau dysgu seiliedig ar waith yn y cyrsiau i roi cyfleoedd i radd-brentisiaid gyplysu'r hyn y maent yn ei ddysgu yn ôl i gyd-destun a phrosesau penodol eu lleoliad cyflogaeth, gan helpu i roi cysyniadau damcaniaethol ar waith yn ymarferol.
- 6.31 Mae sefydliadau AU wedi mynd ati'n wahanol i weithredu dulliau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith o ran caffael gwybodaeth a sgiliau yng nghyrsiau'r gradd-brentisiaeth. Dywedodd un sefydliad AU ei fod wedi mynd ati'n gyfannol o ran dysgu yn y gwaith, gan ei blethu i wead y cwrs, gyda chyflogwyr wedi bod yn rhan wrth gytuno ar ddarpariaeth a meini prawf asesu trwy'r Paneli Cyswllt Diwydiannol.
- 6.32 Mewn sawl sefydliad arall, caiff modiwlau penodol eu neilltuo i'r elfen dysgu seiliedig ar waith (DSW); er enghraifft, gallai myfyrwyr wneud prosiect penodol neu dasg ymchwil annibynnol yn lleoliad y cyflogwr sy'n ymgorffori'r elfen DSW. Ymhellach, defnyddiwyd y traethawd hir neu brosiect ymchwil blwyddyn olaf fel cyfle allweddol ar gyfer DSW, gyda'r prosiect wedi'i gynllunio o amgylch problem neu dasg benodol yn lleoliad eu cyflogaeth.

'Bob tymor maen nhw'n astudio 60 credyd, mae un modiwl 20-credyd yn dod o'r radd safonol a modiwl 40-credyd sy'n benodol i'r radd-brentisiaeth [...] Rydyn ni'n rhoi fframwaith ar waith ac rydyn ni'n datblygu asesiad yn seiliedig ar beth maen nhw'n ei wneud yn y gwaith, felly mae'r gwahaniaeth yn dod o'u man gwaith. Maent yn cysylltu theori ac ymarfer. Mae'r asesiadau fel arfer yn brosiect technegol neu ysgrifenedig gydag elfen o adfyfrio ar yr hyn y maent wedi'i wneud.'

**(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.33 Mewn lleiafrif o sefydliadau, roedd cyflwyno modiwlau 12 wythnos yng nghyd-destun y gweithle wedi arwain at aseiniad DSW. Fodd bynnag, roedd adborth gan brentisiaid wedi arwain at ymestyn yr amserlenni i gydnabod ei bod yn anodd i fyfyrwyr gwblhau'r aseiniad o fewn 12 wythnos ar yr un pryd â chydbwysu ymrwymadau gwaith a bywyd teulu.

---

<sup>39</sup> Ibid.



6.34 Amrywio oedd y dull o gael cyflogwyr yn rhan o'r asesu. Dywedodd un sefydliad ei fod ar hyn o bryd yn gwahodd rheolwyr i gyflwyniadau, ond ei fod yn y broses o archwilio sut y gall cyflogwyr gymryd mwy o ran mewn asesu. Yn y cyfamser, ar ben arall y sbectrum, roedd gan un sefydliad gyflogwyr yn ymwneud â datblygu'r dull asesu. Teimlwyd bod hwn yn faes lle gellid datblygu'r rhaglen ymhellach (fel y nodwyd hefyd yn adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd). Dywedodd un rhanddeiliad mai "isel iawn" oedd ymgysylltiad cyflogwyr, ar draws y rhaglen, â'r broses asesu a chynllunio'r asesiadau.

'Yn sicr mae mwy o gyfle i gynnwys cyflogwyr wrth asesu a chyflwyno deunydd. Ychydig o asesu sy'n cael ei wneud dan arweiniad cyflogwyr. Mae rhywfaint o asesu ffurfiannol, ond dim asesu crynodol. Mae sefydliadau AU fel petaent yn amharod i gynnwys cyflogwyr, ac efallai nad yw cyflogwyr yn teimlo eu bod yn arbenigwyr, ond rydyn ni wedi gweld mwy o ymwneud â graddau sylfaen yn y gorffennol. Fe wnaeth hynny fy nharo. Mae'n faes mawr o ran gwelliant posibl. Mae'n mynd yn ôl i integreiddio Dysgu Seiliedig ar Waith gyda dysgu [yn y gwaith] a dysgu i ffwrdd o'r gwaith. Byddai integreiddio hynny yn ei wella llawer mwy. Ond efallai y bydd angen mwy o amser ac [adnoddau] i wneud hynny.' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweliad â Rhanddeiliaid)**

6.35 Roedd barn gymysg ymhlith cyflogwyr ynghylch i ba raddau y teimlent y gallent ddylanwadu ar gynnwys y radd-brentisiaeth. Roedd traean y cyflogwyr a ymatebodd a oedd â phrentisiaid yn y fframwaith digidol yn teimlo y gallent ddylanwadu ar y cynnwys "i raddau helaeth", tra bod bron i hanner yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddylanwad dros y cynnwys. Teimlai cyflogwyr fod ganddynt fwy o ddylanwad dros gynnwys gradd-brentisiaethau yn y llwybr Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, gyda thua hanner ohonynt yn dweud eu bod yn gallu dylanwadu ar natur y ddarpariaeth i raddau helaeth. Yn aml, wrth ymhelaethu ar eu hymateb, roedd cyflogwyr ar adegau yn cydnabod bod gan sefydliadau AU waith anodd yn ceisio dod â gofynion sawl cyflogwr ynghyd tra hefyd yn sicrhau eu bod yn gallu gwneud yr addysgu craidd.

**Tabl 6.1: I ba raddau ydych chi wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwrs gradd-brentisiaeth i sicrhau ei fod yn seiliedig ar anghenion a gofynion penodol eich gweithle?**

	Digidol (n=46)	Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (n=27)	Y ddau (n=73)
I raddau helaeth	33%	48%	38%
I ryw raddau	20%	30%	48%
Dim o gwbl	48%	22%	33%

Ffynhonnell: Arolwg dros y ffôn â Chyflogwyr

### *Mentora seiliedig ar waith*

- 6.36 Fel rhan o'r rhaglen mae disgwyl i ddiweddariadau dair ffordd ddigwydd rhwng y gradd-brentis, y cyflogwr a darparwr y cwrs/SAU bob 60 diwrnod. Bwriad y diweddariadau hyn yw rhoi cyfle i drafod cynnydd y prentis drwy'r cwrs ac unrhyw anghenion cymorth.
- 6.37 Fodd bynnag, mae tystiolaeth nad yw diweddariadau o hyd yn digwydd mor aml â hyn. Mewn ymateb i'r arolwg cyflogwyr, dywedodd 66 y cant (46/70) o gyflogwyr eu bod wedi derbyn diweddariadau o leiaf unwaith y tymor neu'n amlach, gyda dau y cant (19/70) yn derbyn diweddariadau bob mis o leiaf. Fodd bynnag, dywedodd 11 y cant (8/70) o gyflogwyr mai dim ond dwy neu dair gwaith y flwyddyn yr oedd y rhain yn digwydd, dywedodd 14 y cant (10/70) mai anaml y cynhelid y cyfarfodydd hyn, a dywedodd 11 y cant (8/76)<sup>40</sup> nad oeddent wedi cael unrhyw ddiweddariadau gyda'r coleg/prifysgol sy'n cynnal y radd.
- 6.38 Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogwyr fod y diweddariadau hyn yn "ddefnyddiol iawn" (57 y cant; 42/74) neu'n "weddol ddefnyddiol" (32 y cant; 24/74). Teimlai tri chwarter y cyflogwyr fod y diweddariadau fel petai'n eu galluogi i ddeall sut roedd y gradd-brentis yn dod yn ei flaen ac a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol. Trwy gyfarfodydd diweddarau, dywedodd nifer fach ohonynt (4/75) hefyd eu bod yn gallu dod i wybod mwy am gynnwys y cwrs a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

'Mae'n ddefnyddiol gwybod sut mae'r cwrs yn mynd. Y wybodaeth diweddaraf am yr unigolion, manylion am eu galluoedd, sut orau i gyflawni unrhyw beth nad yw'n gweithio'n iawn oherwydd gwahanol anghenion eu swydd – mae'r cyfan yn gyfrinachol ac rydym yn gallu

<sup>40</sup> Roedd dau gyflogwr wedi rhoi mwy nag un ateb gan eu bod yn ymwneud â gradd-brentisiaethau mewn dau sefydliad addysgol gwahanol a bod amllder y diweddariadau yn wahanol yn y ddau.

gweld a oes angen mwy o fentora ar unrhyw un dros ran benodol o'r cwrs.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

6.39 Fodd bynnag, dywedodd 11 y cant o gyflogwyr (8/74) nad oedd diweddariadau "yn ddefnyddiol o gwbl". O'r rhai a ddywedodd nad oedd diweddariadau yn ddefnyddiol, roedd tri ohonynt wedi dweud nad oeddent wedi derbyn unrhyw ddiweddariadau neu rai bach iawn, tra bod dau wedi dweud eu bod yn teimlo nad oedd y diweddariadau bob amser yn angenrheidiol.

6.40 Mae'r ail farn wedi'i hategu gan nifer fach (3/75) o gyflogwyr a ddywedodd fod y diweddariadau yn "weddol ddefnyddiol".

'Rydw i mewn cysylltiad â'r dysgwyr yn rheolaidd beth bynnag a does dim angen rhagor o wybodaeth yn rhoi'r diweddaraf i mi, ond gallwn gysylltu â'n gilydd unrhyw bryd os bydd angen unrhyw beth pellach. Maen nhw'n wych i gydweithio gyda nhw ac yn barod iawn i siarad. Dydw i ddim wedi dod yn agos at gael yr un peth wrth ddelio â'r rhai yn Lloegr, [lle] rydych chi'n gorfod ymdrechu'n galed iawn i gael unrhyw beth o gwbl.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

6.41 Mae ymatebion y gradd-brentisiaid yn yr arolwg dros y ffôn hefyd yn awgrymu mai amrywiol yw faint o ddiweddarau tair ffordd sy'n digwydd rhwng y prentisiaid, eu cyflogwyr, a staff cwrs. Tra bod 70 y cant (33/47) o'r gradd-brentisiaid yn dweud eu bod wedi derbyn ymweliadau yn eu gweithle a chefnogaeth gysylltiedig yn eu gwaith (gan y coleg AB neu'r brifysgol) fel rhan o'r rhaglen, dywedodd 30 y cant (14/47) o'r gradd-brentisiaid nad oeddent wedi cael hyn. Yn ddigymell hefyd mewn ymateb testun rhydd ynghylch anawsterau ar y rhaglen, soniodd un gradd-brentis hefyd am broblemau yn ymwneud â chael gafael ar gymorth.

'Ddim yn gymaint o her, ond dydw i ddim wedi cael llawer o gysylltiad â fy nhiwtor ymarfer. Ac er nad ydw i wedi bod angen y cymorth o reidrwydd, eto dydw i ddim wedi cael yr adolygiadau rheolaidd fel y disgwyl. Dydw i ddim wedi holi am y rhain, achos dydw i ddim yn teimlo mai fy rôl i ydi gwneud hynny [achos] fy mod i'n gweithio'n llawn amser yn ogystal ag yn astudio. **(Gradd-brentis, arolwg ar-lein)**

- 6.42 Mae hyn yn adleisio canfyddiadau adolygiad yr ASA a adroddodd, er gwaethaf amodau i adolygu cynnydd gradd-brentisiaid, bod rhoi hyn ar waith “yn amrywio”.<sup>41</sup>
- 6.43 Pan gafwyd y gefnogaeth hon, disgrifiodd 70 y cant (23/33) y gradd-brentisiaid elfennau'r gefnogaeth hon i fod yn dda, gan gynnwys prentisiaid yn disgrifio'r cyfle fel un “defnyddiol” a chael y cyfle i ofyn cwestiynau. Er hynny, soniodd 45 y cant (15/33) o'r ymatebwyr am brofiad negyddol yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd diweddar hyn.<sup>42</sup> Mewn rhai achosion roedd y rhain yn ymwneud â gradd-brentisiaid yn teimlo nad oedd angen y cyfarfodydd arnynt o reidrwydd, ac mewn un achos disgrifiodd gradd-brentis nhw fel ymarfer ‘ticio blwch’.

### **Rôl gofynion proffesiynol, statudol a rheoliadol wrth gynnal cyrsiau**

- 6.44 Ar hyn o bryd nid yw fframweithiau'r gradd-brentisiaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau gael eu hachredu gan gyrrff proffesiynol penodol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod nifer o gyrsiau wedi ceisio cael achrediadau gan gyrrff proffesiynol perthnasol neu fod ganddynt gynlluniau i wneud cais am achrediad yn y dyfodol.
- 6.45 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau AU yn rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwe eu cyrsiau ynghylch sut mae'r cwrs yn cyd-fynd â gofynion proffesiynol, statudol a rheoliadol. Er enghraifft, mae tri sefydliad AU yn nodi bod rhai o'u cyrsiau wedi'u hachredu gan y cyrrff proffesiynol perthnasol, ac mae dau sefydliad AU arall yn cynnwys datganiadau ar eu bwriadau i geisio am achrediad ar gyfer eu darpariaeth peirianeg cyn gynted â phosibl, ac yn adrodd bod eu cyrsiau wedi'u cynllunio i fodloni gofynion cyrrff proffesiynol. Yn ogystal â datganiadau ynghylch gofynion proffesiynol, mae sawl sefydliad AU hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at fframweithiau y mae eu cyrsiau'n cydymffurfio â hwy, megis fframweithiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer eu pwnc, neu achrediad ar gyfer dwy flynedd gyntaf y cwrs trwy fframweithiau'r uwch-brentisiaeth. Gallai cynnwys y gofynion hyn mewn deunydd cwrs awgrymu bod sefydliadau AU yn ystyried y rhain yn wybodaeth allweddol i ddarpar ymgeiswyr a'u cyflogwyr er mwyn rhoi sicrwydd iddynt am ansawdd y cyrsiau.

---

<sup>41</sup> Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA), Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru: Adroddiad trosolwg (2021).

<sup>42</sup> Roedd rhai ymatebion yn cynnwys adborth cadarnhaol a negyddol. O ganlyniad, mae'r niferoedd hyn dros 33.

- 6.46 Mewn cyfweiliadau, gofynnwyd i staff rheoli a chyflenwi sut yr oedd gofynion proffesiynol, statudol a rheoliadol wedi'u hintegreiddio i ddyluniad y cwricwlwm. Dywedodd pedwar sefydliad AU fod rhywfaint o'u darpariaeth wedi'i hachredu trwy gyrff perthnasol megis BCS (Sefydliad Siartredig ar gyfer TG) neu Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol. Fodd bynnag, nid yw pob cwrs wedi'i achredu ar hyn o bryd.
- 6.47 Dywedodd tri sefydliad AU eu bod yn aros, yn achos rhai cyrsiau, am y cyfle i gael eu cyrsiau wedi'u hachredu. Fodd bynnag, eglurodd staff bod angen cael myfyrwyr i gwblhau'r cyrsiau cyn y gellir eu hachredu.
- 'Rydyn ni'n dilyn ein rhaglen israddedig, sy'n dod â'r gofynion safonol i mewn. Ar gyfer y gradd-brentisiaethau dydyn ni ddim wedi cael achrediad eto, gan fod yn rhaid i rai [myfyrwyr] fynd drwy'r rhaglen lawn cyn y gallwn wneud cais, a dydyn ni ddim wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**
- 6.48 Mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y wybodaeth a gyhoeddir am gyrsiau ar wefannau sefydliadau AU. Er enghraifft, roedd nifer fach o sefydliadau wedi cynnwys gwybodaeth yn nodi nad oedd eu cyrsiau wedi'u hachredu eto, ond yn dweud eu bod yn ymgeisio am achrediad. Er enghraifft, mae Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd yn ceisio cael achrediad gan y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol er mwyn cyflawni'r gofynion i fyfyrwyr gael eu hachredu fel Peirianwyr Siartredig.<sup>43</sup>
- 6.49 Dywedodd dau sefydliad fod gofynion proffesiynol, statudol a rheoliadol wedi'u hymgorffori yn eu cynllun, gan fod eu Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn dilyn y cynnwys a gyflwynir trwy eu rhaglenni gradd israddedig presennol.
- 'O ran yr elfen reoleiddiol a statudol, i bob pwrpas yr un cynnwys â gradd arferol sydd gyda chi, felly mae i mewn ynddo.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**
- 6.50 Cymysg oedd yr adborth ynghylch sut roedd cynnwys gofynion proffesiynol, statudol a rheoleiddiol wedi dylanwadu ar ymgysylltiad cyflogwyr â'r rhaglen. Dywedodd staff o un sefydliad AU fod cyflogwyr yn y maes peirianeg yn teimlo mai da o beth

---

<sup>43</sup> Prifysgol Caerdydd, Gradd-brentisiaeth. Ar gael yma: [Gradd-brentisiaeth – Ysgol Beirianeg – Prifysgol Caerdydd](#) (aethpwyd iddo 27 Mai 2022).

fyddai cael y cwrs wedi'i achredu. Yn yr un modd, dywedodd aelod o staff o sefydliad AU arall fod achrediad yn helpu i ddangos "ansawdd" y cwrs. Fodd bynnag, awgrymai adborth gan sefydliad AU arall bod yr ymgyrch am achredu yn dod o'r SAU (yn hytrach na chan y cyflogwyr).

'O ran peirianeg, nid yw'r radd wedi'i dilysu eto oherwydd dydyn ni ddim wedi cael carfan gyflawn [...] Mae'r cyngor peirianeg wedi lleihau'r hawl hefyd drwy bennu lefel cyrhaeddiad gofynnol (30 y cant) ac uwch. Does gyda chyflogwyr ddim gymaint â hynny o ddiddordeb yn yr agweddau hyn [...] fel petaen nhw'n poeni dim am [safonau] peirianeg a dydyn nhw ddim yn poeni amdany'n nhw'n cael statws Siartredig. Rydw i am wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hachredu.'

### **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.51 Yn amlach na pheidio, pwysleisiai sefydliadau AU bwysigrwydd sicrhau bod eu darpariaeth yn cyd-fynd yn dda ag anghenion cyflogwyr.
- 6.52 Gan fod gradd-brentisiaid fel arfer yn mynd i sefydliad AU penodol ar sail ymwneud presennol eu cyflogwr â Rhaglen Gradd-brentisiaethau benodol, nid yw'n bosibl nodi a yw'r statws achredu yn effeithio ar ddarparwyr cyrsiau dewisol y gradd-brentisiaid. Fodd bynnag, awgryma data'r arolwg fod achrediad proffesiynol yn gymhellant i ddarpar brentisiaid wrth benderfynu cychwyn ar radd-brentisiaeth. Yn wir, dywedodd 69 y cant (158/197) o brentisiaid bod cael achrediad proffesiynol yn ffactor "pwysig iawn" wrth wneud eu penderfyniad i ddilyn gradd-brentisiaeth a dywedodd 24 y cant arall (34/197) fod hyn "yn eithaf pwysig". Gallai hyn awgrymu y byddai'n fuddiol i sefydliadau AU nad ydynt eisoes wedi ennill achrediad chwilio am gyfleoedd i gael eu hachredu gan y cyrff proffesiynol perthnasol.

### **Effaith COVID-19 ar ddull cynnal gradd-brentisiaethau**

- 6.53 Roedd pandemig COVID-19 yng Nghymru a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi golygu bod yn rhaid i sefydliadau AU symud elfennau'r cyrsiau a addysgir i fod ar-lein am gyfnodau estynedig. Mewn cyfres o gylchlythyrau cyhoeddus rhoddodd CCAUC ganllawiau i ddarparwyr ar ystyriaethau wrth ymateb i'r pandemig ac

addasiadau i ddarpariaeth.<sup>44,45,46</sup> Cyflwynwyd y deunydd trwy lwyfannau dysgu ar-lein a thrwy ddefnyddio llwyfannau fideo-gynadleda fel Microsoft Teams a Blackboard.

- 6.54 Yn ogystal, roedd effaith y pandemig ar fywydau ehangach dysgwyr weithiau'n golygu bod sefydliadau AU wedi cefnogi gradd-brentisiaid i ohirio eu hastudiaethau neu gyflwyno ceisiadau "amgylchiadau esgusodol". Ymhellach, roedd y pandemig wedi arwain at rai o'r prentisiaid yn cael eu rhoi ar ffyrlo, tra bod llwyth gwaith gradd-brentisiaid eraill wedi cynyddu.
- 6.55 Cymysg oedd y farn am effaith dysgu ar-lein ar gynnal y cyrsiau. Roedd staff yn cydnabod bod cyflwyno o bell wedi dod â manteision i rai dysgwyr, yn enwedig trwy gael sesiynau wedi'u recordio a dileu amser teithio, a hyn wedi helpu i leddfu rhai o'r anawsterau y mae gradd-brentisiaid yn eu hwynebu wrth geisio cael cydbwysedd rhwng gwaith, astudio a bywyd cartref. Yn ogystal, dywedodd nifer fach o aelodau staff ei bod yn well gan rai cyflogwyr gynnal o bell, gan ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd.
- 6.56 Fodd bynnag, dywedodd sawl aelod o staff cyflenwi hefyd fod peidio ag addysgu wyneb yn wyneb wedi arwain at rai gradd-brentisiaid yn fwy "digyswllt" ac yn cael llai o ryngweithio.

'I rai myfyrwyr a ddechreuodd y llynedd, doedden nhw ddim yn cael dod ar y safle, ac felly maen nhw'n teimlo ychydig yn ddatgysylltiedig, ond, yn syndod, un o'r pethau pwysig yn ei gylch sydd wedi codi [yng nghyfarfodydd] y panel yw bod yr holl ddiwydiant eisiau i ni gadw rhywfaint o gyflenwi ar-lein oherwydd y fantais yw bod pob sesiwn yn cael ei recordio, ac i'r myfyrwyr rhan-amser, maen nhw'n brysur iawn. Mae'r rhan fwyaf mewn cyflogaeth lawn-amser, yn gwneud y radd, ac mae gan y rhan fwyaf deulu i ofalu amdanynt hefyd, felly mae sesiynau wedi'u recordio wedi gwneud argraff gadarnhaol a gwahaniaeth da.'

**(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

---

<sup>44</sup> [W20/24HE: Covid-19 impact on higher education providers: information on equality, diversity and inclusion - HEFCW](#) (Saesneg yn unig)

<sup>45</sup> [W20 19HE COVID-19 impact on higher education providers consumer protection student expectation quality \(hefcw.ac.uk\)](#) (Saesneg yn unig)

<sup>46</sup> [W20 11HE COVID-19 impact on higher education providers \(hefcw.ac.uk\)](#) (Saesneg yn unig)

6.57 Dywedodd gradd-brentisiaid hefyd eu bod wedi elwa o gael mynediad at ddarlithoedd wedi'u recordio.

'Mae cael popeth wedi'i gyflwyno ar-lein wedi bod yn fonws enfawr, gan ei fod wedi lleihau amser teithio a dwi'n gallu cael mynediad at yr holl ddarlithoedd ar-lein ar amser sy'n gyfleus ac ailwyllo deunydd dydw i ddim wedi'i ddeall yn iawn y tro cyntaf.' **(Gradd-brentis presennol, Cyfweliad dros y ffôn)**

6.58 Dywedodd nifer sylweddol o radd-brentisiaid (17/48 o'r rhai a gyfwelwyd dros y ffôn) fod llai o deithio oherwydd pandemig COVID-19 wedi bod yn fuddiol. Dywedwyd ganddynt eu bod wedi gallu arbed amser drwy osgoi'r angen i gymudo i'r brifysgol, a oedd yn golygu mwy nag awr o daith bob ffordd i rai dysgwyr. Roedd y gradd-brentisiaid wedi elwa o allu defnyddio'r amser hwn i astudio neu i dreulio mwy o amser gyda'u teulu.

'I ddweud y gwir, mae wedi bod yn well gen i weithio neu astudio gartref. Mae'n golygu llai o amser yn gorfod teithio. Mae gen i fwy o amser gyda'r teulu. Mae gen i gysuron cartref wrth law. Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf byddai awr o egwyl a byddwn jest yn cerdded o amgylch y campws, ddim yn siŵr iawn beth i'w wneud, ond gan fy mod adre nawr, gallaf wneud aseiniadau. Gallaf dreulio amser gyda'r plant yn yr awr honno.' **(Gradd-brentis presennol, Cyfweliad dros y ffôn)**

6.59 Fodd bynnag, roedd cynnal o bell/ar-lein yn ystod pandemig COVID-19 hefyd wedi arwain at effeithiau andwyol. Er enghraifft, dywedodd llawer o radd-brentisiaid eu bod wedi cymdeithasu a rhyngweithio llai â'u cyd-fyfyrwyr a'r staff addysgu (adroddwyd gan 23/48 o'r rhai a gyfwelwyd dros y ffôn) yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn, yn eu barn nhw, wedi cael effaith andwyol ar gyfleoedd dysgu, gan fod gradd-brentisiaid wedyn wedi cael llai o gyfle i drafod heriau neu gwestiynau yn anffurfiol gyda'u cyd-fyfyrwyr.

6.60 Dywedodd rhai gradd-brentisiaid hefyd fod ei gynnal ar-lein wedi arwain at lai o fyfyrwyr yn cymryd rhan weithredol mewn sesiynau ar-lein.

'Mae diffyg mewnbwn gan fyfyrwyr eraill ar y cwrs yn gallu bod yn rhwystredig. Dim ond tri neu bedwar ohonom sy'n dueddol o siarad



mewn cyfarfodydd Teams. Efallai bod y lleill yn iau a dim hyder ganddynt.’ **(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**

- 6.61 Dywedodd nifer fach o’r gradd-brentisiaid yn y cyfweiliadau dros y ffôn (6/68) hefyd fod pethau wedi bod yn anodd arnynt gan fod tarfu ychwanegol arnynt gartref. Yn aml, daeth y sylwadau hyn gan radd-brentisiaid oedd â phlant yn y cartref, roedd rhai ohonynt hefyd wedi gorfod cymryd cyfrifoldebau ychwanegol am addysgu gartref yn ystod y pandemig.

‘Mae’r balans rhwng astudio a bywyd gartref yn anoddach. Gallwch chi ganolbwyntio ychydig yn fwy pan fyddwch chi’n mynd i’r brifysgol a defnyddio’r amser rhwng darlithoedd i fynd i’r llyfrgell ac ati, ond mae’n llawer anoddach ei gyfiawnhau pan fyddwch gartref gyda phlentyn blwydd oed a’ch gwraig angen cymorth.’ **(Gradd-brentis presennol, Cyfweiliad dros y ffôn)**

- 6.62 Er bod y pandemig wedi sbarduno’r newid i ddarpariaeth o bell neu ei gyfuno, dywedodd sawl sefydliad AU eu bod yn debygol o gadw model cyflwyno cymysg a dal ati i recordio darlithoedd er mwyn gallu gynnig hyblygrwydd i radd-brentisiaid. Roedd y gallu i gwrdd â thiworiaid ar-lein hefyd wedi helpu i wneud “sesiynau cymorth” neu gyfarfodydd tiwtoriaid yn haws eu cael i radd-brentisiaid, gan y gallai gradd-brentisiaid drefnu lle ar amser a oedd yn gyfleus iddynt heb fod angen ychwanegu amser teithio.
- 6.63 Dylid nodi, fodd bynnag, ar yr adeg y cynhaliwyd cyfweiliadau â staff rheoli a chyflenwi (Medi 2021), bod sefyllfa’r pandemig a’r cyfyngiadau cysylltiedig yn dal i esblygu. O ganlyniad, mae’n bosibl y bydd newidiadau o hyd yn y dewisiadau dysgu ymysg gradd-brentisiaid, eu cyflogwyr a’r sefydliadau AU y gallai fod angen i sefydliadau ymateb iddynt dros amser. Dywedodd sawl aelod o staff y byddai’r model cyflenwi yn rhywbeth y byddai angen iddynt ei adolygu er mwyn nodi’r “cyfuniad gorau o ran y ddarpariaeth” wrth i sefyllfa’r pandemig newid a datblygu. Mae hwn yn faes yn y rhaglen y dylai sefydliadau AU barhau i’w fonitro a’i werthuso.

### **Cyd-fynd â strategaeth y Gymraeg**

- 6.64 [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) yw strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac mae’n cynnwys y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae lluo o dargedau yn sail i’r strategaeth, gan gynnwys cynlluniau i ‘ddiwygio’r cynnig

addysg a sgiliau ôl-16 Cymraeg a dwyieithog i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i barhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog i gefnogi economi sy'n ffynnu'.<sup>47</sup>

- 6.65 Mae CCAUC yn cyflwyno hyn fel rhan o gynigion gradd-brentisiaethau, sef bod yn rhaid i sefydliadau AU ddangos trefniadau ar gyfer cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>48</sup> Mae rhanddeiliaid yn cydnabod mai prin braidd fu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gradd-brentisiaethau ar draws y rhaglen. Yn ôl y dadansoddiad o wybodaeth reoli yn Adran 3, roedd 27 y cant o'r rheiny mewn gradd-brentisiaethau wedi disgrifio'u hunain yn siaradwyr Cymraeg. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, disgrifiodd 19 y cant (37/199) eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Gofynnwyd i'r rhai a nododd eu bod yn siarad Cymraeg a oedd unrhyw ran o'u gradd-brentisiaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg. Cadarnhaodd tri ymatebydd (wyth y cant) ei fod, tra bod 11 arall (30 y cant) wedi dweud er nad oedd y cwrs yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg, bod tiwtoriaid bugeiliol ac astudio yn cael eu cynnig a allai gynnal rhannau o'r radd yn Gymraeg pe dymument hynny. Adleisiodd sawl sefydliad AU y safbwynt hwn, gan adrodd bod ganddynt y gallu i gyflwyno rhai elfennau o'r cwrs yn Gymraeg a bod myfyrwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg neu Saesneg ac y gallent dderbyn rhai deunyddiau prifysgol yn Gymraeg.
- 6.66 Roedd gallu sefydliadau i gyflwyno deunyddiau cwrs a darlithoedd trwy gyfrwng y Gymraeg, fodd bynnag, yn tueddu i amrywio, yn dibynnu ar y staff mewn sefydliadau AU unigol. Er enghraifft, adroddodd un sefydliad AU fod ganddynt 10 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran, gyda sefydliad AU arall yn adrodd y byddai addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn heriol oherwydd prinder staff academaidd sy'n siarad Cymraeg yn eu plith.
- 6.67 Er gwaethaf y ffaith bod rhywfaint o ddarpariaeth a chapasiti Cymraeg ar gael ym mhob SAU, dywedodd staff rheoli a chyflenwi yn aml nad oeddent wedi gweld galw, wrth i radd-brentisiaid yn aml ddewis peidio â manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hastudiaethau. Fel y nodir yn y dyfyniad hwn, soniodd staff am heriau wrth gynnig deunyddiau yn Gymraeg, o ystyried goruchafiaeth y Saesneg a Saesneg Americanaidd mewn ieithoedd technegol. Nid yw llawer o'r ieithoedd technegol hyn yn dod gyda llawlyfrau a chanllawiau sydd ar gael yn Gymraeg. Yn yr

---

<sup>47</sup> Llywodraeth Cymru (2018) *Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr*, Llywodraeth Cymru.

<sup>48</sup> CCAUC (2019) Cylchlythyr / Circular: Degree Apprenticeships in Wales and Proposals for Funding 2019/20.

un modd, câi peirianeg ei weld yn sector lle roedd y Saesneg yn fwyaf blaenllaw ac nad oedd yn hawdd cyfieithu rhai termau.

‘Mae gennym ddarlithwyr sy’n gallu cyflwyno yn Gymraeg ac sy’n gallu marcio aseiniadau yn Gymraeg a’r myfyrwyr yn gwybod amdany’n nhw. Efallai bod rhai o’r myfyrwyr yn cael trafferth gyda’r cyfieithiad technegol, a dyna pam efallai nad yw rhai myfyrwyr yn dewis ei wneud yn Gymraeg. Mae yna dîm gwych ac fel cyflogeion ein hunain gallwn ni i gyd gymryd rhan mewn rhaglen iaith Gymraeg. Ar gyfer myfyrwyr mae’r ddarpariaeth yn cael ei chynnig ac yn cael ei hyrwyddo’n dda.’

### **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.68 Mae ychydig o anghysondeb rhwng safbwyntiau’r staff a’r prentisiaid yn hyn o beth oherwydd ymysg gradd-brentisiaid sy’n siarad Cymraeg, dywedodd 20 (54 y cant) nad oedd unrhyw ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnig yn eu gradd-brentisiaeth, ac ymhlith y grŵp hwn, pan ofynnwyd iddynt a oeddent am gael y cyfan/unrhyw ran o’u gradd yn y Gymraeg, ymatebodd un ei fod eisiau rhywfaint ohoni yn Gymraeg, tra bod un arall eisiau’r radd gyfan yn y Gymraeg, gan awgrymu rhywfaint o alw, er yn fach, am ddarpariaeth yn y Gymraeg.
- 6.69 Yn ehangach, gofynnwyd i brentisiaid i ba raddau yr oedd eu gradd yn cynnig cyfleoedd i wneud hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Teimlai pedwar y cant (7/199) eu bod yn darparu cyfleoedd o’r fath i raddau helaeth, tra bod 22 y cant arall (44/199) yn datgan eu bod yn gwneud hynny i ryw raddau. Roedd 36 cant arall yn ansicr, gyda’r gweddill yn ateb nad oeddent yn gwneud hynny o gwbl.

### **Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

- 6.70 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cyflwyno [saith nod llesiant](#). Mae dyluniad y gradd-brentisiaethau yn cyd-fynd ag amcanion cyflawni (1) Cymru lewyrchus, (2) Cymru sy’n fwy cyfartal, a (3) Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. Yn ogystal, mae’n nodi’r Pum Ffordd o Weithio, sef egwyddorion y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dangos wrth wneud penderfyniadau er mwyn dangos eu bod yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.<sup>49</sup> Mae Pum Ffordd o Weithio, a dau o’r rhain o bosibl sydd

---

<sup>49</sup> Fe’i diffinnir fel a ganlyn: ‘gweithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau’.

fwyaf perthnasol i'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau, sef “meddwl i'r hirdymor” a “cydweithio”.

- 6.71 Mae'r isadran isod yn nodi sut mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn cyfrannu at bob un o'r nodau hyn ac at y Ffyrdd o Weithio.

### **Cymru lewyrchus**

- 6.72 Mae'r nod hwn yn cynnwys uchelgais i bobl yng Nghymru fedru cael “gwaith teilwng” ac i ddatblygu “sgiliau ar gyfer y dyfodol”.<sup>50</sup> Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn cyfrannu at yr amcanion hyn o'r cam dylunio hyd at ei chynnal a'i chyflwyno. Mae'r rhaglen wedi targedu sectorau diwydiannol yr ystyrir bod ganddynt fylchau a phrinder sgiliau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru. Wrth wneud hynny, y gobaith yw y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen mewn sefyllfa well i ymateb i anghenion sgiliau'r dyfodol. Yn hyn o beth dull gweithredu'r rhaglen yw *meddwl i'r hirdymor* drwy fynd ati i ddatblygu sgiliau a fydd yn ymateb i anghenion yfory yn yr economi yn ogystal ag i anghenion heddiw.
- 6.73 Ymhellach, y cyfle i uwchsgilio cyflogeion yw un o'r prif gymhellion i gyflogwyr gymryd rhan yn y rhaglen (fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol). Mae'r ymatebion i'r arolwg ar-lein i radd-brentisiaid hefyd yn dystiolaeth fod y rhaglen yn helpu i uwchsgilio gweithwyr. O ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen, adroddodd 28 y cant o radd-brentisiaid (55/195) eu bod wedi cael dyrchafiad neu wedi gwneud cynnydd yn eu rôl neu eu sefydliad. Yn ogystal, dywedodd 96 y cant (189/197) o'r gradd-brentisiaid fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi arwain at wella eu sgiliau academiaidd a dysgu.

### **Cymru sy'n fwy cyfartal**

- 6.74 Mae'r nod hwn yn cynnwys “sichrau mynediad cyfartal i swyddi gweddus” a “chyfleoedd addysgol”.<sup>51</sup> Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi ceisio cyfrannu at y nod hwn trwy roi pwyslais ar ehangu cyfranogiad a sichrau bod y rhaglen yn hygyrch i bawb. Yn ogystal, mae gradd-brentisiaethau yn ceisio ehangu mynediad i addysg uwch i ystod ehangach o unigolion nad ydynt efallai wedi manteisio ar gyfleoedd addysg uwch traddodiadol. Ymddengys fod y rhaglen wedi gwneud cynnydd cryf o ran galluogi pobl i gael mynediad i addysg uwch o deuluoedd nad

<sup>50</sup> [Cymru lewyrchus – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

<sup>51</sup> [Cymru sy'n fwy cyfartal – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

ydynt wedi gwneud hynny o'r blaen, gyda thystiolaeth yn dangos bod gradd-brentisiaid yn llawer mwy tebygol o fod y genhedlaeth gyntaf yn eu teulu i fynychu addysg uwch na'r rhai sy'n gwneud graddau cyntaf. Ategwyd hyn hefyd gan staff mewn sefydliadau AU, a adroddodd yn aml fod y rhaglen wedi cefnogi dysgwyr i gael mynediad i addysg uwch a hwythau o bosibl erioed wedi ymgysylltu ag addysg uwch o'r blaen.

'Rydyn ni wedi sylwi bod y gradd-brentisiaethau wedi ehangu mynediad i AU, yn enwedig gan y rhai sy'n dod o grwpiau is yn yr IMD (Mynegeion Amddifadedd Lluosog), felly mae'n dod â dynion ifanc gwyn i amgylchedd AU, ac mae rhai ohonynt wedi dweud na fyddent erioed wedi breuddwydio y byddent wedi gwneud gradd oni bai am radd-brentisiaethau. Nhw yw'r cyntaf yn eu teulu. Rydyn ni'n ymfalchïo'n fawr yn y garfan benodol honno. Mae'r rhaglen wir wedi gweithio iddyn nhw.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

- 6.75 Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn un o'r meysydd lle mae'r rhaglen wedi ei gweld yn anodd gwireddu ei huchelgeisiau.
- 6.76 Ymysg y gradd-brentisiaid a gofrestrodd roedd nifer is o gyfranogwyr benywaidd a rhai o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig na nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer graddau cyntaf yng Nghymru, fel y dangosir yn adran 4. Ymddengys bod hyn yn rhannol oherwydd y rhaglenni a ddewiswyd ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Er enghraifft, mae cyfraddau'r cyfranogwyr benywaidd yn cyd-fynd yn fras â chyfran y myfyrwagedd sydd wedi cofrestru ar gyrsiau gradd gyntaf mewn cyrsiau Peirianeg a Thechnoleg neu Gyfrifiadura.
- 6.77 Mewn cyfweiliadau wrth drafod ehangu cyfranogiad, dywedodd mwyafrif y staff cyflenwi eu bod wedi'u cyfyngu o ran faint y gallent ei wneud i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau, yn rhannol oherwydd bod recriwtio'n dod yn bennaf drwy gyflogwyr; felly, mae amrywiaeth isel rhwng y rhywiau yn cyd-fynd â phatrymau presennol mewn lleoliadau cyflogaeth. Yn ogystal, mynegodd llawer o aelodau staff bryderon bod nifer uwch o ddynion mewn peirianeg a digidol wedi ymwreiddio yn gynt nag y gallent hwy ddylanwadu arno; er enghraifft, trafododd sawl cyfranogwr sut oedd nifer uwch y dynion mewn pynciau STEM yn deillio o addysg ysgol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o arfer da mewn sefydliadau AU i wella cyfranogiad cyfranogwyr benywaidd, e.e. cynnal [Technocamps](#) i ennyn diddordeb mewn technoleg ddigidol ym Mhrifysgol Abertawe.

## **Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

- 6.78 Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, nod y rhaglen oedd cynnig cyfleoedd yn y Gymraeg; fodd bynnag, cyfyngedig fu'r ddarpariaeth sydd wedi ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a, hyd yma, prin fu'r ddarpariaeth a gyflwynir yn y Gymraeg, a hynny wedi'i dylanwadu'n rhannol gan ddiffyg galw gan brentisiaid. Wedi dweud hynny, mae mwyfwy o siaradwyr Cymraeg ar y rhaglen, gyda dros 35 y cant (110/310) yn disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai a dderbyniwyd yn 2020/21.

## **Cydweithredu**

- 6.79 Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi ceisio cynyddu faint o gydweithio sy'n digwydd ymhlith sefydliadau AU, colegau AB, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn bodloni anghenion cyflogwyr yn y ffordd orau. Wrth adfyfrio ar ganfyddiadau'r ymchwil, mae ymdeimlad, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon, bod rhywfaint o gynnydd wedi bod o ran cydweithio; fodd bynnag, mae hyn wedi adeiladu'n bennaf ar gysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes rhwng sefydliadau addysgol, gydag achosion newydd o weithgarwch ar y cyd yn llai cyffredin ac, fel rheol, wedi ennill ei blwyf i raddau llai yn arferion gweithredol y rhaglen.

## **Meysydd ar gyfer gwella**

- 6.80 Gofynnwyd i bawb a gyfwelwyd am eu barn ar welliannau posibl i fodel cynnal gradd-brentisiaethau. Roedd themâu cyson yn codi ac fe'u crynhoir hwy isod.

## **Llwyth gwaith**

- 6.81 Un o'r prif heriau oedd trafferthion yn gysylltiedig â chydbwysu gwaith, astudio a bywyd cartref i'r gradd-brentisiaid. Soniwyd am yr her hon gan ddau draean y gradd-brentisiaid (131/195), a chan 43 y cant o'r cyflogwyr yn ogystal â staff rheoli a chyflenwi yn y sefydliadau AU, a rhanddeiliaid ehangach.
- 6.82 Yn cyd-fynd â'r her hon, dywedai gradd-brentisiaid yn aml bod angen mwy o amser arnynt neu fod angen i'r cwrs fynd yn arafach. Roedd hyn yn cynnwys mwy o amser i gwblhau aseiniadau. Mynegwyd hyn gan 23 y cant (11/47) o radd-brentisiaid a gymerodd ran yn yr arolwg dros y ffôn.

## Y cwrs yn cyd-fynd â gwaith

6.83 Dywedodd gradd-brentisiaid (36 y cant; 17/47) hefyd eu bod am weld mwy o gynnwys sy'n berthnasol i'w swydd neu ddiwydiant. Roeddent eisiau defnyddio mwy o "enghreifftiau bywyd go iawn" a oedd yn cymhwyso dysgu damcaniaethol i'w cyd-destun nhw. Roedd hyn weithiau yn adlewyrchu cyfle posibl a gollwyd i glymu elfennau academaidd y rhaglen ag elfennau seiliedig ar waith y rhaglen. Gan mai ymatebion y prentisiaid oedd y rhain, nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd hyn wedi'i ddylanwadu gan ffactorau a allai fod y tu hwnt i reolaeth y sefydliadau AU, megis gofynion achredu proffesiynol neu fframweithiau'r gradd-brentisiaethau.


'[O ran] yr aseiniadau seiliedig ar waith, roedd hi'n teimlo fel bod rhaid iddynt ffitio'r gweithle a'r byd academaidd yn fwy na gyda'r gweithle ei hun. Roedd yn rhaid i chi wneud iddyn nhw ffitio rywsut. Am gyfnod eithaf hir ro'n i'n cael aseiniadau lle ro'n i'n gorfod ceisio gwneud pethau i fyny o'r hyn rwy'n ei wneud yn y gwaith, ond gallai fod wedi bod yn haws cael trafodaeth gyda'r cyflogwr a dweud mai dyma'r math o bethau yr hoffen ni eu gwneud ac yn enwedig eu gwneud ar y cyd er mwyn iddyn nhw wir fod yn ddefnyddiol.'

**(Gradd-brentis, Arolwg dros y ffôn)**

6.84 Yn yr un modd, dywedodd sawl cyflogwr (naw cant; 7/76) eu bod am gael mwy o fewnbwn i'r cwrs, neu i'r cwrs gael ei wneud yn fwy perthnasol i'w lleoliad.

6.85 Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd 33 y cant (64/193) o'r gradd-brentisiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein fod y radd-brentisiaeth yn cyd-fynd â'u swydd bresennol "i raddau helaeth". Ar yr un pryd, dywedodd 58 y cant (112/193) ohonynt ei fod yn cyd-fynd "i ryw raddau", a dywedodd naw y cant (17/193) nad yw'n cyd-fynd "o gwbl", a gwelir dadansoddiad yn ôl fframwaith yn Ffigur 6.1 isod.

**Ffigur 6.1: I ba raddau y teimlir bod y radd-brentisiaeth yn cyd-fynd â rôl swydd yn ôl fframwaith**



Sylwer: n=122 (digidol) a n=71 (peirianneg)  
Ffynhonnell: Arolwg ar-lein

6.86 Roedd cyflogwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am y ddarpariaeth gradd-brentisiaeth. Roedd 84 y cant (66/78) o'r cyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg dros y ffôn wedi dweud bod y cyrsiau wedi cyfateb â'u disgwyliadau "i raddau helaeth". Yn ogystal, adroddodd 78 y cant (62/79) o gyflogwyr fod y cyrsiau yn cyd-fynd â mathau'r gwasanaethau/gweithgareddau y mae eu sefydliad yn gwneud ar hyn o bryd "i raddau helaeth", ac roedd 77 y cant (61/79) yn cytuno fod y cyrsiau yn cyd-fynd "i raddau helaeth" â'r mathau o weithgareddau a gwasanaethau yr hoffent eu gwneud yn y dyfodol. Mae'n werth ymchwilio ymhellach i'r diffyg cyfatebiaeth rhwng adborth cyflogwyr a phrentisiaid ar aliniad cwrs a gallai adlewyrchu'r gwahaniaeth ynghylch pa mor gyfarwydd ydynt â natur benodol y gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r brentisiaeth neu efallai ddisgwyliadau gwahanol.

### **Gweinyddu'r cwrs**

6.87 Roedd maes arall i'w wella ymhlith prentisiaid yn ymwneud â gweinyddu'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â chyfathrebu amserol ynghylch pryd y byddai gwyliau'r brifysgol, pa fodiwlau y byddai'r gradd-brentis yn eu gwneud y flwyddyn honno, anghysondeb wrth recordio darlithoedd, a hysbysu prentisiaid am ddyddiadau dechrau. Trafodwyd materion o'r math hwn mewn 26 y cant (12/47) o'r cyfweliadau dros y ffôn â gradd-brentisiaid.

6.88 Yn yr un modd, dywedodd cyflogwyr yn aml yr hoffent weld mwy o gyfathrebu gan y brifysgol neu fwy o adborth ar gynnydd cyflogwyr. Awgrymwyd hyn fel gwelliant i'r rhaglen gan 14 y cant (11/76) o gyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg dros y ffôn.



'Hoffwn weld canlyniadau'r myfyrwyr ar hyd y ffordd a gweld pa aseiniadau y maent yn eu cael a mwy o adborth gan y brifysgol ar eu cynnydd.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

### **Dylanwad cyflogwyr ar beth oedd cynnwys cyrsiau**

6.89 Er bod y rhan fwyaf o gyflogwyr wedi nodi eu bod wedi gallu dylanwadu ar gynnwys y cwrs, dywedodd 39 y cant (29/74) o gyflogwyr nad oeddent wedi gallu dylanwadu ar yr hyn oedd mewn cwrs. Fodd bynnag, dywedodd rhai cyflogwyr nad oedd angen dylanwadu ar gynnwys y cwrs oherwydd ei fod yn adlewyrchu eu hanghenion presennol. Wedi dweud hynny, dywedodd 19 y cant (14/74) o gyflogwyr nad oeddent wedi cael cyfleoedd i gyfrannu, a dywedodd rhai cyflogwyr nad oedd y sefydliadau AU "yn hyblyg".

'Y cwrs yw'r cwrs – mae'n ymdrin â phynciau penodol a'r rheini sydd yn fframwaith y radd. Mi wnaethon nhw ddweud wrthon ni beth oedd y cynnwys a chawsom ni ddim cyfle i roi ein barn ar hynny.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

6.90 Roedd y sylwadau hyn ar adegau wedi'u lleddfu â chydabyddiaeth na allai'r cyrsiau o reidrwydd fod yn "hyblyg i anghenion pob cyflogwr". Soniwyd am y ceisio "cael cydbwysedd" hyn hefyd gan staff rheoli a chyflenwi yn y sefydliadau AU. Yn wir, dywedodd staff o ddau SAU eu bod wedi wynebu rhai heriau wrth ymateb i flaenoriaethau gwahanol o du cyflogwyr a sicrhau y gallai cyrsiau alinio â gofynion hanfodol eraill.

'Rydyn ni'n gweithio gyda [chwmnïau] i edrych ar eu hanghenion a lle gallwn deilwra ein rhaglen. Rydyn ni'n ymweld â'r cwmnïau yn rheolaidd ac yn siarad â mentoriaid. Mae'r coleg yn gwneud llawer o hynny hefyd [...] Rydyn ni'n agored i awgrymiadau ond, yn y pen draw, mae'n rhaid i'n cwrs fod yn gydnaws â'r prosesau asesu a sicrhau ansawdd yn y prifysgolion. Yn ogystal â hynny, mae gyda ni achrediad BCS i'w ystyried. Petaen ni'n gohirio un modiwl o blaid modiwl arall, byddai'n rhaid ni sicrhau ein bod yn cyflawni pob [maen prawf] y mae'r modiwl hwnnw'n ei ddarparu.' **(Staff Rheoli a Chyflenwi, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

6.91 Fodd bynnag, dywedodd rhai cyflogwyr (19/74) fod y prifysgolion wedi bod yn "hyblyg", yn "geflogol", ac wedi eu cynnwys mewn sgwrs ynghylch eu hanghenion


ac wedi egluro'n agored pan nad oeddent wedi gallu cyflawni yn erbyn y rhain. Serch hynny, mae'n bosibl fod nifer y cyflogwyr a ddywedodd nad ydynt yn cael cyfle i gyfrannu yn awgrymu bod angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod pob cyflogwr yn teimlo bod ganddynt gyfleoedd digonol i gyfrannu at y rhaglen. O ran y rhai a deimlai fod ganddynt lai o gyfleoedd ar gyfer mewnbwn, roeddent fel arfer hefyd yn dweud eu bod yn cael cyfarfodydd llai aml gyda cholegau/prifysgolion o'i gymharu â'r cyflogwyr hynny a deimlai fod ganddynt gyfleoedd i gyfrannu.

## **Buddion ac effeithiau yn codi o radd-brentisiaeth**

### **Buddion ac effeithiau i radd-brentisiaid**

- 6.92 Wrth ystyried y manteision, y canlyniadau a'r effeithiau sy'n deillio o'r gradd-brentisiaethau, mae'n werth myfyrio ar y llwybr canlyniadau a luniwyd fel rhan o'r theori newid ar gyfer cam cwmpasu'r gwerthusiad (Ffigur 6.2 isod).

**Ffigur 6.2: Llwybr canlyniadau ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaeth**




6.93 Roedd y rhan fwyaf o'r gradd-brentisiaid yn gadarnhaol am y rhaglen a'r cyfle i gymryd rhan ynddi. Yn wir, dywedodd 96 y cant (187/195) o'r gradd-brentisiaid a lenwodd yr arolwg ar-lein y byddent yn argymell y cynllun i eraill. O'r rhain, dywedodd 32 y cant (60/187) eu bod eisoes wedi gwneud hynny.

'Dwi'n meddwl ei fod yn gynllun da iawn. Dwi'n nabod pobl arno sydd wedi dod yn syth allan o'r ysgol [...] allwch chi ddychmygu'r gyrfaoedd maen nhw'n mynd i'w cael? Bod yn 21 ac wedi cael tair blynedd o brofiad yn y maes?! Ond i bobl fel fi, rydw i'n 31, ac mae'n ffordd mor dda o newid gyrfa yn gyflym iawn heb orfod defnyddio'ch cynilion. Mae'n wych – mae'n gynllun da iawn, iawn a dwi'n gobeithio y byddant yn cynnal rhagor ohonon nhw.' **(Gradd-brentis, Arolwg dros y ffôn)**

'Yn ddiolchgar iawn am y cyfle i wneud gradd-brentisiaeth. Heb y cyllid fyddwn i ddim hyd yn oed wedi meddwl am wneud cwrs gradd.' **(Gradd-brentis, Arolwg dros y ffôn)**

- 6.94 Adroddodd nifer fechan o radd-brentisiaid (pedwar y cant; 8/195) na fyddent yn argymell y cwrs. Cyfeiriodd y gradd-brentisiaid hyn at faterion yn ymwneud â chynnal y cwrs a'r effaith ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel rhesymau pam na fyddent yn argymell y cwrs.
- 6.95 Credai'r rhan fwyaf o radd-brentisiaid fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau. Yn wir, dywedodd 96 y cant (189/197) o radd-brentisiaid fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi arwain at wella eu sgiliau academaidd neu eu dysgu, a dywedodd 80 y cant (158/197) fod cymryd rhan wedi arwain at wella eu sgiliau cyfathrebu.
- 6.96 Nododd gradd-brentisiaid hefyd gynnydd yn eu hunanhyder (86 y cant; 168/196) a hunangymhelliant (83 y cant; 162/196) gan ddweud eu bod yn gallu gweithio'n fwy annibynnol (78 y cant; 153/196). O ddadansoddi hyn yn ôl fframwaith, ychydig iawn o wahaniaethau oedd yn yr ymatebion hyn. Er nad oedd yn ganlyniad i'r rhaglen, gofynnwyd i radd-brentisiaid hefyd yn y cyswllt hwn am rôl y radd-brentisiaeth yn cyfrannu at eu cydbwysedd bywyd a gwaith (gan adlewyrchu'r farn am yr heriau i gyfranogwyr y soniodd rhanddeiliaid amdanynt yn y gwerthusiad cwmpasu). Yn ôl y disgwyl, nid oedd cymryd rhan yn y rhaglen fel petai wedi cyfrannu at well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'r mwyafrif o'r gradd-brentisiaid (57 y cant; 111/196).


**Ffigur 6.3: I ba raddau y mae cymryd rhan yn y radd-brentisiaeth wedi arwain at ...?**



Sylwer: n=197

6.97 Mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau hefyd yn cyfrannu at uwchsgilio mwy cyffredinol. Er enghraifft, adroddodd 96 y cant (186/193) o'r gradd-brentisiaid fod y radd wedi rhoi sgiliau ehangach iddynt a oedd yn berthnasol mewn sefyllfaoedd eraill, a dywedodd 96 y cant (187/195) fod y cwrs wedi rhoi sgiliau ac arbenigedd iddynt sydd o ddefnydd i'w cyflogwr presennol, ac nid oedd llawer o wahaniaeth o ran hyn wrth ddadansoddi yn ôl fframwaith (gweler Ffigur 6.4 isod).

**Ffigur 6.4: I ba raddau y mae'r radd-brentisiaeth ...?**



Sylwer: n=195

‘Rwy’n meddwl ei fod yn gadarnhaol iawn – cael plattfform i uwchsgilio – ac mae wedi rhoi llawer o hyder i mi ehangu i rolau na fyddwn i wedi edrych arnynt o’r blaen mae’n siŵr.’ **(Gradd-brentis, Cyfweliad dros y ffôn)**


- 6.98 O ran canlyniadau ar gyfer prentisiaid, dywedodd cyfran fawr o’r gradd-brentisiaid (46 y cant; 89/195) fod ganddynt ddyheadau cliriach ar gyfer eu gyrfa, a dywedodd 37 y cant (73/195) eu bod yn teimlo’n fwy diogel yn eu swydd (Ffigur 6.5 isod).
- 6.99 Mewn rhai achosion, ymddengys fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi esgor ar ganlyniadau caled i radd-brentisiaid. Er enghraifft, dywedodd 28 y cant (55/195) ohonynt eu bod wedi cael dyrchafiad, a dywedodd 29 y cant (56/195) fod eu cyfrifoldebau wedi cynyddu. Fodd bynnag, dim ond 19 y cant (38/195) o brentisiaid a ddywedodd fod eu cyflog wedi codi, er bod hyn yn cynyddu i 30 y cant (11/37) i’r rheiny a oedd wedi cofrestru yn y rhaglen cyn 2019, sy’n debygol o adlewyrchu’r ffaith bod cydnabyddiaeth tâl yn ddangosydd canlyniad tymor hwy.
- 6.100 Mae’r rhaglen hefyd wedi esgor ar effeithiau meddalach. Er enghraifft, dywedodd 45 y cant (88/195) o radd-brentisiaid eu bod yn teimlo’n fwy hyderus ac yn well am gyflawni eu rôl.

‘Mae wedi bod yn wych, a dweud y gwir. Rwyf wedi dysgu gwybodaeth na fyddwn erioed wedi gwneud fel arall, ac wedi dysgu sut i godio, sy’n

anhygoel i berson dyslecsig – rwyf wedi gallu ei wneud yn llwyddiannus a chael gradd dosbarth cyntaf! Rwyf wedi dysgu sgiliau na fyddwn i erioed wedi gwybod y gallwn eu gwneud yn y gorffennol ac mae wedi rhoi'r hyder i mi wybod y gallaf wneud pethau.' **(Gradd-brentis, Cyfweiliadau dros y ffôn)**

- 6.101 Mae'r effeithiau a adroddwyd gan radd-brentisiaid hefyd yn awgrymu y gallai'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau fod yn cynorthwyo cyflogwyr i gadw staff. Er enghraifft, adroddodd 30 y cant (58/195) o'r gradd-brentisiaid fod ei boddhad yn eu swydd wedi cynyddu, dywedodd 30 y cant (58/195) eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, a dywedodd 24 y cant (47/195) eu bod wedi aros gyda'u cyflogwr neu y byddant yn aros yn hirach nag y byddent fel arall.
- 6.102 Dadansoddir yr ymatebion yn ôl fframwaith yn Ffigur 6.5 trosodd. Mae'n bosibl fod y gwahaniaeth yn y gyfran sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt yn y gweithle yn rhannol gysylltiedig â'r ffaith fod 23 y cant o ymatebwyr yn y fframwaith digidol wedi cofrestru yn 2018 (ac, felly wedi cael mwy o gyfle i ddefnyddio'r wybodaeth honno) mewn cymhariaeth ag 11 y cant o ymatebwyr yn y fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu.

**Ffigur 6.5: Sut (os o gwbl) y mae cymryd rhan yn y radd-brentisiaeth wedi effeithio ar eich rôl yn y gweithle? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**



Sylwer: n=74 (peirianneg) a n=125 (digidol)

6.103 Er mwyn deall ymhellach effaith ychwanegol net y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, gofynnwyd i gyfranogwyr beth fyddent wedi'i wneud pe na bai gradd-brentisiaethau ar gael. Mae Tabl 6.2 yn dangos, heb y rhaglen, y byddai dros draean y rhai yn y fframwaith digidol (a 41 y cant o'r rheini yn y fframwaith digidol) wedi dewis peidio gwneud unrhyw gymwysterau neu hyfforddiant eraill, tra byddai llai na chwarter wedi dewis astudio gradd draddodiadol yn y brifysgol.



**Tabl 6.2: Pa rai o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich sefyllfa pe na baech wedi cael y cyfle i astudio am radd-brentisiaeth?<sup>52</sup>**

Fyddwn i ddim wedi dewis gwneud unrhyw fath o gymwysterau neu hyfforddiant	71	36%
Mae'n siŵr y byddwn wedi dewis edrych ar gynlluniau hyfforddi eraill nad ydynt yn rhai prifysgol	62	31%
Mae'n siŵr y byddwn wedi dewis astudio am radd draddodiadol mewn prifysgol	45	23%
Mae'n siŵr y byddwn wedi dewis cael cymwysterau drwy goleg addysg bellach	21	11%
Mae'n siŵr y byddwn wedi dewis gwneud math arall o brentisiaeth	20	10%
Byddwn i wedi bod mewn sefyllfa wahanol	18	9%

Sylwer: n=199

### **Buddion ac effeithiau i'r cyflogwyr**

6.104 Roedd y mwyafrif yn gadarnhaol iawn am y Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Pan ofynnwyd am sylwadau terfynol, roedd 72 y cant o'r cyflogwyr (53/74) yn ddigymell wedi bwrw ati i ganmol y rhaglen. Roedd y sylwadau hyn yn aml yn disgrifio'r rhaglen fel rhywbeth sydd o fudd i gyflogwyr, prentisiaid a Chymru. Defnyddiwyd y term "win-win" gan 10 cyflogwr yn eu cyfweiliadau.

'I'r prentis mae'n rhoi profiad bywyd gwych na fyddent fel arfer yn ei gael o fynd i'r brifysgol yn unig. Maen nhw'n gweld sut beth yw'r rolau go iawn, dysgu yn y swydd ond hefyd ennill gradd. Mae'n gweithio'n dda iddyn nhw ac i ninnau. Mae pawb ar eu hennill mewn gwirionedd.'

#### **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

'Mae'n gwbl syfrdanol, un o'r pethau gorau sydd wedi'i wneud i helpu'r diwydiant yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'n busnes ni ac i'r diwydiant.'

#### **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

'Pawb yn elwa – y cyflogai, y cyflogwr, y busnes, Cymru.'

#### **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

6.105 Dywedodd 87 y cant (66/76) o gyflogwyr fod cael staff i gymryd rhan yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y gweithle naill ai "i raddau helaeth" (58 y cant; 44/76) neu "i ryw raddau" (29 y cant; 22/76). Yn ogystal, dywedodd 45 y cant o gyflogwyr (34/75) bod cymryd rhan wedi helpu i gynyddu cyfradd cadw staff ymysg gradd-brentisiaid, tra dywedodd 43 y cant o gyflogwyr (32/75) ei bod yn rhy fuan i ddweud.

<sup>52</sup> Roedd dewisiadau lluosog yn bosibl, ac felly roedd y ganran yn fwy na 100.

'Mae'r radd-brentisiaeth wedi rhoi modd i ni ôl-lenwi ar lefel is, a symud pobl drwy'r busnes – mae'n creu llwybr cadarn ar gyfer gweithlu sefydlog yn y dyfodol.' **(Cyflogwr, arolwg dros y ffôn)**

- 6.106 Dywedodd cyfran uwch o gyflogwyr (66 y cant; 50/76) hefyd fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cynyddu cyfraddau cynhyrchiant ymysg gradd-brentisiaid. Soniodd sawl cyflogwr fod cael cyflogeion ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn helpu i ddod â'r wybodaeth ddiweddaraf i mewn i'r sefydliad. Adroddwyd hyn gan 11 y cant (8/72) o gyflogwyr mewn ymateb i gwestiwn penagored ynghylch manteision y rhaglen.

'Mae sgiliau blaengar, cyfoes [yn] cael eu trosglwyddo i'r gweithle hefyd, ac mae gweithio a dysgu yn y swydd yn amlwg yn treiddio drwodd.' **(Cyflogwr, arolwg dros y ffôn)**

- 6.107 Mae dyhead cryf ymysg cyflogwyr i barhau â'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Dywedodd rhan fwyaf y cyflogwyr (80 y cant; 61/76) eu bod yn rhagweld y byddent yn cofrestru staff ychwanegol mewn gradd-brentisiaethau, ac roedd y rhan fwyaf o gyflogwyr (75 y cant; 56/75) yn eiddgar i weld ehangu yn y dewis o radd-brentisiaethau.

'Mae'r rhaglenni hyn yn hollbwysig i'n busnes a llawer o gwmnïau eraill oherwydd y prinder sgiliau yn y maes hwn, ac mae gallu rhoi'r cyfleoedd hyn i dyfu a datblygu pobl wedi golygu bod pawb yn gyffredinol wedi elwa.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

'Mae'n gyfle gwych i'w roi i weithwyr a hoffem barhau i gefnogi pobl, yn enwedig pobl leol, gyda chyflogaeth a chynnydd yn eu datblygiad personol. A'r cyfan sydd ei angen arnom yw ychydig mwy o adborth a diweddariadau.' **(Cyflogwr, Arolwg dros y ffôn)**

## 7. Datblygiad Gradd-brentisiaethau i'r Dyfodol

### Crynodeb o'r Adran

- Mynegodd sefydliadau AU a chyflogwyr ill dau awydd i gynyddu'r ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael yn ogystal ag ehangu gradd-brentisiaethau i Lefel 7.
- Mae rhanddeiliaid yn pryderu y bydd methu ag ehangu arlwy'r gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn arwain at nifer cynyddol o gyflogwyr yn anfon eu gweithwyr i Loegr i gael y ddarpariaeth honno.
- Byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw ehangu ar y Rhaglen Gradd-brentisiaethau. Os nad oes cyllid ychwanegol gan y sector cyhoeddus ar gael ar gyfer yr ehangu hwn, mae'n debygol y bydd angen ei godi naill ai o gyfraniadau ychwanegol gan gyflogwyr neu gan y gweithwyr sy'n gwneud y gradd-brentisiaethau.

7.1 Mae'r adran hon yn ystyried dyfodol gradd-brentisiaethau, maint y diddordeb a'r galw am eu hehangu, a'r opsiynau o ran sut y gellir ariannu'r rhaglen yn gynaliadwy.

### CTER (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

7.2 Cyflwynwyd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) i'r Senedd yn hydref 2021. Mae'r Bil yn sefydlu CTER, sef corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu CCAUC. Y bwriad yw sefydlu CTER yn 2023 i fod â chyfrifoldebau am strategaeth, ariannu a goruchwyllo'r sectorau canlynol:

- Addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion
- Addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.<sup>53</sup>

7.3 Mae'r Bil wrthi'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Bydd gradd-brentisiaethau yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiwn, a bydd y cyllid ar gyfer y rhaglen, os caiff ei fodelu'n debyg i'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd, yn cael ei ddyfarnu fel grant i'r Comisiwn i'w ddsbarthu i sefydliadau AU.

<sup>53</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Crynodeb o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Llywodraeth Cymru.

7.4 Cyhoeddwyd [adroddiad craffu Cyfnod 1](#) y Bil ym mis Mawrth 2022, a hwn yn canolbwyntio ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mewn perthynas â gradd-brentisiaethau, nododd yr adroddiad fod nifer o randdeiliaid wedi galw am eglurder ynghylch trefniadau sicrhau ansawdd gradd-brentisiaethau.<sup>54</sup> Mae Estyn o'r farn, pe bai cyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau ansawdd yn cael eu diffinio'n gliriach, y byddai'n 'darparu dull integredig a chydgyssylltiedig o sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yr holl ddarpariaeth prentisiaethau dysgu seiliedig ar waith ar ba bynnag lefel'.<sup>55</sup> Fel rhan o'r cyfle i egluro cyfleoedd ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig, adroddodd Estyn y 'gallent gydweithio ag arbenigedd corff fel ASA i adolygu cynnwys addysg uwch y rhaglenni gradd-brentisiaethau, gan gyfuno â phrofiad Estyn o arolygu uwch brentisiaethau, yn enwedig yn y gweithle'.<sup>56</sup> Datganodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) y dylai gradd-brentisiaethau ddod o dan yr un dulliau sicrhau ansawdd â phrentisiaethau ar lefelau eraill, gan fod o'r farn y byddai hyn yn arwain at ddull gweithredu 'llawer mwy cydweithredol'.<sup>57</sup>

#### **Y broses i bennu blaenoriaethu'r rhaglen i'r dyfodol**

- 7.5 Mae ysfa eang ymhlith cyflogwyr, sefydliadau AU a cholegau AB, ynghyd â rhanddeiliaid ehangach, i ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau a gynigir yng Nghymru. Ymhlith cyflogwyr, soniodd tri chwarter ohonynt am awydd i ehangu'r radd-brentisiaethau (gan godi i 85 y cant ymhlith y cyflogwyr sy'n gysylltiedig â'r fframwaith peirianeg a gweithgynhyrchu uwch).
- 7.6 Ymhlith sefydliadau AU a chyflogwyr roedd dyheadau nid yn unig i ehangu natur y pynciau a'r sectorau y byddai gradd-brentisiaethau ar gael ynddynt, ond hefyd i godi lefel y ddarpariaeth sydd ar gael i Lefel 7 (cyfwerth â gradd meistr).
- 7.7 Yn 2021, gofynnodd CCAUC am farn sefydliadau AU, yn seiliedig ar alw cyflogwyr, ar gyfer meysydd i'w hehangu yn y fframwaith. Roedd y farn a gasglwyd yn adleisio'r adborth a gafwyd drwy'r gwerthusiad mewn perthynas â chynnydd yn amrywiaeth y sectorau a chyflwyno darpariaeth hyd at Lefel 7. Fel proses ymgysylltu, roedd gofyn barn sefydliadau AU yn beth doeth i'w wneud; fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau yr ymgysylltwyd â cholegau AB a darparwyd dysgu seiliedig

---

<sup>54</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, paragraff 26. 2021.](#)

<sup>55</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 11 Estyn. 2021.](#)

<sup>56</sup> [Senedd Cymru. 2021. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Paragraff 367.](#)

<sup>57</sup> Ibid. – paragraff 102.

ar waith gan sefydliadau AU fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Ymhellach, deellir y byddai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn nodi unrhyw flaenoriaethau ar gyfer gradd-brentisiaethau yn eu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol.

- 7.8 Mae pryderon ymhlith rhanddeiliaid y bydd methu ag ehangu arlwy'r gradd-brentisiaethau yn arwain at niferoedd cynyddol o gyflogwyr yn anfon eu gweithwyr i Lloegr i gael mynediad i ddarpariaeth yno (gyda'r risg gynhenid na fyddant yn dychwelyd). Ymhellach, mae cyrsiau gradd-brentisiaeth erbyn hyn ar gael i chwilio amdanynt yng nghronfa ddata UCAS. Er y bydd hyn yn rhoi hwb sylweddol i'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno astudio mewn prifysgol, bydd hefyd yn dangos graddau'r gwahaniaeth yn yr ystod o radd-brentisiaethau a gynigir yn Lloegr o'i gymharu â'r rhai a gynigir yng Nghymru.
- 7.9 Mae angen hefyd ystyried y gogwydd cynhenid o ran rhyw y prentisiaid ar hyn o bryd, gyda darpariaeth gradd-brentisiaethau ar gael ar gyfer y sectorau cymeradwy presennol yn unig. Wrth edrych ar opsiynau i ehangu'r rhaglen, dylid ystyried proffil rhyw y gweithlu yn y sectorau ehangu arfaethedig. Mae rhai o'r sectorau sy'n cael eu cynnig ar gyfer ehangu (e.e. adeiladu a lled-ddargludyddion cyfansawdd) mewn perygl o waethygu'r duedd hon. Felly, er y dylid parhau â sail resymegol gyson o ran anghenion sgiliau a phrinder sgiliau mewn sectorau twf, sydd hefyd yn adlewyrchu'r theori newid a'r llwybr canlyniadau cysylltiedig ar gyfer y rhaglen (gweler Ffigur 6.2), mae angen i broffil rhyw y sectorau hynny gael ei gynnwys wrth ystyried yr ehangu hwnnw.
- 7.10 Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn hefyd yn dangos nifer o ffactorau cydgysylltiedig sydd wedi dylanwadu ar gynnydd y rhaglen hyd yma. Mae angen ystyried y rhain fel rhan o unrhyw ehangu yn y dyfodol:
- Natur amserlen y rhaglen a'r defnydd cysylltiedig o'r term "peilot" neu "gyfnod cychwynnol". Mae rhai rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflogwyr a chynrychiolwyr sefydliadau AU a cholegau AB) wedi tybio bod hyn yn golygu diffyg ymrwymiad hirdymor (ac o bosibl cyllid) gan Lywodraeth Cymru i radd-brentisiaethau ac mae wedi creu rhywfaint o amharodrwydd (ymysg sefydliadau AU a chyflogwyr) i fuddsoddi adnoddau yn y rhaglen.

- Y cyhoeddiadau ariannu blynyddol, gan fod hyn wedi ei gwneud yn anodd denu cyflogwyr i gofrestru gweithwyr fel gradd-brentisiaid a gwneud ymrwymiad heb sicrwydd o arian i gadarnhau bod y rhaglen yn mynd rhagddi.
- Amseriad y cyhoeddiadau cyllid blynyddol (fel arfer rhwng Ionawr a Mehefin bob blwyddyn) gan fod llai o gyfle, o ran cofrestru i gychwyn ym mis Medi, i'r sefydliadau AU a'r colegau AB hynny sydd angen ymgysylltu â chyflogwyr newydd, neu, mewn partneriaeth â chyflogwyr, greu ymarfer recriwtio o gylch gradd-brentisiaeth.
- Mae'r amseru hefyd yn cyfyngu ar y gallu i gael unrhyw afael ar ysgolion a cholegau AB (gan y byddai myfyrwyr yn debygol o fod wedi gadael erbyn hynny neu eisoes wedi penderfynu ar eu cyrchfan nesaf). Gwaethygir hyn gan y diffyg ymgyrch hyrwyddo genedlaethol ar radd-brentisiaethau, gan y gallai ymgyrch o'r fath hybu ymwybyddiaeth ymhlith ymadawyr ysgol o'r llwybr gradd-brentisiaeth fel opsiwn i'w ystyried.

### **Opsiynau ar gyfer model ariannu cynaliadwy ar gyfer y Rhaglen Gradd-brentisiaethau**

7.11 Wrth ystyried sut y gellid ariannu ehangu'r gradd-brentisiaethau, defnyddiol yw edrych eto ar raddfa ariannol y rhaglen hyd yn hyn. Cafodd rhaglen 2018–2021 gyllid o £20m dros dair blynedd:

- 2018/19 – £3m
- 2019/20 – £5m
- 2020/21 – £12m.

Ym mis Mehefin 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad pellach i gefnogi'r rhaglen am flwyddyn ychwanegol. Yn estyniad blynyddol 2021/22 y Rhaglen Gradd-brentisiaethau sicrhawyd £9.5m arall.<sup>58</sup>

7.12 Mae nifer o faterion allweddol yn ymwneud â'r posibilrwydd o ehangu'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Nid yw'r rhaglen bresennol wedi cyrraedd y niferoedd a ddyrannwyd eto o ran nifer y gradd-brentisiaid; o ran y fframwaith digidol (erbyn 2020/21) roedd bron 50 y cant yn brin o'r ffigurau a dargedwyd (a allai fod wedi dylanwadu ar y gostyngiad ariannol yn y dyraniad i'r rhaglen ar gyfer

<sup>58</sup> CCAUC. 2021. Cylchlythyr / Circular [Degree Apprenticeships in Wales and Proposals for Funding 2021/22](#).

2021/22). Gallai'r anallu hwn i lenwi'r galw disgwylidig am ddarpariaeth arwain at amau a ddylid ehangu'r rhaglen. Mae'r diffyg hyrwyddo canolog neu gadarnhad y bydd buddsoddiad parhaus (y tu hwnt i gyhoeddiadau ariannu blynyddol), yn ogystal â'r argraff fod y rhaglen yn gynllun peilot, ac amseriad y cyhoeddiadau ariannu oll gyda'i gilydd wedi effeithio ar y gallu i greu galw am y rhaglen. Fodd bynnag, efallai mai'r anallu i gael y niferoedd a ddyrannwyd o radd-brentisiaid yn y sectorau presennol sydd o bosibl yn rhoi'r rhesymeg tu ôl i arallgyfeirio'r ddarpariaeth i gyflawni'r niferoedd hynny, os gellir cynnal lefelau ariannu tebyg i'r hyn a gafwyd yn 2020/21.

- 7.13 Mae pryderon hefyd ynghylch cost gradd-brentisiaethau (hyd at £9,000 yr unigolyn bob blwyddyn hyd at uchafswm o £27,000) o'i gymharu â ffioedd prentisiaethau i wneud cymwysterau ar lefel is, gydag ymchwiliad y Senedd yn argymhell defnyddio model costio cyson ar gyfer darpariaeth yr holl brentisiaethau.<sup>59</sup> Mae awydd yn gysylltiedig â hynny i ddeall yn well y canlyniadau/buddion cymharol, gwerth ychwanegol ac effaith ychwanegol gradd-brentisiaethau o gymharu â phrentisiaethau eraill er mwyn deall yn well a yw'r gost hon yn cynrychioli gwerth am arian. Mae'r Papur Technegol a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn amlinellu model posibl ar gyfer deall yr enillion/canlyniadau; fodd bynnag, mae ei ddefnydd yn dibynnu ar ddata nad yw ar gael am sawl blwyddyn.
- 7.14 Mae cyllid ar gyfer gradd-brentisiaethau yn elwa o gyfraniadau gan gyflogwyr drwy'r ardoll prentisiaeth (sy'n cyfateb i 0.5 y cant o fil cyflog blynyddol cyflogwr pan fo hwn yn uwch na £3m). Yng Nghymru, fodd bynnag, telir y cyfraniad cyllid hwnnw i ddechrau arni i Lywodraeth y DU ac yna caiff ei integreiddio yn y grant bloc i Lywodraeth Cymru, gydag addasiadau i werth y grant bloc yn cael eu pennu drwy ddefnyddio fformiwla Barnett. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gyflogwr wneud y cysylltiad yn rhwydd rhwng eu cyfraniadau ardoll â'r gyllideb ariannu prentisiaethau yng Nghymru a deall maint y cyllid a gynhrychir i Gymru drwy'r ardoll prentisiaethau ac, yn benodol, y cyfyngiadau cymharol o ran yr ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.
- 7.15 Wrth ystyried ehangu'r rhaglen yng nghyd-destun y cwmpas ariannu presennol, mae'n werth nodi hefyd y byddai darpariaeth Lefel 7 (sydd angen 120 credyd dysgu

---

<sup>59</sup> Senedd Cymru (2020) Gradd-brentisiaethau, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Senedd Cymru.

ar gyfer pob Lefel 7 [gradd meistr] a ddyfernir), o'i hariannu ar gyfraddau tebyg i'r rhai hynny ar ddarpariaeth Lefel 6, yn gofyn am lawer llai o adnoddau na gradd-brentisiaeth (sydd angen 360 o gredydau dysgu). Pe dyrannid lefelau cyllid i brentisiaethau Lefel 7 sy'n debyg i'r rheini ar Lefel 6, byddai'n bosibl darparu tair prentisiaeth Lefel 7 am bob prentisiaeth Lefel 6 (yn dibynnu ar lefelau'r galw ac ar ba lefel y mae'r gradd-brentis yn cofrestru yn y rhaglen).

- 7.16 Ystyriaeth bellach yn yr ariannu presennol yw natur y gradd-brentisiaethau y gall y rhaglen ehangu iddynt. Mae'r ddarpariaeth cyrsiau yn y sectorau digidol a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yn enwedig yn nodweddiadol yn rhai o'r ddarpariaeth sy'n ddrutach i'w chynnal (yn bennaf oherwydd natur yr offer sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau hyn).<sup>60</sup> Mae'n bosibl felly bod modd ystyried archwilio gwir gost cynnal y ddarpariaeth bresennol gyda sefydliadau AU ochr yn ochr â'r sectorau posibl i ehangu iddynt lle mae prinder sgiliau er mwyn deall yn well yr ehangu posibl o fewn y cwmpas ariannu presennol.
- 7.17 Pe bai angen ystyried sicrhau cyllid o ffynonellau eraill (naill ai i gadw'r dyraniadau cyllid ar y lefelau presennol neu i helpu i ehangu'r rhaglen), mae sawl opsiwn ar gael, pob un â'i heriau cysylltiedig ei hun.

### **Cyfraniadau gan gyflogwyr**

- 7.18 Fel yr amlinellwyd gan Bravenboer (2019), mae fersiwn gyfredol system ffioedd dysgu'r Deyrnas Unedig yn dilyn Adroddiad Browne (2010), a'r rhesymeg allweddol y tu ôl i gynyddu ffioedd dysgu myfyrwyr oedd mai myfyrwyr yw prif fuddiolwyr addysg uwch (drwy gael incwm uwch), ac felly ei bod yn deg eu bod yn talu amdano. Yn y cynigion gwreiddiol, aeth Browne ati i gyferbynnu anghenion myfyrwyr ag anghenion cyflogwyr yn y system ffioedd uwch newydd. Gyda gradd-brentisiaethau, serch hynny, mae cyfrifoldeb deublyg ar gyflogwyr a phrentisiaid/myfyrwyr, o gofio bod y ddau grŵp yn elwa o'r ymyriad. Dangosir hyn gan y ffaith (fel yr amlinellir yn adran 6) bod 87 y cant o gyflogwyr a holwyd wedi adrodd bod cyfranogiad staff yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y gweithle, tra bod dau draean y cyflogwyr wedi adrodd cynnydd mewn cynhyrchiant ymysg gradd-brentisiaid.

---

<sup>60</sup> Yr Adran dros Addysg/Department for Education (2019) – Understanding costs of undergraduate provision in Higher Education – Costing study report.



7.19 Yn Lloegr, os nad yw cyflogwyr yn talu'r ardoll, yna rhaid iddynt dalu 10 y cant o'r ffioedd dysgu. Byddai defnyddio'r dull hwn yng Nghymru felly yn arwain at gysondeb ym model ariannu'r rhaglen. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gyflogwyr sy'n fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau; felly, byddai'r dylanwad ar y gyllideb gyffredinol yn debygol o fod yn ymylol. Ymhellach, gallai unrhyw gais am gyfraniadau ariannol gan gyflogwyr leihau poblogrwydd y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yn enwedig yn sgil cyflwyno'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol sydd wedi'i hariannu'n llawn (a'r llinyn yn y rhaglen sydd dan arweiniad cyflogwyr), yr addasu ar ddarpariaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i ddatblygu'r gweithlu yng Nghymru fel nad oes angen paru â sector preifat mwyach, ynghyd â'r ffaith bod yr holl brentisiaethau eraill yn cael eu hariannu'n llawn.

'Yr her yw bod prentisiaethau yn gyffredinol yn cael eu hariannu'n llawn. Os na chaiff un ohonynt eu hariannu, bydd yn llai poblogaidd. Mae cyllid Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) ac ESF hefyd, [y] gallwn wneud cais amdano i osgoi [cyflogwyr] yn gorfod talu unrhyw beth. Felly, byddai'n sefyll allan fel rhwystr.' **(Rhanddeiliad, Coleg AB)**

7.20 Ymhellach, pan ofynnwyd a oedd unrhyw rwystrau a allai fod wedi cyfyngu ar gyflogwyr yn parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Gradd-brentisiaethau, y materion yn ymwneud â chostau a chyllid a grybwyllwyd amlaf (32/75) gan gyflogwyr i fod yn brif rwystr i barhau i ymwneud â'r rhaglen.

'Gan ei bod wedi'i hariannu'n llawn, gallwn roi'r cyfle hwn i ychydig rhagor o brentisiaid na fyddent yn gallu ei gael fel arall mae'n siŵr. Rydyn ni hefyd yn uwchsgilio staff ac yn llenwi bylchau lle mae prinder sgiliau. Pe na bai'r cyfle hwn ar gael, yna byddai'n rhaid inni edrych ar y niferoedd y gallai wneud y rhaglen. Fel nawr, [rydyn ni'n] edrych ar bob un fesul achos.' **(Cyflogwr, arolwg dros y ffôn)**

7.21 Roedd un rhanddeiliad a fu'n ymwneud â'r broses recriwtio cyflogwyr i'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau wedi tynnu sylw at ba mor heriol oedd eu denu i gofrestru eisoes o'i gymharu â'r Cyfrifon Dysgu Personol, o ystyried hyblygrwydd y cynnig hwnnw a'i fod yn gallu darparu modiwlau tymor byr drwy'r rhaglen sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion prinder sgiliau yn eu sefydliad.

7.22 Fodd bynnag, dywedodd un rhanddeiliad y gallai fod sail resymegol y tu ôl i drosglwyddo rhywfaint o gostau i gyflogwyr. Fel y dengys y dyfyniad isod, gwelir bod buddion ychwanegol o gymryd rhan yn y cynllun i gyflogwr penodol y prentis hwnnw.

'Rwy'n meddwl bod cyfrifoldeb ar gyflogwyr i gyfrannu. Boed hynny drwy gyflog neu'r swm a nodir sydd ei angen, rwy'n meddwl bod cyfrifoldeb o ryw fath arnynt, a dylai'r opsiynau hynny gael eu hystyried gan y llywodraeth gyda chyflogwyr. Mae angen atgoffa cyflogwyr y byddan nhw'n cael gweithiwr sydd â gradd sydd wedi treulio tair blynedd yn dod i adnabod DNA eu busnes, felly mae budd cudd i'r cyflogwr, felly fe ddylen nhw wneud rhyw fath o gyfraniad.' **(Rhanddeiliad Ehangach, Cyfweiliad â Rhanddeiliaid)**

### **Cyfraniad cyflogeion**

7.23 Dewis arall fyddai ystyried cyfraniadau gan radd-brentisiaid i'r rhaglen. Dangosodd yr arolwg mai cyflog blynyddol cyfartalog prentisiaid yn y rhaglen yw £30,000–£40,000 a bod gradd-brentisiaid mewn nifer o'r sefydliadau AU yn mynychu'r un darlithoedd ag israddedigion (sy'n talu ffioedd dysgu i astudio). Mae potensial, felly, i ystyried cael unigolion (ac/neu gyflogwyr) i gyfrannu at y radd-brentisiaeth drwy fath o brawf modd os yw cyflogau yn uwch na throthwy penodol. Unwaith eto, nid yw hyn heb heriau. Yn weinyddol, gallai fod yn anodd ac yn gostus i'w gyflwyno a gallai olygu darbwyllo darpar ymgeiswyr cyflogedig i beidio â gwneud y radd-brentisiaeth, gan eu harwain tuag at ddarpariaeth tymor byr neu beidio uwchsgilio yn gyfan gwbl. Wedi dweud hynny, mae'n debygol mai effaith fach iawn fyddai hyn yn ei chael ar y rhai sydd newydd eu recriwtio gan gyflogwr ar gyfer rôl cyflogedig ochr yn ochr â gradd-brentisiaeth.

7.24 Model arall a allai helpu cyfraniadau gweithwyr fyddai ystyried cynnwys gradd-brentisiaethau yn y system cyllid myfyrwyr er mwyn i brentisiaid fedru cael benthyciadau i dalu am eu ffioedd dysgu. Byddai cael eu cynnwys yn y system honno yn rhoi dewis i brentisiaid ynghylch cael benthyciad i dalu am y ffioedd dysgu, a thrwy hynny yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut y telir y ffioedd. Yn y sefyllfa hon, efallai y bydd cyflogwyr (yn enwedig cyflogwyr nad ydynt yn talu ardoll) yn cael eu hannog i gyfrannu at y ffioedd (yn enwedig os ydynt yn cystadlu â chyflogwyr eraill i recriwtio gweithwyr newydd i radd-brentisiaeth). Fodd bynnag, yn erbyn cefndir pan fo cyflogwyr yn disgwyl darpariaeth am ddim, mae'n debygol y

bydd amharodrwydd, ymhlith rhai cyflogwyr, i wneud hynny. Gallai sicrhau bod cyflogwyr yn deall yn well beth yw buddion a manteision gradd-brentisiaethau yn rhoi eglurder defnyddiol am rôl a gwerth gradd-brentisiaethau er mwyn darparu'r naratif i gyfiawnhau cyfraniad cyflogwyr ochr yn ochr â'u cyflogeion.

## Adran Cyfeiriadau

Adran dros Addysg / Department for Education (2019) [Understanding costs of undergraduate provision in Higher Education – Costing study report](#). ISBN: 978-1-83870-008-9.

Allies, O., Turner, D., O'Prey, L., Melville, D., a Vaid, L. (2021). [Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau: Adroddiad cwmpasu](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 66/2021.

Ardystio Prentisiaethau Cymru / Apprenticeship Certification Wales (2019) Gradd-brentisiaeth Ddigidol Digital Degree Apprenticeship (Cymru), Instructus.

ASA Cymru (2021) Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru – Adroddiad trosolwg, Caerloyw, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Bravenboer, D. (2019) The creative disruption of degree apprenticeships in the UK. In: Global Perspectives on Work-Based Learning Initiatives. Talbot, J., gol. Advances in Educational Technologies and Instructional Design (AETID). IGI Global, tt. 57-83

CCAUC (2019) [Gradd-brentisiaethau AU yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2019/20](#)

CCAUC (2020) [Gradd-brentisiaethau AU yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020-21](#)

CCAUC (2021) [Gradd-brentisiaethau AU yng Nghymru a Chynigion ar gyfer Cyllid 2020-22](#)

Hazelkorn, E. (2015) Tuag at 2030 – Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017) [Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru](#), WG30448 / Digidol ISBN 978-1-4734-8639-3.

Llywodraeth Cymru (2017) Budd y Cyhoedd a Chymru lewyrchus – Papur Gwyn, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru – Canlyniadau'r Ymgynghoriad](#). (aethpwyd iddo 30<sup>ain</sup> Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2019) Manyleb ar gyfer Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaeth, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021) Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Crynodeb o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) Cymru gryfach, decach a gwyrddach: Cynllun cyflogadwyedd a sgiliau, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Policy Connect (2019) Degree Apprenticeships Up to Standard, Policy Connect, London.  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Senedd Cymru (2020) Gradd-brentisiaethau, Caerdydd, Y Senedd.

Tystiolaeth ysgrifenedig, TER 16, [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch](#), paragraff 26.

Wavehill (2019) [Degree Apprenticeships Motivations Research, Office for Students](#).

## Atodiad A: Y ddarpariaeth gradd-brentisiaethau yn ôl sefydliad AU a Llwybr

Defnyddir rhifau isysgrif i ddangos cyrsiau a gynhelir mewn partneriaeth â choleg Addysg Bellach.

Sefydliad AU	Llwybr Digidol	Llwybr Peirianeg
<b>Prifysgol Bangor</b> Partneriaid cyflenwi: Grŵp Llandrillo Menai <sup>1</sup> a Choleg Cambria <sup>2</sup>	BSc (Anrh) Gwyddor Data Cymhwysol <sup>1</sup> BSc (Anrh) Seiberddiogelwch Gymhwysol <sup>1,2</sup> BSc (Anrh) Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol <sup>1,2</sup>	BSc (Anrh) Systemau Peirianeg Fecanyddol Cymhwysol <sup>1</sup> BSc (Anrh) Systemau Peirianeg Drydanol / Electronig <sup>1</sup>
<b>Prifysgol Caerdydd</b> Partner Cyflenwi: Coleg Gŵyr		BEng Peirianeg Integredig
<b>Prifysgol Metropolitan Caerdydd</b>	BSc (Anrh) Gwyddor Data Cymhwysol BSc (Anrh) Seiberddiogelwch Gymhwysol BSc (Anrh) Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol	
<b>Y Brifysgol Agored yng Nghymru</b>	BSc (Anrh) Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol	
<b>Prifysgol Abertawe</b> Partneriaid cyflenwi: Coleg Gŵyr <sup>3</sup> a Choleg Cambria <sup>4</sup>	BSc (Anrh) Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol <sup>3</sup>	BEng (Anrh) Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch <sup>4</sup> BEng (Anrh) Peirianeg Awyrennol a Gweithgynhyrchu <sup>4</sup>
<b>Prifysgol De Cymru</b>	BSc (Anrh) Datrysiadau Digidol a Thechnoleg BSc (Anrh) Datrysiadau Digidol a Thechnoleg (Gwyddor Data) BSc (Anrh) Datrysiadau Digidol a Thechnoleg (Seiberddiogelwch)	BEng (Anrh) Peirianeg Drydanol ac Electronig BSc (Anrh) Peirianeg Drydanol ac Electronig BEng (Anrh) Peirianeg Fecanyddol BSc (Anrh) Peirianeg Fecanyddol

Sefydliad AU	Llwybr Digidol	Llwybr Peirianeg
		BSc (Anrh) Technolegau Lled-Ddargludyddion
<b>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</b>	BSc (Anrh) Datblygu Meddalwedd Cwmwl	BEng (Anrh) Gweithrediadau Gweithgynhyrchu Uwch
Partner Cyflenwi: Coleg Sir Gâr <sup>5</sup>	BSc (Anrh) Cyfrifiadura Cwmwl	BEng (Anrh) Peirianeg Drydanol ac Electronig <sup>5</sup>
	BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Peirianeg Meddalwedd)	BEng (Anrh) Peirianeg Systemau Gweithgynhyrchu
	BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Systemau Data a Gwybodaeth)	BEng (Anrh) Gwyddor Deunyddiau
	BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch)	BEng (Anrh) Peirianeg Fecanyddol a Gweithgynhyrchu
		BEng (Anrh) Peirianeg Fecanyddol <sup>5</sup>
		BEng (Anrh) Rheoli Peirianeg
		BSc (Anrh) Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron (Datblygu ac Ymchwil Technegol)
		BEng (Anrh) Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron (Diogelwch)
		BEng (Anrh) Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron (Profi a Gwerthuso)
		BEng (Anrh) Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron (Gweithgynhyrchu a Phrosesu)
		BEng (Anrh) Ordnans, Arfau Rhyfel a Ffrwydron (Torri i lawr a Gwaredu)
<b>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam</b>	BSc (Anrh) Cyfrifiadura	BEng (Anrh) Dylunio Peirianeg Ddiwydiannol (Trydanol ac Electroneg) <sup>6</sup>
Partneriaid cyflenwi: Grŵp NPTC <sup>6</sup> – Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys	BSc (Anrh) Seiberddiogelwch	BEng (Anrh) Dylunio Peirianeg Ddiwydiannol (Mecanyddol) <sup>6</sup>

---

<b>Sefydliad AU</b>	<b>Llwybr Digidol</b>	<b>Llwybr Peirianeg</b>
		BEng (Anrh) Peirianeg Cynhyrchu
		BEng Ynni Carbon Isel, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd

---



## **Atodiad B: Offer Ymchwilio**

### **Cyfweliad â Rhanddeiliaid (cyflenwi)**

#### **Cyfweliad**

1. Fel cyflwyniad, a fydddech cystal â dweud eich rôl chi (a rôl eich sefydliad) mewn perthynas â'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau?

#### **Gwneud cais i'r Rhaglen**

2. Beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r prif reswm/rhesymau pam fod eich sefydliad yn ymwneud â'r rhaglen Gradd-brentisiaethau?
3. Pa gamau wnaethoch chi eu cymryd wrth gynllunio eich ymateb/cynnig i bob rownd ariannu?
  - a) Sut (os o gwbl) wnaeth y rhain esblygu ar bob rownd?
4. Sut wnaethoch chi benderfynu ar y galw o du cyflogwyr am eich darpariaeth?
  - a) Wrth ymgysylltu â chyflogwyr i benderfynu ar y galw, pa heriau (os o gwbl) y daethoch ar eu traws?
  - b) Sut aethoch chi i'r afael â'r rhain?
5. I ba raddau yr oedd y model a gynigiwyd (ac a weithredwyd) yn cyd-fynd â darpariaeth AU a oedd yn bodoli eisoes? Pa addasiadau ac/neu fuddsoddiadau (mewn staff/isadeiledd) a wnaethoch i'ch galluogi i gynnal y radd-brentisiaeth?
6. Wrth ymwneud â'r rhaglen, pa ddulliau o gydweithio (rhwng sefydliadau AU, Colegau AB, darparwyr DSW a chyflogwyr) a gafodd eu hystyried?

## Cydweithredu a gweithgarwch partneriaeth

**Ym mha ffyrdd (os o gwbl) ydych chi wedi cydweithio â sefydliadau partner eraill i gynnal gradd-brentisiaethau? Er enghraifft, a yw'r dull cydweithio yn strategol neu'n ymwneud fwy â gweithredu? A oes unrhyw drefniadau rhyddfrait ffurfiol?**

- a) A gafodd y bartneriaeth ei sefydlu mewn ymateb i'r cyfle i gynnal gradd-brentisiaeth neu a oedd hi'n bodoli cyn y rhaglen?
- b) Sut (os o gwbl) y mae rolau'r partneriaid wedi esblygu dros amser?
- c) Sut (os o gwbl) ydych chi'n rhagweld y bydd rôl partneriaid (neu'r sefydliadau rydych chi'n partneru â nhw) yn datblygu yn y dyfodol?
- d) Os nad yw eich sefydliad wedi cydweithio â sefydliadau partner i gynnal gradd-brentisiaethau) pam na wnaethpwyd hyn?

7. Gan adfyfrio ar y cydweithredu, pa mor llwyddiannus oedd y partneriaethau hynny yn eich barn chi?
  - a) Pam ydych chi'n dweud hynny?

## Hyrwyddo ac Ymgysylltu

8. Pa ddulliau ydych chi wedi'u defnyddio i hyrwyddo gradd-brentisiaethau ac i ymgysylltu â chyflogwyr ac/neu eu rhwydweithiau cynrychioli? Pa mor llwyddiannus fu'r rhain?
  - a) Pa rôl (os o gwbl) y mae cydlynu rhanbarthol wedi'i gael wrth ddylanwadu ar eich dull o ymgysylltu â chyflogwyr?
  - b) Sut (os o gwbl) ydych chi wedi addasu eich dull o ymgysylltu â chyflogwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19?
9. A fu unrhyw lwybrau dilyniant i'r rhaglen y gellid eu nodi?
  - a) Pa lwybrau dilyniant sydd wedi bod yn llwyddiannus?
  - b) Pam hynny yn eich barn chi?
  - c) Tua faint o brentisiaid ydych chi wedi'u cael drwy'r llwybr hwn/llwybrau hyn?
10. Pa ddulliau a ddefnyddir gyda chyflogwyr ar ôl iddynt gysylltu â chi am y tro cyntaf? Sut maent yn cael eu cefnogi i gofrestru staff ar y rhaglen?
11. Pa ddulliau sy'n cael eu defnyddio i gofrestru prentisiaid ar y rhaglen?
  - a) Ydi'r dull yn wahanol wrth gofrestru gweithwyr presennol cyflogwr o'i gymharu â rhai sydd newydd eu recriwtio gan gyflogwr? Sut?
  - b) Pa fathau o ddysgu blaenorol sydd gan y gradd-brentisiaid ar eich rhaglen fel arfer?
  - c) Ar ôl cofrestru, sut (os o gwbl) y caiff anghenion sgiliau hanfodol eu hasesu?
  - d) Pan nodir fod anghenion sgiliau hanfodol, sut mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu?

## Cynnal Prentisiaethau

12. Pa fodel cyflenwi ydych chi'n ei ddefnyddio ar y cwrs gradd-brentisiaeth rydych chi'n rhan ohono? (er enghraifft adeg cofrestru (derbyn myfyrwyr newydd fis Medi/yn ystod y flwyddyn), hyd y cwrs (cyfateb i dymhorau academiaidd/trwy gydol y flwyddyn), strwythur/oriau cyflwyno, lleoliad ei gynnal (dysgu cyfunol, neu ddysgu ar safle cyflogwr er enghraifft)
- a) Pa effaith mae COVID-19 wedi ei chael ar y model cyflenwi hwn?
13. Sut mae dysgu seiliedig ar waith wedi'i integreiddio i ddyluniad y cwricwlwm?
- a) Yn fwy penodol, sut mae gofynion Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSBR) wedi'u hintegreiddio i ddyluniad y cwricwlwm, ac i ba raddau y mae hyn yn dylanwadu ar ddiddordeb cyflogwyr?
- b) A fu unrhyw densiynau rhwng gofynion cyflogwyr a dull y brifysgol o weithredu?
14. Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i sicrhau ansawdd y cyrsiau gradd-brentisiaeth rydych chi'n eu cynnal?
- a) Pa rôl (os o gwbl) sydd gan y fframwaith prentisiaeth a Datganiad Nodweddion yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) wrth gefnogi cynnal gradd-brentisiaethau yn llwyddiannus?
15. Ar ôl cofrestru prentisiaid ar radd-brentisiaeth, beth yw natur y cysylltiad a'r cymorth parhaus a roddir i gyflogwyr?

### **Pa ddulliau cysylltu a chymorth a ddefnyddir gyda phrentisiaid?**

### **A fydddech chi'n dweud bod partneriaethau cynaliadwy yn cael eu sefydlu gyda chyflogwyr ac/neu eu cyrff cynrychioli?**

- a) Os oes, pa ddulliau sydd wedi bod fwyaf effeithiol wrth sefydlu'r rhain?
16. Gan feddwl am eich cysylltiad parhaus â chyflogwyr
- a) A fu unrhyw densiynau y gellid eu nodi (er enghraifft rhwng meini prawf academiaidd a gofynion cyflogwyr)
- b) Sut (os o gwbl) y cafodd y tensiynau hyn eu goresgyn?
- c) Pa gefnogaeth allai helpu i oresgyn y tensiynau hyn?

## Y Gymraeg

17. Sut mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hybu a'u cefnogi trwy gynllun y rhaglen a thrwy ei chyflenwi?
18. Yn fwy penodol, ydych chi'n cynnig unrhyw ran o'r ddarpariaeth yn y rhaglen drwy'r Gymraeg?  
a) A yw unrhyw ran o'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog?
19. Pa fecanweithiau (os o gwbl) sydd ar waith i nodi a gweithredu ar gyfleoedd i ddatblygu a chynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?
20. Wrth gynllunio a chynnal y rhaglen, sut mae nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi?

## Cynnydd

21. Hyd y gwyddoch chi, sut mae'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau yr ydych yn gysylltiedig â hi yn perfformio (o ran ymgysylltu â chyflogwyr a chofrestru prentisiaid) yn erbyn y proffil?  
a) Pa ffactorau allai wedi dylanwadu ar y perfformiad hwnnw?

## Ehangu cyfranogiad

22. Pa dulliau sy'n cael eu defnyddio i ehangu cyfranogiad, yn enwedig o ran cyfranogiad:  
a) Menywod?  
b) Unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig?  
c) Rhieni sengl  
d) Unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill?
23. Pa mor llwyddiannus y mae'r dulliau hyn wedi bod?
24. Pa rwystrau y mae'r grwpiau hyn fel arfer yn dod ar eu traws sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gradd-brentisiaethau?
25. Beth yw'r rhwystrau mwy cyffredinol y mae cyflogwyr/dysgwyr yn dod ar eu traws sy'n golygu nad ydynt yn cymryd rhan yn y Gradd-brentisiaethau?  
a) A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i helpu i leihau'r rhwystrau hyn?

## Adfyfrio

26. Wrth feddwl am y rhaglen gradd-brentisiaethau, sut y gellid gwella'r model cyflenwi a ddefnyddiwyd gennych chi?
27. Sut mae'r sector AU wedi cefnogi'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau (e.e. pa fuddsoddiadau sydd wedi'u cael eu gwneud ynddi)?
- a) Ym mha ffyrdd y mae sefydliadau AU/colegau AB yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan dimau polisi yn CCAUC a Llywodraeth Cymru i gynnal y Rhaglen Gradd-brentisiaethau?
  - b) Ydych chi'n meddwl bod y cymorth (gan sefydliadau AU ac Arweinwyr Polisi) ar gyfer gradd-brentisiaethau yn gynaliadwy?
28. Beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r dyheadau yn y sector ar gyfer datblygu'r rhaglen gradd-brentisiaethau yn y dyfodol?
- a) Pa rwystrau sy'n bodoli i gyflawni'r dyheadau hynny a sut y gellir eu lliniaru?
29. Pa gyfleoedd ariannu cynaliadwy y gellid eu hystyried wrth symud ymlaen?
30. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu nad ydym wedi sôn amdano?

## Cyfweliad â Rhanddeiliad (Strategol)

### Cyflwyniad

1. Fel cyflwyniad, a allech ddisgrifio eich rôl chi (ac un eich sefydliad) mewn perthynas â'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau?
2. O'ch safbwynt chi, beth yn eich barn chi yw nodau/amcanion gradd-brentisiaethau?

### Gweithredu

Mae'r casgliad nesaf o gwestiynau yn gofyn am eich barn ar lwyddiant gweithredu a chynnal y Rhaglen Gradd-brentisiaethau yng Nghymru.

3. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddau sector ar gyfer y rhaglen, sef y sector Digidol a Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg. O'ch safbwynt chi, ydych chi'n meddwl fod y rhain yn sectorau priodol i'w targedu? (Ydw/nac ydw)
  - a) (Os nac ydych) pa rai eraill ddylai wedi cael blaenoriaeth a pham?
4. Ydych chi'n gyfarwydd â'r fframweithiau sydd wedi'u datblygu ar gyfer y ddau sector? (ydw/nac ydw)
  - a) (os ydych) i ba raddau ydych chi'n meddwl bod dyluniad y rhain wedi ymateb i anghenion presennol a darpar anghenion y sectorau
